Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
88/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
21/09/2023

# Ymchwil i weithrediad cynnar y Cwricwlwm i Gymru: adroddiad Cam 2

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Crown Copyright Digital ISBN **978-1-83504-731-6**

**Ymchwil i weithrediad cynnar y Cwricwlwm i Gymru: adroddiad Cam 2**

Awduron: Hefin Thomas, Brett Duggan, Sam McAlister-Wilson, Lois Roberts, Ymchwil Arad. Claire Sinnema, Athro Cyswllt, Cyfadran Addysg a Gwaith Cymdeithasol, Prifysgol Auckland. Dr Nia Cole-Jones, Dr Alison Glover, Y Brifysgol Agored yng Nghymru.

Thomas, H; Duggan, B; McAlister-Wilson, S; Roberts, L; Sinnema, C; Cole-Jones, N; Glover, A (2023). *Ymchwil i weithrediad cynnar y Cwricwlwm i Gymru: adroddiad Cam 2*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 88/2023

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/ymchwil-gydag-ysgolion-dysgwyr-ar-weithredur-cwricwlwm-i-gymru-yn-gynnar-cam-2

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Ysgolion

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 0255381

E-bost: ymchwilysgolion@llyw.cymru

## Cynnwys

Rhestr o'r tablau ........................................ 1
Geirfa ........................................ 2
Diolchiadau ........................................ 2
Crynodeb gweithredol ........................................ 3
1. Cyflwyniad ........................................ 17
2. Methodoleg ........................................ 24
3. Proffil yr ymatebwyr ........................................ 34
4. Y cynnydd ar weithredu'r cwricwlwm newydd ........................................ 38
5. Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith ........................................ 48
6. Y Gymraeg ........................................ 59
7. Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol ........................................ 69
8. Elfennau eraill yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ........................................ 80
9. Cynnydd ........................................ 88
10. Asesu ........................................ 102
11. Tegwch a chynwysoldeb ........................................ 111
12. Ymgysylltu â rhieni a gofalwyr ........................................ 121
13. Barn dysgwyr ........................................ 127
14. Casgliadau a materion i'w hystyried ........................................ 136
Atodiad A: Canllawiau trafod a ddefnyddiwyd yn ystod yr ymchwil ........................................ 150
Atodiad B: Proffil sampl Cam 1 ........................................ 159

### Rhestr o'r tablau

Table 1. Proffil y sampl o uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau a weithredodd y cwricwlwm yn ystod 2022/23 a gyfwelwyd yng Ngham 2 yn ôl sector a chyfrwng iaith ........................................ 35
Table 2. Proffil y sampl o uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau a weithredodd y cwricwlwm yn ystod 2022/23 a gyfwelwyd yng Ngham 2 yn ôl rhanbarth ........................................ 35
Table 3. Proffil y sampl a gyfwelwyd fesul sector a chyfrwng ieithyddol ........................................ 160
Table 4. Proffil y sampl a gyfwelwyd yn ôl rhanbarth ........................................ 160

## Geirfa

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| ACRh | Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb |
| ADY | Anghenion dysgu ychwanegol |
| DARPL | Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol |
| Gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith | Gyrfaoedd a phrofiadau sy’n gysylltiedig â byd gwaith |
| HMS | Diwrnod Addysg a Hyfforddiant mewn Swydd |
| ILICh | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (un o’r chwe maes dysgu a phrofiad) |
| Meysydd/MDPhau | Meysydd dysgu a phrofiad |
| OECD | Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd |
| TGAU | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd |
| Y Cwricwlwm | Y Cwricwlwm i Gymru |
| Ysgol pob oed | Ysgolion i ddysgwyr 3–16/19 oed |

## Diolchiadau

Mae’r tîm ymchwil yn ddiolchgar dros ben i’r holl uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau a roddodd o’u hamser gwerthfawr i gyfrannu i’r astudiaeth. Diolch yn arbennig hefyd i’r dysgwyr ym mhob rhan o Gymru a gymerodd ran mewn grwpiau trafod ac a rannodd eu profiadau o ddysgu o dan drefniadau’r cwricwlwm newydd. Diolch yn fawr.

## Crynodeb gweithredol

1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r ail gam (Cam 2) o ymchwil ansoddol ymhlith 62 o uwch arweinwyr ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a gyflawnwyd gan gwmni Ymchwil Arad a'r Brifysgol Agored yng Nghymru. Nod yr ymchwil hon oedd cynnal dau gam o ymchwil ansoddol yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23 er mwyn deall sut roedd diwygiadau'r cwricwlwm a'r dulliau asesu yn gweithio i ymarferwyr a dysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau, a'r ffactorau a oedd yn rhwystro ac yn hwyluso gweithredu llwyddiannus.
2. Mae'r adroddiad hwn yn dilyn ymlaen o'r adroddiad Cam 1, a gyflwynodd ganfyddiadau o'r set gyntaf o gyfweliadau ag uwch arweinwyr.[1] Yn ogystal â chyflwyno canfyddiadau o gyfweliadau dilynol ag uwch arweinwyr, mae hefyd yn cyflwyno tystiolaeth o waith maes gyda grwpiau o ddysgwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, gan amlinellu eu profiadau o weithredu'r cwricwlwm yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23.
3. Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg byr ar ganfyddiadau Cam 1 ond yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion a godwyd yn ystod ail gam yr ymchwil.

### Methodoleg a dadansoddi

4. Roedd cam cyntaf yr ymchwil ('Cam 1') yn cynnwys cyfweliadau â 64 o uwch arweinwyr mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a oedd yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn ystod 2022/23 yn ogystal â chwe grŵp ffocws a oedd yn cynnwys cyfanswm o 30 o ddysgwyr. Yn ystod Cam 2, roedd y tîm ymchwil wedi ceisio cyfweld cynifer â phosibl o'r uwch arweinwyr hynny a gyfwelwyd yn ystod y cam cyntaf. Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn wedi'u seilio ar y canlynol:
   - Cyfweliadau â 62 o uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau a oedd yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn ystod 2022/23 (roedd 56 o'r rhain wedi'u cyfweld hefyd yn ystod Cam 1; roedd chwe uwch arweinydd wedi'u recriwtio o'r newydd);

[1] Ymchwil gydag ysgolion ar weithrediad cynnar y Cwricwlwm i Gymru: Adroddiad Cam 1 (Llywodraeth Cymru, Ebrill 2023)

- Cyfweliadau â 12 uwch arweinydd mewn ysgolion uwchradd a oedd yn paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023;
- Naw grŵp ffocws a oedd yn cynnwys cyfanswm o 54 o ddysgwyr.

5. Recriwtiwyd samplau bwriadus o uwch arweinwyr i sicrhau bod pob rhanbarth wedi'i gynnwys ac amrywiaeth o leoliadau a ddynodwyd yn ôl y math o leoliad (cynradd, uwchradd, ysgol pob oed, ysgol arbennig, uned cyfeirio disgyblion) ac yn ôl y cyfrwng iaith (cyfrwng Cymraeg, yn cynnwys lleoliadau dwy iaith); cyfrwng Saesneg).[2]
6. Er mwyn llywio'r broses o ddewis cyfranogwyr ar gyfer y grwpiau ffocws o ddysgwyr, gofynnwyd i uwch arweinwyr ddewis tri dysgwr ar hap o grŵp blwyddyn (4, 5, 6 neu 7) neu ddosbarth cofrestru penodol, gan sicrhau cymysgedd rhwng y rhywiau, ac wedyn gwahodd pob un o'r tri dysgwr a ddewiswyd i ddod â ffrind ag ef i'r grŵp ffocws. Roedd hyn yn golygu bod hanner y cyfranogwyr yn hap-sampl a hanner yn ffrindiau i'r rheini a ddewiswyd a gafodd wahoddiad i gymryd rhan.
7. Mae'n bwysig cydnabod y risg o duedd wrth ddewis y sampl o ysgolion a gymerodd ran yn yr ymchwil. Lle'r oedd lleoliadau wedi gwneud mwy o gynnydd na'i gilydd yn eu gweithgareddau paratoi, gallent fod yn fwy tebygol o gytuno i gyfrannu i'r astudiaeth. Mae disgrifiad o'r fethodoleg yn Adran 2 ac amlinellir proffil y cyfranwyr i'r ymchwil yn Adran 3.
8. Datblygwyd offer ymchwil i lywio'r gwaith maes ymhlith uwch arweinwyr a dysgwyr (gweler Adran 2 o'r prif adroddiad). Mae'r canfyddiadau isod wedi'u trefnu ar sail y themâu trafod yn y canllaw cyfweld ar gyfer uwch arweinwyr. Ystyriwyd rhai themâu trafod (Cynnydd cyffredinol ar weithredu'r Cwricwlwm i Gymru; Cynnydd; Asesu; Ymgysylltu â rhieni; Tegwch a chynwysoldeb) yng Ngham 1 (Tachwedd 2022-Ionawr 2023) ac yng Ngham 2 (Mai-Gorffennaf 2023), a chyfeirir isod at ganfyddiadau o'r ddau gam. Roedd tair thema (Gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith; y Gymraeg; Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol) wedi'u hystyried yng Ngham 2 yn unig. Roedd tair thema (Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh); Ieithoedd Rhyngwladol; Gweithio ar draws meysydd dysgu a phrofiad) wedi'u

[2] Drwy gydol yr adroddiad hwn, defnyddir y term 'ysgolion cyfrwng Cymraeg' wrth gyfeirio at ganfyddiadau ynghylch uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a hefyd mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion dwy iaith.

hystyried yng Ngham 1 yn unig ac wedi'u hailystyried yn fyr yng Ngham 2; mae canfyddiadau ar y themâu hyn wedi'u hamlinellu yn Adran 8 o'r prif adroddiad.

**Cynnydd ar weithredu'r cwricwlwm newydd**

9. Roedd yr adroddiad Cam 1 wedi canfod bod y rhan fwyaf o uwch arweinwyr yn fodlon ar y cynnydd a wnaethant hyd hynny ar ddylunio a gweithredu eu cwricwlwm. Nododd uwch arweinwyr fod ymarferwyr yn ymgymryd fwyfwy â chyfrifoldeb a pherchnogaeth ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm. Dywedodd cyfweleion fod ffocws cynyddol ar addysgeg a gweithgarwch cydweithredol mewn ysgolion a lleoliadau ac ar draws clystyrau. Roedd uwch arweinwyr hefyd wedi nodi bod y broses o ddylunio a gweithredu eu cwricwlwm wedi creu heriau o ran capasiti ac amser staff.

10. Yn ystod Cam 2, dywedodd uwch arweinwyr fod cynnydd da yn parhau ar weithredu'r cwricwlwm newydd. Roedd datblygiadau a nodwyd yn ystod cyfweliadau Cam 1 wedi symud ymlaen mewn nifer o ysgolion a lleoliadau, ac roedd uwch arweinwyr yn fodlon at ei gilydd ar y newidiadau a gafwyd ers iddynt ddechrau gweithredu.

11. Mewn lleiafrif o achosion, nododd uwch arweinwyr eu bod yn ei chael yn anodd symud ymlaen, a bod y cynnydd wedi bod yn arafach na'r disgwyl. Dywedodd yr uwch arweinwyr hyn eu bod yn teimlo eu bod wedi'u llethu gan raddau a chymhlethdod y diwygiadau.

12. Nododd uwch arweinwyr fod y broses o weithredu newidiadau o dan y Cwricwlwm i Gymru yn un ailadroddus, a bod angen monitro, adolygu ac ailddylunio drwy'r amser. Sylw cyffredin gan uwch arweinwyr oedd eu bod yn cynnal adolygiadau ac archwiliadau o'u cynlluniau cwricwlwm yn rheolaidd.

13. Dywedodd lleiafrif o uwch arweinwyr fod rhai aelodau staff yn amharod i droi oddi wrth fframweithiau a systemau sefydledig, yn enwedig mewn meysydd fel asesu. Yn yr achosion hyn, nododd uwch arweinwyr fod angen mwy o amser a chefnogaeth i feithrin hyder a gwybodaeth yr aelodau staff hyn.

14. Yn gyffredinol, nododd uwch arweinwyr eu bod yn cymryd rhan mewn clystyrau ysgolion a lleoliadau cadarn lle'r oedd perthynas waith effeithiol a bod y rhain yn darparu arweiniad, sicrwydd a chyfleoedd i gydweithio. Ar y cyfan, roedd yn ymddangos bod y perthnasoedd mewn clystyrau yn rhai cadarn a'u bod wedi

datblygu ers siarad ag uwch arweinwyr yng Ngham 1. Er hynny, roedd gwahaniaethau yn natur y cydweithio mewn clystyrau ac yn y graddau roedd clystyrau wedi integreiddio a datblygu dulliau ar y cyd.

15. Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd a oedd yn paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 wedi penderfynu gohirio ei gyflwyno er mwyn treulio mwy o amser yn treialu a mireinio agweddau ar eu cwricwlwm newydd. Dywedodd rhai fod ffactorau fel effaith y pandemig, arolygiadau ysgol a newidiadau diweddar ymysg arweinwyr ysgol wedi dylanwadu ar eu penderfyniad. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn credu eu bod yn gwneud cynnydd da ar eu paratoadau ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, er bod yr ysgolion hyn wedi nodi pryderon ynghylch natur cymwysterau TGAU diwygiedig a'u cysondeb â'r Cwricwlwm i Gymru.

**Gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith (Gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith)**

16. Nododd rhai uwch arweinwyr eu bod ar gam cymharol gynnar wrth weithredu thema gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn eu cwricwlwm a bod hyn yn faes newydd i'w hysgol neu leoliad. Dywedodd yr uwch arweinwyr hyn fod arnynt angen mwy o gymorth i weithredu thema gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith. Nododd uwch arweinwyr fod elfennau eraill yn eu cwricwlwm wedi cael blaenoriaeth yn hytrach na themâu trawsbynciol fel gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.

17. Roedd uwch arweinwyr wedi nodi'r cysylltiadau roedd eu hysgol neu leoliad wedi'u ffurfio â chyflogwyr a sefydliadau lleol i'w helpu i weithredu thema gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith. Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi disgrifio eu hymdrechion i integreiddio'r profiadau hyn yng ngweithgareddau, themâu neu brosiectau eu cwricwlwm.

18. Roedd uwch arweinwyr wedi rhoi pwyslais ar gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith fel ffordd i gynyddu dyheadau dysgwyr drwy eu galluogi i ystyried cyfleoedd gyrfa y gallent fod yn anymwybodol ohonynt. Dywedodd uwch arweinwyr fod perthynas waith effeithiol rhwng eu hysgol neu leoliad a Gyrfa Cymru a bod hyn yn werthfawr wrth hyrwyddo thema gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.

### Y Gymraeg

19. Gan ategu'r farn a fynegwyd yn ystod cyfweliadau Cam 1, roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (yn cynnwys ysgolion dwy iaith) wedi nodi bod y pandemig wedi effeithio ar yr hyder a'r gallu sydd gan ddysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg. Teimlwyd yn benodol fod hyn yn her i ddysgwyr nad oeddent yn siarad Cymraeg gartref. Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg hefyd wedi nodi eu bod yn parhau i wynebu heriau wrth recriwtio a chadw staff a oedd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
20. Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg wedi nodi bod cynnydd yn cael ei wneud ar ddefnyddio'r Gymraeg yn achlysurol yn eu hysgol a'u bod yn canolbwyntio ar hyrwyddo hyn ymhellach yn yr ystafell ddosbarth ac amgylchedd ehangach yr ysgol. Mynegwyd barn gadarnhaol gan uwch arweinwyr am y Siarter Iaith fel fframwaith i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu hysgol neu leoliad.[3]
21. Nododd uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg eu bod yn profi anawsterau wrth lenwi swyddi gwag ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg a'r rheini sydd wedi cymhwyso i addysgu'r Gymraeg fel pwnc. Dywedodd rhai uwch arweinwyr fod prinder staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg yn golygu eu bod yn wynebu heriau wrth gwrdd â'r disgwyliadau sylweddol yn y Cwricwlwm i Gymru o ran dysgu ac addysgu'r Gymraeg.
22. Mewn ysgolion a oedd yn paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023, nododd uwch arweinwyr fod mwy o sylw yn cael ei roi i hanes a diwylliant Cymru ar draws y cwricwlwm, ac i hyrwyddo gwerth y Gymraeg fel sgil ymysg dysgwyr a rhieni.

### Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol

23. Roedd uwch arweinwyr yn croesawu'r ffaith bod Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol wedi'i gynnwys fel elfen orfodol yn y Cwricwlwm i Gymru. Er hynny, roedd cryn amrywiad yn y cynnydd a nodwyd ganddynt yn y maes hwn rhwng ysgolion a lleoliadau: dywedodd rhai ei fod yn ddyddiau cynnar yn natblygiad yr agwedd hon o'r cwricwlwm, tra oedd eraill wedi dweud nad oedd y maes hwn yn un newydd iddynt.

---

[3] Fframwaith Siarter Iaith: Canllaw cychwynnol i ysgolion

24. Yn achos uwch arweinwyr a oedd wedi dechrau ymdrin â Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol, roeddent wedi cyflawni'r gwaith cychwynnol ar gyfer cynllunio a darparu ond yn teimlo bod angen rhoi mwy o sylw i hyn yn ystod y flwyddyn ysgol ddilynol. Lle'r oedd ysgolion a lleoliadau wedi gwneud mwy o gynnydd ar yr agwedd hon o'r cwricwlwm, roedd nifer ohonynt wedi'u lleoli mewn ardaloedd mwy amrywiol ac roedd ganddynt hanes o edrych ar amrywiaeth o fewn y cwricwlwm cyn bod sôn am y Cwricwlwm i Gymru. Nododd uwch arweinwyr ei bod yn bwysig archwilio'r cwricwlwm i sicrhau ei fod yn adlewyrchu amrywiaeth eu dysgwyr.

25. Roedd nifer o uwch arweinwyr wedi nodi bod lefel y wybodaeth a hyder ymysg staff yn isel yn y rhan hon o'r cwricwlwm, yn enwedig lle'r oedd lefelau isel o amrywiaeth ymysg y dysgwyr a/neu'r staff addysgu. Roedd nifer o uwch arweinwyr wedi dod i gysylltiad ag arbenigwyr allanol fel DARPL[4] er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth staff.

26. Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd a oedd yn paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 wedi nodi problemau a phryderon a oedd yn debyg i'r rheini a nodwyd gan y rhai sydd eisoes yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, a rhai wedi mynegi awydd am gael mwy o hyfforddiant ac enghreifftiau o arferion da.

**Cynnydd**

27. Yn ystod Cam 1, roedd uwch arweinwyr wedi dweud eu bod yn gweithio ar draws eu hysgolion a lleoliadau ac mewn clystyrau i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd ac i ddatblygu fframweithiau cynnydd (neu fapiau cynnydd) newydd. Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn cydnabod bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar gynnydd y dysgwr unigol wrth iddynt feddwl a chynllunio ar gyfer cynnydd. Roedd ysgolion wedi mynegi pryderon neu nodi heriau mewn perthynas â nifer o agweddau sy'n gysylltiedig â chynnydd, yn enwedig y canfyddiad o'r perygl o weld gwahaniaethau wrth i ysgolion a chlystyrau fabwysiadu dulliau gwahanol o gofnodi ac adrodd ar gynnydd.

28. Yn ystod cyfweliadau Cam 2, roedd uwch arweinwyr wedi nodi bod ysgolion a lleoliadau yn parhau i ddatblygu eu dulliau o ymdrin â chynnydd. Dros gyfnod y

[4] DARPL – Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol

flwyddyn academaidd, mae ysgolion a lleoliadau wedi parhau i fireinio dulliau o gofnodi cynnydd ac adrodd ar gynnydd y dysgwr. Mae ysgolion a lleoliadau yn cydweithio mewn clystyrau i ddatblygu a mireinio ymhellach eu dulliau o gefnogi cynnydd y dysgwr. Mae rhai clystyrau yn gweithredu fesul cam, gan ganolbwyntio ar Feysydd penodol er mwyn datblygu ffordd o weithio a all fod yn sail i ffordd o weithio i'w mabwysiadu gan dimau neu grwpiau mewn Meysydd eraill.

29. Roedd uwch arweinwyr wedi disgrifio modelau cynnydd a ddefnyddir i dracio datblygiad a chynnydd y dysgwr. Roedd y camau cynnydd yn darparu fframwaith eang ar gyfer cynllunio cynnydd mewn nifer o ysgolion a lleoliadau, ac roedd modelau wedi'u trefnu'n aml ar sail Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig, a'u cysylltu â disgrifiadau dysgu.[5]

30. Gan adlewyrchu sylwadau tebyg a gyflwynwyd yn ystod Cam 1, roedd rhai uwch arweinwyr wedi nodi bod cynnydd wrth ddysgu yn rhan annatod o ddyluniad y cwricwlwm. Nododd nifer o uwch arweinwyr fod cynnydd 'wedi'i ymgorffori' yn y cam dylunio, a'i fod wedi'i seilio ar egwyddorion cynnydd. Nododd uwch arweinwyr fod cynnwys y cwricwlwm wedi mynd yn fwy cyfyng mewn rhai Meysydd, a bod pwyslais ar ddatblygu gwybodaeth ddyfnach (a chofio gwybodaeth) a chymhwyso dysgu a sgiliau dros amser ac mewn gwahanol gyd-destunau.

31. Nododd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd fod dulliau o ymdrin â chynnydd yn canolbwyntio ar y dysgwr i fwy o raddau a'u bod yn galw am gymell dysgwyr i fyfyrio ar eu cynnydd mewn ffyrdd newydd.

32. Dywedodd uwch arweinwyr eu bod wedi gwerthfawrogi'r cymorth allanol a ddarparwyd i'w helpu i ffurfio eu dulliau o ymdrin â chynnydd. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn prosiectau cenedlaethol (e.e. prosiect Camau i'r Dyfodol Llywodraeth Cymru), a chymorth gan awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac arbenigwyr eraill.

33. Roedd uwch arweinwyr wedi nodi rhai pryderon neu heriau a oedd yn codi wrth iddynt barhau i ddatblygu eu dulliau o ymdrin â chynnydd, yn cynnwys: gwahanol ddehongliadau o gamau cynnydd rhwng ysgolion; bod diffyg data meintiol yn ei

[5] Y Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

gwneud yn anodd deall cynnydd y dysgwr unigol; bod rhai ysgolion wedi neidio ymlaen i'r cam gweithredu mewn perthynas â chynnydd heb fynd ati i gynllunio a meddwl yn strategol mewn ffordd drwyadl ar lefel yr ysgol gyfan.

34. Nododd rhai uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd fod pryder ymysg athrawon (a rhai rhieni) ynghylch troi oddi wrth lefelau a mabwysiadu dull o weithredu nad yw'n rhoi arwydd clir o gyrhaeddiad, neu o safon gwaith y dysgwyr o'i chymharu â graddau TGAU disgwyliedig, er enghraifft.

35. Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 wedi dweud eu bod yn datblygu eu dulliau o ymdrin â chynnydd, ond roedd nifer bach ar gam cynnar wrth gynllunio ac yn ansicr am eu dull o weithredu. Roedd uwch arweinwyr yn ystyried sut i sicrhau bod cydbwysedd rhwng adrodd ar gynnydd i rieni a hefyd cynnwys rhyw fath o fesur o gyrhaeddiad tebygol y disgybl yn y dyfodol.

**Asesu**

36. Roedd uwch arweinwyr a gyfwelwyd yn ystod Cam 1 wedi adrodd bod cynnydd wedi'i wneud ar ddatblygu dulliau asesu newydd, a bod mwy o sylw yn cael ei roi i asesu ffurfiannol o ddydd i ddydd. Defnyddid asesu ffurfiannol ar gyfer cynllunio a dynodi dulliau addysgu gwahaniaethol sy'n ymateb i anghenion y dysgwr unigol. Roedd nifer o uwch arweinwyr wedi nodi bod gostyngiad cyffredinol ym maint yr asesu ffurfiol yn ystod y flwyddyn ysgol. Er hynny, roeddent yn parhau i ddefnyddio'r asesiadau personol cenedlaethol gorfodol i fesur cynnydd dysgwyr mewn darllen a rhifedd. Nododd nifer o uwch arweinwyr eu bod yn teimlo'n ansicr ac yn bryderus ynghylch y data asesu y bydd gofyn iddynt eu darparu o dan drefniadau atebolrwydd yn y dyfodol.

37. Yn ystod Cam 2, roedd uwch arweinwyr wedi nodi eu bod yn parhau i wneud cynnydd ar ddatblygu eu dulliau asesu, a bod mwy o sylw yn cael ei roi i asesu ffurfiannol. Nododd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd fod asesu'n digwydd yn barhaus drwy aseiniadau a gwaith cwrs. Roeddent wedi nodi hefyd fod athrawon yn cymryd rhan mewn mwy o drafodaethau proffesiynol (mewn timau Maes neu mewn grwpiau eraill) ynghylch beth mae'r deilliannau o asesiadau ffurfiannol yn dangos am y cynnydd a wneir gan ddysgwyr.

38. Gan adleisio safbwyntiau a fynegwyd yn ystod Cam 1, cafwyd sylwadau gan uwch arweinwyr am y newid sydd ei angen yn y ffordd o feddwl ac ymagwedd er mwyn dylunio a gweithredu dulliau asesu newydd. Nododd uwch arweinwyr eu bod wedi parhau i sylwi ar gynnydd mewn hyder ymysg athrawon wrth ddefnyddio asesu ffurfiannol; roedd hyn yn cael ei ategu drwy ddysgu proffesiynol.

39. Mae ysgolion a lleoliadau yn parhau i ddefnyddio offer allanol i'w helpu i asesu ac i ddeall ble mae cohort penodol wedi cyrraedd, a hynny ochr yn ochr yn aml â dulliau asesu ffurfiannol o fewn yr ysgol.

40. Gan adlewyrchu safbwyntiau a fynegwyd yn ystod Cam 1 o'r ymchwil, roedd uwch arweinwyr wedi ailddatgan bod angen gwaith ac amser sylweddol o hyd i fireinio eu trefniadau asesu a'u datblygu ymhellach. Nododd nifer o gyfweleion eu bod yn teimlo eu bod yn parhau i dreialu dulliau newydd a'u bod yn ansicr o hyd ynghylch a ydynt yn addas i'w diben. Mae ansicrwydd yn parhau ymysg rhai uwch arweinwyr ynghylch sut i asesu agweddau penodol o fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.

41. Nododd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd a oedd yn paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 eu bod yn cynnal mwy o asesu ffurfiannol ar gyfer dysgu, gan dreialu dulliau newydd mewn un neu ragor o Feysydd a chynnwys dysgwyr yn y broses asesu. Roedd rhai uwch arweinwyr yn petruso rhag troi oddi wrth ddulliau asesu cenedlaethol safonedig cyn cael mwy o sicrwydd ynghylch trefniadau atebolrwydd.

### Tegwch a chynwysoldeb

42. Yn ystod Cam 1, roedd uwch arweinwyr wedi pwysleisio bod tegwch wedi bod yn destun sylw pwysig erioed yn eu hysgol neu leoliad, ond eu bod bellach yn canolbwyntio ar y dysgwr i fwy o raddau wrth ddylunio'r cwricwlwm, gyda'r hyblygrwydd sydd ei angen i addasu cymorth yn unol â hynny. Roedd mwy o sylw'n cael ei roi i'r defnydd o lais y dysgwr wrth ddatblygu'r cwricwlwm. Nododd uwch arweinwyr ei bod yn bwysig bod yn gynhwysol a chwrdd â'r gofynion sydd yn y Cod ADY, gan ddweud bod y Cwricwlwm i Gymru yn eu galluogi i hyrwyddo a chanolbwyntio ar gynwysoldeb.

43. Roedd uwch arweinwyr wedi rhoi pwyslais eto ar bwyntiau a godwyd yn ystod cyfweliadau Cam 1 ynghylch y pwysigrwydd o gael cwricwlwm sy’n seiliedig ar ddibenion ac yn canolbwyntio ar y dysgwr. Roedd hyn yn cynnwys mewnbwn parhaus gan lais y dysgwr, ac roedd nifer o uwch arweinwyr wedi nodi bod hyn yn elfen gryf yn eu hysgol neu leoliad. Roeddent hefyd yn croesawu’r ffaith bod y trefniadau newydd yn eu galluogi i fod yn hyblyg ac ymatebol, a chael eu harwain gan ddysgwyr.

44. Cyfeiriodd uwch arweinwyr at amrywiaeth o fentrau penodol a ddarperir mewn ysgolion a lleoliadau i sicrhau tegwch a chynwysoldeb. Mewn rhai achosion, mae’r gweithgareddau hyn yn galw am staffio ac adnoddau ychwanegol.

45. Nododd uwch arweinwyr fod pwysau ar gyllid yn destun pryder a oedd yn tanseilio gallu ysgolion a lleoliadau i sicrhau arlwy dysgu teg i ddisgyblion o bob gallu. Roedd uwch arweinwyr wedi tynnu sylw at anawsterau o ran darparu lefelau staffio digonol i gwrdd ag anghenion dysgwyr, nid yn unig mewn perthynas â dysgwyr sydd ag angen cymorth mwy penodedig, ond hefyd o ran y gallu i gynnig her i’r disgyblion mwyaf galluog. Nododd uwch arweinwyr fod yr heriau hyn yn codi hefyd yng nghyd-destun yr angen i gwrdd â disgwyliadau o ganlyniad i ddiwygiadau’r system ADY. Er bod uwch arweinwyr yn cefnogi ac yn rhoi blaenoriaeth i’r ffocws ar wella tegwch drwy’r Cwricwlwm i Gymru, mae hyn yn sicr o fod yn her gan ei fod yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael i ysgolion a lleoliadau.

46. Roedd gwahaniaeth barn ymysg uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy’n paratoi i weithredu’r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 ynghylch a fyddai’r cwricwlwm yn gwella tegwch a chynwysoldeb ac yn helpu i ddelio â bylchau mewn cyrhaeddiad. Teimlai rhai y byddai’r sylw cynyddol i addysgeg yn gwella ansawdd addysgu a chymorth i ddysgwyr ac y byddai hyn wedyn yn gallu gwella canlyniadau i ddysgwyr. Fodd bynnag, teimlai eraill fod ysgolion eisoes yn rhoi sylw i hyn a bod ffactorau eraill, yn enwedig cyllid ysgolion a’r argyfwng costau byw, yn debygol o gael mwy o ddylanwad.

47. Nododd rhai uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd a oedd yn paratoi i weithredu’r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 fod y Cwricwlwm i Gymru wedi

cryfhau'r flaenoriaeth a roddir i degwch a chynwysoldeb, yn enwedig drwy roi mwy o sylw i addysgeg, lles a dulliau unigoledig o ymdrin â chynnydd ac asesu.

**Ymgysylltu â rhieni a gofalwyr**

48. Yn ystod Cam 1, roedd uwch arweinwyr wedi nodi eu bod yn defnyddio amryw o ddulliau i rannu gwybodaeth am y cwricwlwm â rhieni. Dywedodd rhai eu bod yn arfer gofal wrth roi gwybod am newidiadau o ran y Cwricwlwm i Gymru i rieni a nodwyd nifer o wahanol ddulliau a ddefnyddiwyd i rannu gwybodaeth fesul tipyn. Nododd ysgolion eu bod yn defnyddio eu crynodebau cwricwlwm gorfodol i rannu gwybodaeth â rhieni am y diwygiadau.

49. O gymharu â Cham 1, nododd uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau a oedd eisoes yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru eu bod yn defnyddio mwy o wahanol fathau o ddulliau o ymgysylltu â rhieni a gofalwyr yn ystod Cam 2. Er bod heriau'n codi o hyd o ran denu rhieni i ddigwyddiadau sy'n ymwneud yn benodol â'r cwricwlwm, dywedodd uwch arweinwyr iddynt gael rhywfaint o lwyddiant wrth fabwysiadu dulliau mwy arloesol ac anffurfiol o ymgysylltu â rhieni a gofalwyr. Roedd y rhain yn cynnwys digwyddiadau cyflwyno neu arddangos lle'r oedd dysgwyr yn cymryd rhan drwy ddangos eu gwaith. Yn ystod Cam 2, dywedodd uwch arweinwyr eu bod yn rhoi mwy o sylw i adrodd ar gynnydd dysgwyr i rieni. Nododd uwch arweinwyr fod barn gadarnhaol ymysg rhai rhieni a gofalwyr am y cynnydd yn y cyfleoedd dysgu drwy brofiad roedd eu plentyn yn eu cael.

50. Nododd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd a oedd yn paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 eu bod yn defnyddio dulliau tebyg i'r rheini a nodwyd gan ysgolion a lleoliadau a oedd eisoes yn gweithredu'r cwricwlwm ar gyfer hysbysu ac ennyn diddordeb rhieni a gofalwyr yn eu cwricwlwm newydd. Roedd y rhain yn cynnwys ymgynghoriadau ar gynnwys y cwricwlwm, datblygu crynodebau o'r cwricwlwm a phytiau o wybodaeth am elfennau penodol.

**Profiadau'r dysgwr**

51. Dywedodd dysgwyr mewn ysgolion cynradd eu bod yn mwynhau dysgu drwy destunau a phrosiectau sy'n cynnig cyfleoedd i ymchwilio'n fanwl i bynciau a hefyd yn helpu i ddangos y cysylltiadau rhwng meysydd dysgu. Nododd dysgwyr mewn

ysgolion cynradd eu bod yn cymryd rhan yn aml mewn penderfyniadau am eu dysgu, gan gyfrannu at ddewis testunau, tasgau neu weithgareddau dysgu. Nododd dysgwyr eu bod yn gwerthfawrogi'r ffaith eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau, gan ddweud bod hyn yn helpu i ennyn cymhelliant a brwdfrydedd ynddynt.

52. Nododd dysgwyr mewn ysgolion cynradd fod athrawon yn gosod amcanion dysgu penodol ac yn siarad â nhw am eu cynnydd yn rheolaidd. Roedd dysgwyr hefyd wedi nodi bod athrawon yn eu hannog i adolygu eu gwaith eu hunain, i drafod eu gwaith â chyd-ddisgyblion ac i feddwl ynghylch sut y gallant barhau i wella.

53. Yn gyffredinol, dywedodd dysgwyr mewn ysgolion uwchradd eu bod yn cael llai o ddylanwad ar eu dysgu na'r hyn a nodwyd gan ddysgwyr mewn ysgolion cynradd. Roeddent yn teimlo hefyd fod llai o gysylltiadau clir rhwng Meysydd neu bynciau yr oeddent yn eu hastudio, er bod dysgwyr mewn rhai grwpiau ffocws wedi darparu enghreifftiau o gysylltiadau rhwng pynciau a oedd wedi'u cynllunio gan athrawon.

54. Teimlai dysgwyr mewn ysgolion uwchradd fod athrawon yn rhoi pwyslais ar ddarparu adborth i hyrwyddo eu cynnydd wrth ddysgu. Roedd rhai dysgwyr yn teimlo bod athrawon yn rhoi pwyslais ar gymell dysgwyr i adolygu eu gwaith eu hunain a hefyd i geisio gwella ansawdd eu gwaith.

55. Mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, roedd dysgwyr wedi nodi pa mor bwysig oedd cael amgylchedd da yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer eu profiadau dysgu.

### Materion i'w hystyried

56. Mae'r materion canlynol i'w hystyried wedi'u seilio ar ganfyddiadau'r adroddiadau Cam 1 a Cham 2.

    i. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gymell cydweithio rhwng ysgolion a lleoliadau, gan ganolbwyntio ar hyrwyddo cydweithio rhwng arweinwyr Meysydd wrth gynllunio'r cwricwlwm, ac wrth werthuso. Dylai hyn gynnwys cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd.

    ii. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i hyrwyddo'r canllawiau ac adnoddau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith sydd ar gael ac annog ysgolion a

lleoliadau i ymgorffori'r thema hon yn yr holl Feysydd, gan gysylltu dysgu â chyd-destunau yn y byd go iawn. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo'r pecyn cymorth a phecyn adnoddau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, a gwaith partneriaid allweddol, yn cynnwys Gyrfa Cymru.

iii. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gymell a chynorthwyo ysgolion a lleoliadau i ymgorffori Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yn yr holl Feysydd. Dylai Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ystyried sut y gallant hwyluso mynediad gan ysgolion a lleoliadau at ganllawiau priodol o ansawdd da ac at gymorth ar gyfer cynllunio, darparu a hunanwerthuso.

iv. Mae cydnabyddiaeth i'r angen i gynyddu nifer yr athrawon a gweithwyr cymorth sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ac addysgu Cymraeg er mwyn cefnogi nodau'r Cwricwlwm. Fel rhan o'r prosesau i fonitro cyflawni 'Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg', dylai Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid nodi unrhyw agweddau ar ddarparu'r cwricwlwm ledled Cymru sy'n galw am ffocws neu gymorth ychwanegol.

v. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro sut mae ysgolion a lleoliadau yn hyrwyddo llafaredd yn y Gymraeg drwy eu trefniadau cwricwlwm newydd a lledaenu arferion da lle maent wedi'u nodi.

vi. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes dadl o blaid datblygu adnoddau ychwanegol i helpu i ddarparu ACRh, yn enwedig mewn ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig.

vii. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau, gan gydweithio â phartneriaid rhanbarthol, fod ieithoedd rhyngwladol yn cael eu hyrwyddo a'u darparu fel rhan annatod o'r trefniadau cwricwlwm newydd yn yr holl ysgolion a lleoliadau, yn enwedig mewn ysgolion cynradd.

viii. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i annog ysgolion, lleoliadau a chlystyrau i gydweithio wrth ddatblygu dulliau ar y cyd o ymdrin â chynnydd y dysgwr ar sail cyd-ddealltwriaeth.

ix. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro'r goblygiadau dichonol o wahaniaethau yn y dulliau o fonitro cynnydd rhwng ysgolion, lleoliadau a

chlystyrau, yn enwedig wrth ystyried sut i fonitro cynnydd ar lefel genedlaethol.

x. Roedd uwch arweinwyr wedi cyfeirio’n aml at awydd i gael sicrwydd bod eu dulliau o gynllunio’r cwricwlwm, mesur cynnydd ac, yn enwedig, asesu yn rhai priodol (ac ‘ar y trywydd iawn’). Er bod cydweithio rhwng ysgolion yn cyfrannu i ryw raddau at gynnig sicrwydd, dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen cael rôl sy’n darparu her adeiladol allanol i ysgolion (yn enwedig mewn perthynas â chynnydd ac asesu) yn ystod y blynyddoedd cyntaf o weithredu’r Cwricwlwm i Gymru.

xi. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro sut mae ysgolion a lleoliadau yn adrodd i rieni a gofalwyr ar gynnydd dysgwyr. Dylai hyn gynnwys y dulliau a ddefnyddir mewn rhai ysgolion uwchradd i ddarparu adroddiadau i rieni sy’n cynnwys rhagamcan o ‘siwrnai’ neu ‘drywydd’ y dysgwr mewn perthynas â’r tebygolrwydd o ennill cymwysterau.

xii. Roedd uwch arweinwyr wedi tynnu sylw at yr heriau ariannol y mae ysgolion a lleoliadau yn eu hwynebu wrth baratoi i weithredu cwricwlwm sy’n hybu tegwch a chynwysoldeb i bawb. Roeddent wedi nodi bod costau sy’n gysylltiedig â darparu her a chymorth priodol i alluogi’r holl ddysgwyr i wireddu eu potensial yn llawn. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes cyfleoedd i ddarparu rhagor o gyllid wedi’i dargedu i ysgolion a lleoliadau er mwyn delio â rhai o’r heriau hyn.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Darperir trosolwg yn yr adran hon ar y diwygiadau i'r cwricwlwm a threfniadau asesu yng Nghymru ac ar ddiben yr astudiaeth gwmpasu o ran helpu i hyrwyddo blaenoriaethau ar gyfer ymchwil a gwerthuso yn y dyfodol.

### Y Cwricwlwm i Gymru

1.2 Y Cwricwlwm i Gymru yw conglfaen ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddiwygio addysg yng Nghymru a chreu system addysg sy'n codi safonau addysgol ac sy'n ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd. Pedwar diben y cwricwlwm yw'r man cychwyn a'r dyhead ar gyfer holl blant a phobl ifanc Cymru. Yn adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) 'Improving Schools in Wales' (2014)[6] ac adolygiad annibynnol yr Athro Graham Donaldson (2015)[7], cyflwynwyd y sail resymegol dros y diwygiadau ynghyd ag argymhellion ynghylch sut i ddylunio cwricwlwm newydd sy'n addas ar gyfer y Gymru gyfoes. O dan y diwygiadau, mae pob ysgol ac uned cyfeirio disgyblion[8] yn datblygu ei chwricwlwm ei hun, gyda chymorth canllawiau cenedlaethol, a fydd yn galluogi dysgwyr i wireddu pedwar diben y cwricwlwm drwy ddod yn:

- **ddysgwyr uchelgeisiol, galluog** sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- **cyfranwyr mentrus, creadigol** sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- **dinasyddion egwyddorol, gwybodus** sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd
- **unigolion iach, hyderus** sy'n barod i fyw bywydau gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

1.3 O dan y Cwricwlwm i Gymru, mae pynciau'n cael eu trefnu ar sail chwe Maes Dysgu a Phrofiad (Meysydd): y celfyddydau mynegiannol; iechyd a lles; y dyniaethau; ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu; mathemateg a rhifedd; a gwyddoniaeth a thechnoleg.

---

[6] Improving Schools in Wales  Ar gael yn Saesneg yn unig
[7] Dyfodol Llwyddiannus - Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru
[8] Yn ogystal â hyn, mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddatblygu cwricwla ar gyfer darparu addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) mewn lleoliadau eraill.

1.4 Mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn hyrwyddo dull integredig o ddysgu ac addysgu. Maent yn annog cydweithio a chynllunio ac addysgu trawsbynciol i alluogi dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng y gwahanol Feysydd a chymhwyso'r hyn y maent wedi'i ddysgu at sefyllfaoedd a chyd-destunau newydd.

1.5 O dan drefniadau'r cwricwlwm newydd, mae ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol ar hyd continwwm dysgu o 3 i 16 oed. Mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn disgrifio egwyddorion gorfodol ar gyfer cynnydd o ran y cwricwlwm a'r Meysydd unigol, ynghyd â chamau cynnydd a ategir gan ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig a disgrifiadau dysgu. Yn gysylltiedig â hyn, dylai'r trefniadau asesu fod yn ffurfiannol, dylent ganolbwyntio ar y dysgwr, a dylid eu defnyddio'n sail i sut mae ymarferwyr yn ymateb i anghenion unigolion a grwpiau. Un o'r nodweddion sy'n diffinio'r dull newydd yw bod y cwricwlwm, y trefniadau asesu ac addysgeg yn cael eu gweld yn rhannau o gyfanwaith integredig.

1.6 Ategir y diwygiadau i'r cwricwlwm drwy ddull cenedlaethol o ymdrin â dysgu proffesiynol; trefniadau newydd ar gyfer gwerthuso a gwella; trawsnewid y cymorth a'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol; a datblygu cymwysterau newydd.

1.7 Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio canllawiau i ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion ynghylch sut i fynd ati i ddylunio a gweithredu cwricwlwm, gan gydnabod bod y broses o ddatblygu cwricwlwm yn un ailadroddus. Roedd y ddogfen ganllaw ddiweddaraf 'Cwricwlwm i Gymru: y daith i weithredu'r cwricwlwm' (a gyhoeddwyd gyntaf yn 2021)[9] yn adeiladu ar sail canllawiau cynharach ac yn amlinellu'r camau sy'n gysylltiedig â dylunio cwricwlwm, sef:

- **ymgysylltu** i ddatblygu dealltwriaeth ysgol gyfan o'r cwricwlwm a gweledigaeth ar gyfer yr addysgu a'r dysgu sy'n ei gefnogi
- **dylunio, cynllunio a threialu** – gan ddefnyddio canllawiau a chymorth
- **gwerthuso a pharatoi ar gyfer addysgu am y tro cyntaf**

[9] Gweler Cwricwlwm i Gymru: y daith i weithredu'r cwricwlwm

- **addysgu am y tro cyntaf**, dechrau rhoi'r cwricwlwm ar waith, gan fyfyrio ar ei effeithiolrwydd dros amser a mireinio'r dyluniad wrth i ddysgwyr wneud cynnydd.

1.8 At hynny, amlinellodd Llywodraeth Cymru yr egwyddorion y dylai ysgolion a lleoliadau eu dilyn wrth baratoi a dylunio cwricwlwm: datblygu **ar y cyd**; **addysgeg** effeithiol; cymryd rhan mewn **dysgu proffesiynol** a rhwydweithiau; ymgorffori rhinweddau **ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu**; gan ystyried **cyd-destun ehangach yr ysgol**, gan gynnwys sut y gall y cwricwlwm gefnogi'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Cymraeg 2050, mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a hyrwyddo iechyd a lles y dysgwr.[10,11]

### Astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru

1.9 Yn 2021, comisiynodd Llywodraeth Cymru astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Cyhoeddwyd nifer o adroddiadau fel rhan o'r astudiaeth hon:

- Cynhaliwyd arolwg ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2021 i gasglu gwybodaeth gadarn am barodrwydd ysgolion a lleoliadau i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2022 ymlaen. Yn Ionawr 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganfyddiadau'r arolwg (Llywodraeth Cymru, 2022a).
- Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer diwygiadau cwricwlwm ac asesu 2022' (Llywodraeth Cymru, 2022b) yn cyflwyno canfyddiadau 48 o gyfweliadau dilynol ag uwch arweinwyr ac ymarferwyr ym mis Hydref a mis Tachwedd 2021. Diben y cyfweliadau oedd ymchwilio i ymatebion i'r arolwg, deall dyfnder a manylder profiadau ysgolion unigol a'r heriau sy'n eu hwynebu wrth baratoi ar gyfer diwygio'r cwricwlwm.
- Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru' (Llywodraeth Cymru, 2022c). Mae'r adroddiad cwmpasu yn argymell cynnal

[10] Mae mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol yn rhan ganolog o genhadaeth Llywodraeth Cymru sydd wedi'i hamlinellu yn Cenhadaeth ein cenedl: Safonau a dyheadau uchel i bawb (Llywodraeth Cymru, Mawrth 2023)
[11] Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol (Llywodraeth Cymru, 2021)

rhaglen gynhwysfawr o ymchwil a gwerthuso ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymateb i'r argymhellion hyn (Llywodraeth Cymru, 2022d).

1.10 Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y meysydd gwaith penodol a argymhellwyd yn yr astudiaeth gwmpasu a chyhoeddodd Cynllun gwerthuso 2023 y Cwricwlwm i Gymru 2023 a oedd yn disgrifio'r dull arfaethedig o werthuso'r diwygiadau. Cyn cychwyn gwerthuso'r diwygiadau yn ffurfiol, comisiynwyd yr ymchwil gychwynnol hon gan Lywodraeth Cymru i gael dealltwriaeth o brofiadau uwch arweinwyr a dysgwyr yn ystod y pum mlynedd cyntaf o weithredu'r cwricwlwm.

### Ynglŷn â'r astudiaeth

1.11 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwmni Ymchwil Arad, mewn partneriaeth â'r Brifysgol Agored yng Nghymru, i gynnal ymchwil ymysg uwch arweinwyr a dysgwyr ar weithrediad cynnar y Cwricwlwm i Gymru.

1.12 Nod yr ymchwil hon oedd cynnal dau gam ymchwil ansoddol yn ystod y flwyddyn academaidd 2022/23 i ddeall sut roedd y diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yn gweithio ar gyfer ymarferwyr a dysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau, a'r ffactorau sy'n rhwystro ac yn hwyluso ei weithrediad llwyddiannus. Nod yr ymchwil yw llywio'r cymorth y mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn ei roi ar waith i sicrhau'r llwyddiant mwyaf posibl.

1.13 Ar gyfer cam cyntaf yr ymchwil (a elwir yn 'Gam 1'), cynhaliwyd cyfweliadau â 64 o uwch arweinwyr mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a oedd yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn ystod 2022/23 yn ogystal â chwe grŵp ffocws a oedd yn cynnwys cyfanswm o 30 o ddysgwyr. Ar gyfer ail gam yr ymchwil (a elwir yn 'Gam 2'), cynhaliwyd cyfweliadau â:

- 62 o uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau a oedd yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn ystod 2022/23
- 12 o uwch arweinwyr a oedd yn paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023[12]
- Naw grŵp ffocws a oedd yn cynnwys cyfanswm o 54 o ddysgwyr.

[12] Dim ond ar Gam 2 y cyfwelwyd yr uwch arweinwyr hyn a thrafodwyd yr holl destunau yn Adran 1.15 â'r cyfweleion hyn.

Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer Cam 1 rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023.[13] Cynhaliwyd y cyfweliadau ar gyfer Cam 2 rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2023. Roedd cynifer â phosibl o'r rheini a gymerodd ran yng Ngham 1 wedi cael eu recriwtio i gymryd rhan yng Ngham 2 (gweler Adrannau 2 a 3 am ragor o fanylion am y sampl a'r fethodoleg). Yn y gwaith maes ar gyfer Cam 2, roedd y rhan fwyaf o'r testunau yng Ngham 1 wedi'u trafod eto ag uwch arweinwyr a dysgwyr, tra oedd rhai testunau newydd wedi'u cyflwyno a rhai o destunau Cam 1 heb gael eu trafod (gweler Adran 1.15 am ragor o fanylion am y testunau a drafodwyd).

**Adroddiad Cam 1**

1.14 Roedd adroddiad Cam 1 – 'Ymchwil gydag ysgolion ar weithrediad cynnar y Cwricwlwm i Gymru: Adroddiad Cam 1' (Llywodraeth Cymru, 2023) – yn cyflwyno canfyddiadau o gyfweliadau ansoddol â 64 o uwch arweinwyr, a gynhaliwyd rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Ionawr 2023, mewn perthynas â'r profiadau cynnar o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn eu hysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion. Recriwtiwyd y cyfweleion o blith yr ymatebwyr i 'Ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer diwygiadau cwricwlwm ac asesu' (Llywodraeth Cymru, 2022b) a gytunodd i ni ailgysylltu â nhw, yn ogystal ag uwch arweinwyr ychwanegol a oedd heb gymryd rhan yn yr ymchwil flaenorol hon. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau mewn perthynas â phob un o'r testunau a drafodwyd yn ystod gwaith maes Cam 1 ar ddechrau pob adran gyfatebol yn yr adroddiad hwn.[14]

**Adroddiad Cam 2 (yr adroddiad hwn)**

1.15 Yn Adran 2 o'r adroddiad Cam 2 hwn, disgrifir methodoleg yr ymchwil. Yn Adran 3 ceir gwybodaeth am broffil y cyfweleion. Mae'r adrannau sy'n eu dilyn yn ymdrin â'r prif destunau a ddefnyddiwyd i strwythuro'r trafodaethau:

- Mae Adran 4 yn cyflwyno barn uwch arweinwyr am **gynnydd ar weithredu'r cwricwlwm newydd** (a drafodwyd yn Ngham 1 ac yng Ngham 2)

[13] Cynhaliwyd y cyfweliadau ag uwch arweinwyr rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Ionawr 2023. Cynhaliwyd y grwpiau ffocws i ddysgwyr ym Mawrth 2023.
[14] Ac eithrio testunau a oedd heb eu trafod yn ystod Cam 1: gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, y Gymraeg a Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol.

- Mae Adran 5 yn cyflwyno canfyddiadau yn ymwneud â barn uwch arweinwyr am weithredu'r thema **Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith** (heb ei gynnwys yng Ngham 1, testun newydd ar gyfer Cam 2)
- Mae Adran 6 yn cyflwyno sylwadau uwch arweinwyr am **y Gymraeg** (heb ei gynnwys yng Ngham 1, testun newydd ar gyfer Cam 2)
- Mae Adran 7 yn cyflwyno barn uwch arweinwyr am **Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol** (heb ei gynnwys yng Ngham 1, testun newydd ar gyfer Cam 2)
- Mae Adran 8 yn cyflwyno barn uwch arweinwyr am weithredu **elfennau eraill yn y Cwricwlwm i Gymru** (Cam 1 yn unig ar gyfer ysgolion a lleoliadau a oedd yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn ystod 2022/23)**:**
    - Cynllunio a gweithredu'r cwricwlwm ar draws ac o fewn **Meysydd Dysgu a Phrofiad (Meysydd)**
    - Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)
    - Ieithoedd rhyngwladol[15]
- Mae Adran 9 yn cyflwyno sylwadau uwch arweinwyr yn ymwneud â threfniadau ar gyfer monitro **cynnydd** y dysgwr (wedi'i drafod yng Ngham 1 ac yng Ngham 2)
- Mae Adran 10 yn cyflwyno barn uwch arweinwyr am drefniadau **asesu** (wedi'i drafod yng Ngham 1 ac yng Ngham 2)
- Mae Adran 11 yn cyflwyno profiadau uwch arweinwyr o'r ffordd y mae'r gweithredu yn cefnogi **tegwch a chynwysoldeb** (wedi'i drafod yng Ngham 1 ac yng Ngham 2)

[15] Nid oedd uwch arweinwyr mewn ysgolion a oedd yn gweithredu'r cwricwlwm yn ystod 2022-23 wedi cael eu holi am yr elfennau hyn yn y cwricwlwm yn ystod Cam 2 yr ymchwil. Y rheswm am hyn oedd nad oedd digon o amser i ymdrin â'r testunau hyn yn ystod Cam 2 ochr yn ochr â'r testunau ychwanegol a drafodwyd (Gyrfaoedd a Phrofiadau Byd Gwaith, y Gymraeg, Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol). Fodd bynnag, roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd a oedd yn paratoi i weithredu'r cwricwlwm o fis Medi 2023 wedi cael eu holi am yr elfennau hyn.

- Mae Adran 12 yn cyflwyno profiadau uwch arweinwyr o **ymgysylltu â rhieni a gofalwyr** i hybu ymwybyddiaeth o'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd (wedi'i drafod yng Ngham 1 ac yng Ngham 2)
- Mae Adran 13 yn cyflwyno **barn dysgwyr** am eu profiadau o'r cwricwlwm.

1.16 Yn Adrannau 4-12, mae crynodeb o'r canfyddiadau yng Ngham 1 (os ydynt yn berthnasol) wedi'i gyflwyno yn yr is-adran gyntaf, a phwyntiau cyffredinol a wnaed gan uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau sy'n gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn 2022/23 wedi'u cyflwyno wedyn. Trefnwyd y canfyddiadau ar sail y materion a godwyd amlaf, a materion eraill a godwyd gan nifer o gyfweleion. Wedyn cyflwynir amrywiadau mewn barn yn ôl y math o ysgol (ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion) ac, os yw'n berthnasol, yn ôl iaith (ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg). Cyflwynir barn ysgolion uwchradd a oedd wedi penderfynu gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 ar ddiwedd pob un o'r adrannau hyn.

1.17 Mae'r canfyddiadau yn Adrannau 4-12 o'r adroddiad hwn yn cyfeirio at wahanol samplau o gyfweleion. Wrth gyflwyno canfyddiadau neu bwyntiau, defnyddiwyd y termau canlynol i ddisgrifio'r testunau ymchwil sydd dan sylw.

| Term | Defnydd |
|---|---|
| 'ysgolion' neu 'ysgolion cynradd' neu 'ysgolion uwchradd' | Lle mae'r canfyddiadau neu bwyntiau'n ymwneud yn benodol ag ysgolion yn unig neu fathau o ysgol |
| 'ysgolion a lleoliadau' | Lle mae'r canfyddiadau neu bwyntiau'n ymwneud ag uwch arweinwyr ym mhob un o'r mathau o ysgol (cynradd, uwchradd, arbennig) ac unedau cyfeirio disgyblion a gyfwelwyd |
| 'Unedau cyfeirio disgyblion' neu 'ysgolion arbennig' / 'ysgolion cyfrwng Cymraeg' neu 'ysgolion cyfrwng Saesneg' | Lle mae'r canfyddiadau yn ymwneud â mathau penodol o ysgol neu leoliad yn yr is-adrannau perthnasol ym mhob adran |

1.18 Mae'r casgliadau a materion i'w hystyried wedi'u cynnwys yn Adran 14.

## 2. Methodoleg

2.1 Yn yr adran hon, darperir manylion am fethodoleg yr ymchwil. Mae hyn yn cynnwys manylion y broses o ddylunio offer ymchwil, y gwaith maes a gynhaliwyd, y broses dadansoddi, yr heriau a wynebwyd a chyfyngiadau'r fethodoleg.

**Y sail resymegol dros y dull ymchwil**

2.2 Fel a nodwyd yn 1.13, roedd sampl yr astudiaeth yn cynnwys dwy set o gyfweliadau ag uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau a oedd yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn ystod 2022/23: un set o gyfweliadau ag uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd a oedd yn paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 a dwy set o grwpiau ffocws o ddysgwyr. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfweleion yn y sampl o uwch arweinwyr yn rhai a oedd yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn ystod 2022/23 ac wedi'u cynnwys er mwyn cael mewnwelediadau cynnar gan yr ysgolion a lleoliadau hyn am eu profiadau o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r system ehangach. Roedd sampl ychwanegol o uwch arweinwyr mewn ysgolion sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 wedi cael ei chynnwys er mwyn cael dealltwriaeth o'u cynnydd, ac o unrhyw wahaniaethau rhwng y rhain a'r ysgolion a oedd yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn ystod 2022/23. Roedd y sampl o ddysgwyr wedi'i dylunio i gynnwys y rheini ym Mlynyddoedd 4-7 er mwyn sicrhau ei bod yn cwmpasu'r rheini a oedd â phrofiad o ddysgu o dan y Cwricwlwm i Gymru ac a fyddai'n ddigon hen i ddarparu myfyrdod ar eu profiad ohono.

2.3 Roedd y testunau trafod i uwch arweinwyr wedi'u penderfynu'n bennaf ar sail y blaenoriaethau a nodwyd yn '[Cwricwlwm i Gymru: adroddiad blynyddol 2022]' (Llywodraeth Cymru, 2022e), a rhai testunau allweddol wedi'u cynnwys yn y ddau Gam, ac eraill wedi'u trafod yn un ai Cam 1 neu Gam 2. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod digon o amser i drafod y testunau heb roi gormod o faich ar ysgwyddau'r rheini a gymerodd ran yn yr ymchwil.

2.4 Dewiswyd testunau trafod i ddysgwyr a oedd yn cyd-fynd â'r rheini a drafodwyd ag uwch arweinwyr, ac a oedd yn cymryd i ystyriaeth y deilliannau disgwyliedig i ddysgwyr a nodwyd yn y ddamcaniaeth newid ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a

ddisgrifiwyd yn yr 'Astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru' (Llywodraeth Cymru, 2022c).

**Samplu a recriwtio**

2.5 Mae'r dystiolaeth yn yr adroddiad hwn wedi'i seilio ar gyfweliadau â 74 o uwch arweinwyr a 54 o ddysgwyr a gymerodd ran yng Ngham 2 o'r ymchwil hon. Ceir manylion isod am y sampl o uwch arweinwyr a dysgwyr. Roedd y sampl o 74 o uwch arweinwyr yn cynnwys:

- 62 o uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau sy'n gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn ystod 2022/23
- 12 o uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd a fydd yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023

*Uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau sy'n gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn 2022/23*

2.6 Mae'r dystiolaeth yn yr adroddiad hwn wedi'i seilio ar 62 o gyfweliadau Cam 2 a gynhaliwyd rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2023 ag uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau sy'n gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn 2022/23. O'r 62 o gyfweleion hyn yng Ngham 2:

- roedd 56 wedi'u cyfweld yng Ngham 1 o'r ymchwil hon
  - roedd 15 o'r rhain wedi'u cyfweld hefyd yn 'Ymchwil ansoddol ag ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer diwygiadau cwricwlwm ac asesu' (Llywodraeth Cymru, 2022b) (Gweler Atodiad B am ragor o fanylion am broffil y sampl Cam 1)
- cafodd 6 o uwch arweinwyr ychwanegol eu recriwtio i gymryd lle 6 o'r 8 uwch arweinydd nad oeddent wedi cymryd rhan yng Ngham 2.[16]

[16] Roedd yr holl uwch arweinwyr a gymerodd ran yng Ngham 1 wedi cydsynio i ni ailgysylltu â nhw yn ystod Cam 2 ac fe'u gwahoddwyd i gymryd rhan mewn ail gyfweliad. Fodd bynnag, roedd 8 heb gymryd rhan yng Ngham 2 a chafodd 6 uwch arweinydd eu recriwtio i gymryd lle cynifer â phosibl o'r rhain.

2.7 Ar gyfer Cam 2, roedd y tîm ymchwil wedi ceisio ailgysylltu â chynifer â phosibl o'r cyfweleion Cam 1, a chafodd cyfweleion ychwanegol eu recriwtio i gymryd lle'r rheini nad oeddent yn gallu cymryd rhan. Felly roedd yr ymchwil Cam 2 wedi adeiladu ar sail ymchwil Cam 1, a oedd wedi galw am ddylunio sampl fwriadus o uwch arweinwyr a dysgwyr a fyddai'n cynnwys ystod o ysgolion a lleoliadau yn ôl cyfrwng iaith a sector. Y sail resymegol dros wneud hyn oedd sicrhau croestoriad da o safbwyntiau a phrofiadau a rhoi sylw i'r boblogaeth gyfan o ysgolion a lleoliadau o wahanol fathau. Gosodwyd targedau ar gyfer nifer yr uwch arweinwyr i'w recriwtio o ysgolion a lleoliadau o wahanol fathau. Mae rhagor o fanylion am sampl Cam 1 yn Atodiad B.

2.8 Yn y ddwy ran i'r ymchwil hon, cafodd uwch arweinwyr wahoddiad drwy'r e-bost i gymryd rhan mewn cyfweliad tua 45 i 60 munud o hyd. Gwahoddwyd cyfanswm o 157 o ysgolion a lleoliadau i gymryd rhan mewn cyfweliadau Cam 1, ac anfonwyd dwy neges atgoffa at y rheini a oedd heb ymateb.[17] Roedd y gwahoddiad yn darparu trosolwg ar y prif bwyntiau trafod ac yn cynnig dewis i'r uwch arweinwyr wahodd cydweithwyr a oedd yn arwain ar agweddau perthnasol o'r cwricwlwm i ymuno â'r drafodaeth. Roedd nifer bach o uwch arweinwyr wedi gwahodd cydweithwyr i ymuno â'r drafodaeth, neu rannau ohoni.

*Uwch arweinwyr mewn ysgolion a oedd yn paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn 2023/24*


2.9 Roedd y 12 uwch arweinydd mewn ysgolion uwchradd a oedd yn paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn 2023/24 wedi cael eu cyfweld yng Ngham 2 o'r ymchwil hon yn unig. Ymhlith y 12 uwch arweinydd hyn, roedd tri a oedd wedi cymryd rhan o'r blaen yn yr 'Ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer diwygiadau cwricwlwm ac asesu 2022' (Llywodraeth Cymru, 2022b) a naw a oedd wedi'u recriwtio o'r newydd ar gyfer yr astudiaeth hon.[18] Roedd y cyfweleion

[17] Dosbarthwyd y gwahoddiadau yn sypiau: yn gyntaf, anfonwyd gwahoddiad a neges atgoffa i 80 o ysgolion a lleoliadau; cafodd yr ymatebion eu monitro, ac wedyn roedd ysgolion a lleoliadau ychwanegol wedi'u gwahodd yn lle unrhyw rai a oedd heb ymateb. Roedd y rhestr o wahoddedigion yn cynnwys uwch arweinwyr a oedd wedi cymryd rhan yn yr 'Ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer diwygiadau cwricwlwm ac asesu 2022' (Llywodraeth Cymru, 2022b), ac eraill wedi'u dewis ar hap yn y gwahanol gategorïau o ysgolion a lleoliadau (gweler Adran 3) er mwyn cyrraedd y targedau recriwtio.

[18] Roedd saith cyfwelai mewn ysgolion a oedd yn paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023, ac a gymerodd ran yn yr 'Ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer diwygiadau cwricwlwm ac asesu 2022' (Llywodraeth Cymru, 2022b), wedi cael eu gwahodd i gymryd rhan yn yr ymchwil.

hyn wedi cymryd rhan mewn un cyfweliad yn unig yn cwmpasu'r holl destunau sydd wedi'u rhestru yn Adran 2.13 isod. Yn yr un modd ag uwch arweinwyr eraill, roedd y cyfweleion hyn wedi cael gwahoddiad drwy'r e-bost i gymryd rhan mewn cyfweliad tua 45 i 60 munud ynghyd ag amlinelliad o'r testunau trafod. Roedd cyfanswm o 18 o uwch arweinwyr mewn ysgolion a oedd yn paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn 2023/24 wedi cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn cyfweliad, ac anfonwyd dwy neges atgoffa at y rheini a oedd heb ymateb.

**Ffigur 1. Crynodeb o'r samplau o uwch arweinwyr yng Nghamau 1 a 2**




*Cyfranogwyr yr 'astudiaeth ar baratoadau' yw uwch arweinwyr a gyfwelwyd yn yr 'Ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer diwygiadau cwricwlwm ac asesu 2022' (Llywodraeth Cymru, 2022b) ac a gytunodd i gymryd rhan mewn ymchwil ar y Cwricwlwm i Gymru yn y dyfodol. Gweler Atodiad B am ragor o fanylion.

*Dysgwyr*

2.10 Cynhaliwyd dwy set o grwpiau ffocws gyda sampl o ddysgwyr ym Mlynyddoedd 4-7. Roedd set gyntaf y grwpiau ffocws gyda dysgwyr wedi'i chynnal ym mis Mawrth 2023 a'r ail set wedi'i chynnal ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2023. Nid oedd y gwaith maes Cam 1 gyda dysgwyr wedi'i gwblhau mewn pryd i'w gynnwys yn yr adroddiad Cam 1, felly mae canfyddiadau Camau 1 a 2 wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

2.11 Gofynnwyd i uwch arweinwyr a gymerodd ran mewn cyfweliadau a fyddent yn barod i drefnu grŵp ffocws gyda phedwar i chwech o ddysgwyr. Cynhaliwyd y grwpiau ffocws wyneb yn wyneb mewn ysgolion a phob un yn para 30-60 munud. Er mwyn llywio'r broses o ddewis cyfranogwyr, gofynnwyd i uwch arweinwyr ddewis tri dysgwr ar hap o grŵp blwyddyn penodol (4, 5, 6 neu 7) neu ddosbarth gofrestru, gan sicrhau cynrychiolaeth o'r ddau ryw, ac wedyn gwahodd pob un o'r tri dysgwr a ddewiswyd i ddod â ffrind ag ef i'r grŵp ffocws. Roedd hyn yn golygu bod hanner y sampl o gyfranogwyr wedi'i ddewis ar hap a hanner ohonynt yn ffrindiau i'r rheini a ddewiswyd a gafodd eu gwahodd i gymryd rhan. Gofynnwyd i ysgolion ddosbarthu nodyn briffio a hysbysiad preifatrwydd i rieni yn egluro pwrpas yr ymchwil, beth roedd yn ei olygu a'r trefniadau ar gyfer rheoli data.

2.12 O'r 54 o ddysgwyr a gymerodd ran yng Ngham 2 yr ymchwil, roedd 24 yn ddysgwyr Blwyddyn 7 mewn ysgolion uwchradd a 30 yn ddysgwyr Blynyddoedd 4, 5 a 6 mewn ysgolion cynradd. Roedd y 24 o ddysgwyr Blwyddyn 7 wedi cymryd rhan drwy eu cynnwys mewn pedwar grŵp ffocws a oedd yn cynnwys chwe dysgwr bob un. Roedd y 30 o ddysgwyr mewn ysgolion cynradd (Blynyddoedd 4, 5 a 6) wedi cymryd rhan drwy eu cynnwys mewn pum grŵp ffocws a oedd â chwe dysgwr ym mhob un. Mae rhagor o fanylion yn Adran 3 am broffil y sampl o ddysgwyr yng Nghamau 1 a 2.

**Dylunio'r offer ymchwil**

2.13 Yn y cyfweliadau ag uwch arweinwyr, canolbwyntiwyd ar gasglu eu barn am brofiadau cynnar o weithredu eu cwricwlwm neu, yn achos y rheini a fydd yn ei weithredu o fis Medi 2023, eu profiadau o baratoi i weithredu'r cwricwlwm.

Dyluniwyd canllaw cyfweld a oedd yn canolbwyntio ar farn uwch arweinwyr am y canlynol:

- cynnydd cyffredinol ar weithredu'r cwricwlwm newydd
- trefniadau ar gyfer monitro cynnydd y dysgwr
- trefniadau asesu
- sut mae'r gweithredu yn cefnogi tegwch a chynwysoldeb
- ymgysylltu â rhieni a gofalwyr i gynyddu ymwybyddiaeth o'r trefniadau cwricwlwm ac asesu newydd.
- Profiadau o ddylunio cwricwlwm a threfniadau asesu mewn perthynas ag elfennau penodol yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru[19]
    - ar gyfer uwch arweinwyr a oedd yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn 2022/23, roedd tair elfen wedi'u hystyried yng Ngham 1 yn unig (er iddynt gael eu hailystyried yn fyr yn y cyfweliadau Cam 2)
        - cynllunio a gweithredu'r cwricwlwm ar draws ac o fewn Meysydd
        - gweithredu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)
        - gweithredu ieithoedd rhyngwladol
    - ar gyfer uwch arweinwyr a oedd yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn 2022/23, roedd tair elfen wedi'u hystyried yng Ngham 2 yn unig
        - Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith (gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith)
        - Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol
        - Y Gymraeg

[19] Dim ond unwaith y cyfwelwyd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd a oedd yn paratoi i weithredu'r cwricwlwm o fis Medi 2023, felly fe'u holwyd am bob un o'r chwe agwedd hyn wrth eu cyfweld.

2.14 Yn y grwpiau ffocws gyda dysgwyr, canolbwyntiwyd ar gasglu eu barn am eu profiadau cynnar o'r cwricwlwm. Dyluniwyd canllaw trafod a oedd yn canolbwyntio ar farn dysgwyr ar y canlynol:

- prosiectau neu themâu roeddent wedi gweithio arnynt yn ddiweddar[20]
    - cymryd rhan wrth ddewis eu themâu / prosiectau eu hunain
- a oedd yr ysgol wedi eu helpu i weld cysylltiadau rhwng pynciau
- pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru
- a oedd dysgwyr wedi cael yr help roedd arnynt ei angen
- a oeddent yn dysgu am amrywiaeth fawr o destunau a oedd yn bwysig iddynt
- a oedd yr ysgol yn deg â phawb
- a oedd yr ysgol yn eu helpu i gyfathrebu'n dda yn Gymraeg a Saesneg
- sut roeddent yn gwybod a oeddent wedi symud ymlaen neu wneud cynnydd yn eu dysgu
- a oeddent yn cael eu hannog i weithio'n galed a gosod uchelgeisiau uchel
- a oeddent yn teimlo bod her yn cael ei chynnig iddynt
- a oeddent yn siarad am eu hiechyd a lles, ac yn cael cymorth mewn perthynas â hyn.

2.15 Mae'r canllawiau trafod ar gyfer cyfweliadau wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

### Dadansoddi ansoddol

2.16 Defnyddiwyd fframwaith i ddadansoddi'r data ansoddol o'r cyfweliadau. Mae hyn yn rhoi'r gallu i ddadansoddi'r data mewn ffordd strwythurol yn ogystal ag ystyried materion eraill a gododd yn ystod y gwaith maes nad oeddent o bosibl wedi'u hystyried o'r blaen. Adolygwyd y dystiolaeth yn gyntaf yn ystod sesiwn briffio a oedd yn cynnwys yr ymchwilwyr a gynhaliodd y cyfweliadau. Roedd hyn yn galluogi'r

[20] Cyn y drafodaeth, gofynnwyd i uwch arweinwyr ddarparu enghraifft y byddai ymchwilwyr yn gallu cyfeirio ati.

ymchwilwyr i ddod i gytundeb ynghylch y prif themâu a oedd yn codi o'r dystiolaeth ac roedd yn cyfrannu i'r dadansoddi dilynol.

**Heriau a chyfyngiadau'r fethodoleg**

2.17 Wrth ddadansoddi'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, mae'n bwysig cofio rhai o'r cyfyngiadau ar y dull ymchwil.

2.18 Dyluniwyd y sampl fwriadus o uwch arweinwyr a dysgwyr fel ei bod yn cynnwys ystod ddigonol o ysgolion a lleoliadau (yn ôl cyfrwng iaith a sector) er mwyn cael croestoriad da o farn a phrofiadau. Nid sicrhau cynrychiolaeth lawn yw bwriad ymchwil ansoddol ond cael y gallu i ganfod ystod eang o faterion a chynnal trafodaeth ddyfnach. Fodd bynnag, nid yw'r sampl yn ein galluogi i adrodd ar arwyddocâd ystadegol y canfyddiadau na chymhwyso'r canlyniadau at y boblogaeth gyfan.

2.19 Mae'n bwysig cydnabod y risg o duedd wrth ddewis y sampl o ysgolion a lleoliadau a gymerodd ran yn yr ymchwil. Lle'r oedd ysgolion a lleoliadau wedi camu ymlaen yn bellach na'i gilydd yn eu gweithgareddau paratoi, mae'n bosibl y byddent yn fwy tebygol o gytuno i gymryd rhan yn y cyfweliadau.

2.20 Oherwydd natur ymchwil ansoddol, byddai cyfweleion yn gallu dehongli cwestiynau a themâu trafod mewn amryw o ffyrdd a allai fod yn anghyson â diffiniadau Llywodraeth Cymru. Yn ystod yr ymchwil hon, roedd hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â thegwch a chynwysoldeb, a oedd yn faes trafod eang. I ddibenion yr ymchwil hon, roedd 'tegwch a chynwysoldeb' yn cynnwys cwestiynau am godi disgwyliadau ar gyfer yr holl ddysgwyr, delio â bylchau mewn cyrhaeddiad a sicrhau bod ysgolion a lleoliadau yn lleoedd cynhwysol ar gyfer dysgu.

2.21 Yn ystod cyfweliadau, roedd rhai uwch arweinwyr wedi mynegi awydd am gael mwy o gymorth a chanllawiau mewn perthynas ag agweddau penodol o'r Cwricwlwm i Gymru. Mewn rhai achosion, roeddent wedi cyfeirio at destunau neu faterion lle mae cymorth a chanllawiau ar gael eisoes. Mae'n bwysig nodi nad oedd y cyfweliadau yn ceisio rhoi prawf ar lefelau ymwybyddiaeth o gymorth a chanllawiau presennol, felly mae'n bosibl y bydd y canfyddiadau yn cynnwys enghreifftiau lle nad oedd uwch arweinwyr yn ymwybodol o gymorth a chanllawiau cyfredol.

2.22 Mae’n bwysig nodi’r gwahaniaethau yn y dull methodolegol a ddefnyddiwyd yn y trafodaethau â dysgwyr (a gyflwynir yn Adran 13), o gymharu â chyfweliadau ag uwch arweinwyr. Mae hyn yn ymwneud â’r gwahanol lefelau o ymwybyddiaeth o broses diwygio’r cwricwlwm: lle’r oedd uwch arweinwyr yn gallu myfyrio ar y newidiadau a heriau sy’n ymwneud yn uniongyrchol â gweithredu diwygiadau’r Cwricwlwm i Gymru, cymerwyd nad yw dysgwyr yn deall neu’n meddwl am y diwygiadau i’r cwricwlwm yn yr un ffordd. Yn ogystal â hyn, roedd yr ymchwilwyr wedi ystyried y gwahaniaethau rhwng dysgwyr mewn ysgolion cynradd ac mewn ysgolion uwchradd wrth drafod eu profiadau yn yr ysgol. Er ei bod yn bosibl bod dysgwyr Blwyddyn 7 yn gallu darparu barn fwy soffistigedig a chraff am eu profiadau yn yr ysgol dros amser o gymharu â dysgwyr iau, mae’n bwysig cydnabod mai dim ond unwaith y bydd plentyn yn profi blwyddyn ysgol benodol: h.y. nid yw dysgwyr mewn lle i gymharu unrhyw flwyddyn ysgol benodol cyn ac ar ôl gweithredu’r Cwricwlwm i Gymru.

2.23 Felly, cytunwyd y byddai’r canllawiau ar destunau a ddatblygwyd ar gyfer trafod â dysgwyr yn ystod Camau 1 a 2 yr ymchwil yn canolbwyntio ar ddeall profiadau dysgwyr o’r cwricwlwm roeddent yn ei brofi ar y pryd (y Cwricwlwm i Gymru), yn hytrach na gofyn eu barn am newidiadau rhwng y cwricwlwm hwn a’r Cwricwlwm Cenedlaethol blaenorol. Datblygwyd y canllaw ar destunau (gweler Atodiad A) gan gyfeirio at y deilliannau i ddysgwyr a nodwyd yn yr ‘Astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru’.

# 3. Proffil yr ymatebwyr

3.1 Yn yr adran hon, disgrifir proffil yr uwch arweinwyr a dysgwyr a gymerodd ran yn yr ymchwil. Fel a nodwyd yn 2.22, nid oedd bwriad i'r samplau fod yn gynrychiadol o'r boblogaeth o ysgolion a lleoliadau neu ddysgwyr.

**Proffil y cyfweleion**

*Uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau sy'n gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn 2022/23*

3.2 Cyfwelwyd cyfanswm o 62 o uwch arweinwyr yng Ngham 2. Y rhain oedd:

- 56 o uwch arweinwyr a gyfwelwyd yng Ngham 1 a Cham 2
- 6 uwch arweinydd a recriwtiwyd i gymryd lle cyfweleion Cam 1 nad oeddent wedi cymryd rhan yng Ngham 2[21]

O ran cyfrwng iaith, roedd y sampl yn un lle'r oedd:

- 37 o gyfweleion o ysgolion cyfrwng Saesneg
- 18 o ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn cynnwys rhai dwy iaith[22]
- 7 ysgol a lleoliad nad oeddent wedi'u dynodi'n rhai cyfrwng Cymraeg neu Saesneg.[23]

3.3 Mae proffil sampl y cyfweliadau yn ôl math a chyfrwng iaith (Tabl 1), a rhanbarth (Tabl 2) yr ysgol neu leoliad wedi'i ddangos isod.

[21] Roedd 8 o gyfweleion heb gymryd rhan yn Rhan 2 am wahanol resymau, yn cynnwys eu bod wedi newid rôl, diffyg amser neu nad oeddent wedi ymateb i geisiadau am gyfweliad.
[22] Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cynnwys ysgolion dwy iaith. Cyhoeddwyd canllawiau *Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg* gan Lywodraeth Cymru yn 2021. Roedd ysgolion dwy iaith wedi'u categoreiddio cynt yn ysgolion cynradd dwy ffrwd ac ysgolion uwchradd dwyieithog.
[23] Roedd pedwar cyfwelai o ysgolion arbennig a thri o unedau cyfeirio disgyblion, dau fath o leoliad nad ydynt yn cael eu categoreiddio yn ôl iaith.

**Table 1. Proffil y sampl o uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau a weithredodd y cwricwlwm yn ystod 2022/23 a gyfwelwyd yng Ngham 2 yn ôl sector a chyfrwng iaith**

| Sector | Canran y sampl o 62 o gyfweleion ym mhob categori | | | | Nifer y cyfweleion | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfrwng Cymraeg** | Cyfrwng Saesneg | DCI* | Cyfanswm | Cyfrwng Cymraeg ** | Cyfrwng Saesneg | DCI * | Cyfanswm |
| Cynradd a meithrin | 13% | 34% | - | 47% | 8 | 21 | - | 29 |
| Ysgolion pob oed (Canol) | 5% | 3% | - | 8% | 3 | 2 | - | 5 |
| Uwchradd | 11% | 23% | - | 34% | 7 | 14 | - | 21 |
| Ysgolion arbennig | Amh. | Amh. | 6% | 6% | Amh. | Amh. | 4 | 4 |
| Unedau cyfeirio disgyblion | Amh. | Amh. | 5% | 5% | Amh. | Amh. | 3 | 3 |
| **Cyfanswm** | 29% | 60% | 11% | 100% | 18 | 37 | 7 | 62 |

*DCI – Dim categori iaith.
**Cyfrwng Cymraeg yn cynnwys ysgolion dwy iaith.

**Table 2. Proffil y sampl o uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau a weithredodd y cwricwlwm yn ystod 2022/23 a gyfwelwyd yng Ngham 2 yn ôl rhanbarth**

| Rhanbarth | Nifer yn y sampl | Canran o'r sampl |
|---|---|---|
| Y Gogledd | 13 | 21% |
| Canol y De | 18 | 29% |
| Y Canolbarth a'r Gorllewin | 18 | 29% |
| Y De-ddwyrain | 13 | 21% |
| **Cyfanswm** | **62** | **100%** |

*Uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn 2023/24*

3.4 Cyfwelwyd cyfanswm o 12 o uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd a oedd yn paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn 2023/24. Y rhain oedd: 8 mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a 4 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (yn cynnwys ysgolion uwchradd dwy iaith). Roedd pump o'r uwch arweinwyr hyn mewn ysgolion

uwchradd wedi'u lleoli yn rhanbarth Canol y De, pedair wedi'u lleoli yn rhanbarth y Gogledd, dwy yn rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin ac un yn y De-ddwyrain.

*Dysgwyr*

3.5 Yng Ngham 2 yr ymchwil, roedd cyfanswm o 54 o ddysgwyr wedi cymryd rhan mewn cyfanswm o 9 grŵp ffocws ar draws wyth ysgol (cynhaliwyd dau grŵp mewn un o'r ysgolion). Yr 8 ysgol oedd:

- 4 ysgol gynradd a 3 ysgol uwchradd yn ogystal ag un ysgol pob oed. O'r rhain, roedd
    - 3 yn rhanbarth Canol y De
    - 2 yn rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin
    - 2 yn y De-ddwyrain
    - 1 yn y Gogledd
- 3 ysgol cyfrwng Saesneg a 5 ysgol cyfrwng Cymraeg
- 6 ysgol a gymerodd ran yng Ngham 1 a Cham 2
- 2 ysgol a gymerodd ran yng Ngham 2 yn unig.

3.6 Y 54 o ddysgwyr yng Ngham 2 oedd:

- 30 ym Mlynyddoedd 4-6 yn yr ysgol gynradd
    - 1 grŵp gyda dysgwyr Blwyddyn 4
    - 1 grŵp gyda dysgwyr Blwyddyn 5
    - 1 grŵp yn cyfuno dysgwyr Blynyddoedd 4 a 6
    - 2 grŵp yn cyfuno dysgwyr Blynyddoedd 5 a 6
- 24 ym Mlwyddyn 7 yn yr ysgol uwchradd
    - 4 grŵp o 6 dysgwr.

Roedd 6 dysgwr wedi'u cynnwys ym mhob grŵp ffocws yn ystod Cam 2.

3.7 Yng Ngham 1 yr ymchwil, roedd cyfanswm o 30 o ddysgwyr wedi cymryd rhan mewn cyfanswm o 6 grŵp ffocws ar draws 6 ysgol. Y 6 ysgol oedd:

- 3 ysgol gynradd a 2 ysgol uwchradd yn ogystal ag un ysgol pob oed. O'r rhain, roedd:
    - 1 yn rhanbarth Canol y De
    - 2 yn rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin
    - 2 yn y De-ddwyrain
    - 1 yn y Gogledd
- 3 ysgol cyfrwng Saesneg a 3 ysgol cyfrwng Cymraeg

3.8 Y 30 o ddysgwyr a gymerodd ran yn ystod Cam 1 oedd:

- 16 ym Mlynyddoedd 4-6 yn yr ysgol gynradd
    - 1 grŵp gyda dysgwyr Blwyddyn 5
    - 2 grŵp yn cyfuno dysgwyr Blynyddoedd 5 a 6
- 14 ym Mlwyddyn 7 yn yr ysgol uwchradd
    - 3 grŵp o ddysgwyr

Roedd 4-6 o ddysgwyr wedi cymryd rhan ym mhob grŵp yn ystod Cam 1.

# 4. Y cynnydd ar weithredu'r cwricwlwm newydd

4.1 Yn yr adran hon, amlinellir canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â chynnydd cyffredinol ar weithredu'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd. Gofynnwyd i gyfweleion roi crynodeb o'r cynnydd roedd eu hysgol neu leoliad yn ei wneud ar weithredu'r cwricwlwm newydd ac ateb cwestiynau ynghylch:

- beth oedd wedi gweithio'n dda a pham
- beth oedd wedi helpu eu hysgol neu leoliad i wneud cynnydd
- beth oedd heb weithio cystal hyd yn hyn
- a oeddent wedi profi unrhyw rwystrau i gynnydd hyd yn hyn.

4.2 Mae'r adrannau sy'n dilyn yn rhoi crynodeb o sylwadau gan uwch arweinwyr am y cynnydd cyffredinol a wnaed wrth weithredu cwricwlwm newydd eu hysgol neu leoliad.

**Crynodeb o ganfyddiadau Cam 1 (Tachwedd 2022 – Ionawr 2023): y cynnydd ar weithredu'r cwricwlwm newydd**

4.3 Roedd adroddiad ymchwil Cam 1 wedi cael bod:

- Uwch arweinwyr wedi dweud eu bod yn fodlon ar y cynnydd yr oeddent wedi'i wneud hyd yma wrth ddylunio a gweithredu eu cwricwlwm. Mynegwyd pryderon ynghylch cynnydd mewn nifer bach o ysgolion a lleoliadau ond nododd rhai uwch arweinwyr iddynt fod yn bryderus cyn hynny ynghylch maint y dasg a oedd o'u blaen, ond eu bod bellach yn teimlo eu bod yn gwneud cynnydd da. Roedd uwch arweinwyr a ddywedodd iddynt fod yn cynllunio ac yn datblygu eu cwricwlwm am 3-4 blynedd yn ymddangos yn fwy hyderus o ran eu dulliau gweithredu na'r rheini a ddywedodd eu bod ar gam cynharach wrth weithredu eu cwricwlwm.
- Dywedodd uwch arweinwyr fod ymarferwyr yn fwyfwy parod i gymryd cyfrifoldeb a pherchnogaeth dros weithredu'r cwricwlwm. Dywedodd y rhai a gyfwelwyd fod ffocws cynyddol ar addysgeg a gweithgarwch cydweithredol o fewn ysgolion a lleoliadau ac yn eu clystyrau. Cyfeiriwyd at weithgarwch

cynyddol ar lefel y clwstwr a hwyluswyd gan ymarferwyr fel enghraifft o gynyddu ymreolaeth ymarferwyr a'u perchnogaeth o'r cwricwlwm.

- Dywedodd uwch arweinwyr fod datblygu a gweithredu eu cwricwlwm wedi creu heriau o ran capasiti ac amser staff, yn enwedig wrth gynllunio'r cwricwlwm a sicrhau ei fod yn cwmpasu'r elfennau gofynnol a nodir yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.

**Canfyddiadau Cam 2 (Mai-Gorffennaf 2023): Pwyntiau cyffredinol a godwyd gan uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau a weithredodd y Cwricwlwm i Gymru yn ystod 2022/23**

*Y pwyntiau a godwyd amlaf gan uwch arweinwyr*

4.4 **Yn gyffredinol, roedd uwch arweinwyr yn dweud eu bod yn parhau i wneud cynnydd da ar weithredu'r cwricwlwm newydd.** Roedd datblygiadau a nodwyd yn ystod y cyfweliadau Cam 1 wedi symud ymlaen mewn nifer o ysgolion a lleoliadau, ac roedd uwch arweinwyr yn fodlon at ei gilydd ar y newidiadau a gafwyd cyn hynny ers dechrau gweithredu'r cwricwlwm.

> 'Dydyn ni ddim wedi gweld newidiadau mawr, ar wahân i'r holl bethau a oedd yn dechrau gweithio. Mae'r rhain yn mynd yn dda iawn nawr.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

> 'Rydyn ni'n fodlon iawn, rydyn ni wedi dod yn bell. Rydyn ni wedi dal ati â'r un ffordd o weithredu ac mae'r canlyniad i hyn wedi bod yn wych. Mae'r plant yn cymryd diddordeb mawr.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

4.5 **Mewn lleiafrif o achosion, nododd uwch arweinwyr eu bod yn ei chael yn anodd symud ymlaen, a bod y cynnydd wedi bod yn arafach nag yr oeddent wedi'i ddisgwyl.** Roedd yr uwch arweinwyr hyn wedi sôn am ansicrwydd ynghylch gwneud newidiadau, gan deimlo bod ffordd 'iawn' i symud ymlaen nad oeddent wedi dod o hyd iddi eto. Dywedwyd eu bod yn teimlo eu bod wedi'u llethu gan ehangder a dyfnder y newid sydd ei angen, a'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig. Er hynny, dywedodd uwch arweinwyr eu bod yn parhau i gynllunio a chwilio am gymorth gan eraill, yn enwedig drwy wneud defnydd o adnoddau ac arweiniad gan awdurdodau lleol a chonsortia.

4.6 **Nododd uwch arweinwyr mai proses ailadroddus oedd gweithredu newidiadau o dan y Cwricwlwm i Gymru**, a bod angen monitro, adolygu ac ailddylunio drwy'r amser. Roedd yn ymddangos bod rhai uwch arweinwyr wedi rhoi'r gorau i'r disgwyliad y bydd dyluniad eu cwricwlwm wedi'i gwblhau ar bwynt penodol, a'u bod yn lle hynny wedi derbyn bod angen mynd drwy nifer o gylchoedd adolygu a mireinio trefniadau'r cwricwlwm ymhellach.

> 'Rydyn ni wedi mynd yn bellach na llawer o ysgolion…mae'n beth ailadroddus, nid yw byth yn dod i ben. Rydyn ni'n gwneud llawer o hunanwerthuso a byddwn yn newid cwrs yn ystod y flwyddyn os bydd angen neu byddwn yn addasu ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Byddwn ni bob amser yn adolygu ar ddiwedd pob blwyddyn nawr. Mae hyn yn bwysig iawn ar gyfer datblygu cwricwlwm.' Uwch arweinydd, ysgol pob oed cyfrwng Saesneg

4.7 Ers cwblhau gwaith maes Cam 1, mae uwch arweinwyr wedi dweud eu bod **yn teimlo'n fwy cyfforddus wrth oruchwylio a llywio newid yn eu hysgol neu leoliad, ac wedi nodi bod staff wedi mynd drwy gyfnod o addasu yn ystod yr amser hwn.** Roedd yn ymddangos bod y parodrwydd i dderbyn bod y broses yn un ailadroddus wedi rhaeadru, a dywedodd uwch arweinwyr fod newid wedi digwydd yn ffordd o feddwl eu staff addysgu. Nododd uwch arweinwyr fod dealltwriaeth athrawon o'r broses newid wedi gwella, eu bod yn ymateb iddi'n fwy cadarnhaol, a'u bod yn dangos mwy o hyder wrth ddylunio a gweithredu'r cwricwlwm newydd. Dywedwyd bod darparu amser i athrawon ddysgu, cynllunio a chydweithio ag eraill yn ffactor pwysig o ran helpu i feithrin hyder:

> 'Mae staff wedi newid o fod yn rhai sy'n darparu'r cwricwlwm mewn ffordd gonfensiynol i fod yn ddylunwyr, yn ymholwyr ac yn werthuswyr dysgu. Er ei bod yn broses ailadroddus, rydyn ni'n symud ymlaen drwy'r amser.' Uwch arweinydd, ysgol pob oed cyfrwng Saesneg

> 'Mae gennyn ni wahanol weithgorau, ac rydyn ni'n gweld y cysylltiadau'n ffurfio nawr rhwng y gwahanol weithgorau a chynnydd, asesu a'r darlun mawr. Byddwn ni'n defnyddio cyfarfodydd staff i ddilyn y broses hon: bydd staff yn cael un diwrnod oddi wrth addysgu i lunio eu cynlluniau gweithredu a bydd cynorthwyydd addysgu yn gofalu am yr addysg bryd hynny. Un flwyddyn yn ôl, roedd rhai o'n gweithgorau heb symud ymlaen mor bell o ran eu syniadau; ar ôl rhoi amser iddyn nhw, maen nhw wedi gwneud cynnydd.' Uwch arweinydd, ysgol arbennig

4.8 **Dywedodd lleiafrif o uwch arweinwyr fod rhai staff yn amharod i droi oddi wrth fframweithiau a systemau sefydledig**, yn enwedig mewn meysydd fel

asesu. Yn yr achosion hyn, roedd uwch arweinwyr wedi nodi bod angen mwy o amser a chymorth i feithrin hyder, gwybodaeth a sgiliau'r aelodau staff hyn.

4.9 **Yn aml, roedd uwch arweinwyr wedi nodi eu bod yn cynnal adolygiadau rheolaidd fel rhan o'r cylch ailadroddus o weithredu newidiadau**. Roedd prosesau archwilio ar waith i adolygu'r dylunio, cynllunio a chynnwys er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn effeithiol, yn briodol a'i bod yn cwrdd ag anghenion dysgwyr. Nododd uwch arweinwyr fod eu prosesau gweithredu a newid hefyd yn rhan o'r adolygiadau parhaus hyn, a bod dulliau addysgegol yn cael eu monitro'n fanwl a newidiadau yn y dulliau darparu yn cael eu gwneud ar ganol blwyddyn os barnwyd bod angen. Roedd uwch arweinwyr eraill wedi nodi bod adolygiadau'n cael eu cynnal ar adegau penodol, fel diwedd tymor, er mwyn gwneud newidiadau a fyddai'n cael eu gweithredu yn ystod y flwyddyn academaidd ddilynol.

> 'Rydyn ni angen adolygiad ar gyfer Blwyddyn 7, a gallwn ni weld meysydd sydd angen eu mireinio. Mae'r pethau hynny'n ymwneud â rhai agweddau ar gynnwys pynciau a chamau cynnydd. Weithiau, mae'n ymwneud â chamau mewn addysgeg. At ei gilydd, rydyn ni mewn lle da, ond nid yw hynny'n golygu bod y gwaith wedi gorffen. Dim ond dechrau rydyn ni.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

4.10 **Dywedodd uwch arweinwyr eu bod yn canolbwyntio'n fwy manwl ac yn rhoi blaenoriaeth i feysydd newid, gan fynd ati fesul cam ac yn raddol i gyflwyno eu cwricwlwm newydd** o fewn cyfnod penodedig. Roeddent wedi nodi'r heriau a oedd yn codi wrth ganolbwyntio'n fanwl ar agweddau penodol, gan sicrhau hefyd fod yr holl elfennau gorfodol yn y cwricwlwm yn cael eu cyflwyno. Dywedodd uwch arweinwyr fod hyn yn golygu dal y ddysgl yn wastad rhwng blaenoriaethau a rheoli newid yn ofalus.

> 'Gwnaethon ni hyn fesul cam gan ei bod yn anodd delio â phob dim yr un pryd. Rydyn ni'n fodlon ar y cynnydd rydyn ni wedi'i wneud, ond mae amser yn fwyfwy o rwystr. Does gennyn ni ddim amser sbâr fel arall; nid yw un diwrnod HMS yn ddigon i ysgolion sy'n cynllunio newid ar y graddau hyn.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

4.11 Roedd uwch arweinwyr wedi nodi'n aml eu bod yn rhan o **glystyrau cryf lle mae perthynas waith effeithiol sy'n darparu arweiniad, sicrwydd a chyfleoedd i gydweithio.** Ar y cyfan, roedd yn ymddangos bod y cysylltiadau o fewn clystyrau yn gryf a'u bod wedi datblygu ers siarad ag uwch arweinwyr yng Ngham 1. Roedd

gwahaniaethau, er hynny, yn natur y gweithio o fewn clystyrau ac yn y graddau roedd clystyrau wedi integreiddio a mynd ati i ddatblygu dulliau gweithredu ar y cyd. Dywedodd rhai uwch arweinwyr eu bod yn canolbwyntio’n bennaf wrth gymryd rhan mewn clystyrau ar rannu arferion da a dod i gytundeb ar feysydd penodol (fel sicrhau cyd-ddealltwriaeth o gynnydd o fewn y clwstwr, a datblygu termau cyffredin i gyfleu hyn) tra oedd eraill yn cydweithio â phartneriaid yn y clwstwr ar eitemau gwaith a rennir.

4.12 **Dywedodd uwch arweinwyr eu bod wedi cytuno ar ddulliau cyffredin o ddylunio cwricwlwm o fewn rhwydweithiau eu clwstwr, gan ddatblygu cynnwys y cwricwlwm ar y cyd mewn rhai achosion.** Gan amlaf, roedd y cydweithio o fewn y clwstwr yn cynnwys nifer mawr o staff a’r rheini’n gweithio’n aml ar sail meysydd pwnc. Nododd uwch arweinwyr eu bod wedi neilltuo diwrnodau HMS ar gyfer gweithdai ac wedi sefydlu gweithgorau ar draws y clwstwr i edrych ar wahanol flaenoriaethau. Ymysg gweithgareddau’r gweithgorau hyn roedd gwaith i ystyried cynlluniau gwaith cyffredinol, fel datblygu meini prawf a rennir ar gyfer cynnydd ac asesu, er enghraifft, a datblygu cynnwys ar gyfer meysydd pwnc ar y cyd.

> ‘Mae cynllun y clwstwr ar waith o hyd – rhannu syniadau ac ymatebion – ac wedyn byddwn ni’n trosglwyddo’r cynlluniau hyn i’r grwpiau blwyddyn yn y clwstwr. Rydyn ni’n cydweithio mewn grwpiau blwyddyn ysgol…mae’n broses organig, heb ei llywio gan arweinydd, dydyn ni ddim yn rhy gyfyngol. Mae hyn wedi bod yn galonogol ac mae wedi dilyn yn sgil arferion ar ôl cyfnod COVID.’
> Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

4.13 **Gwelwyd bod y clystyrau’n ffynhonnell gymorth i uwch arweinwyr a’u staff addysgu,** a bod y rhwydweithiau hyn yn darparu buddion pendant i ysgolion a lleoliadau yn ystod eu teithiau gweithredu. Cyfeiriodd uwch arweinwyr at y ffaith eu bod yn cael ymdeimlad o sicrwydd gan eu clwstwr yn wyneb yr ansicrwydd o weithredu newidiadau, ond roeddent yn cydnabod hefyd fod gweithio drwy glwstwr yn creu heriau weithiau, yn enwedig wrth geisio dod i gonsensws a mabwysiadu gwahanol ffyrdd o weithredu a dulliau darparu:

> ‘Byddwn ni’n cwrdd yn aml, ac mae ysgolion yn rhannu arferion, byddan nhw’n dangos sut maen nhw’n ymdrin â’r cwricwlwm i ysgolion eraill. Does neb yn dweud a yw’r hyn rydyn ni’n ei wneud yn gywir neu’n anghywir, rydyn ni’n gorfod barnu a yw’n beth da i’n hysgol. Mae’r cyflwyniadau wedi rhoi ychydig o

dawelwch meddwl i ni am fod ysgolion eraill yn dweud bod yr hyn rydyn ni'n ei wneud yn syniad da.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

'Mae popeth yn mynd yn iawn ar lefel yr ysgol, ond llai felly ar lefel y clwstwr. Y prif destun pryder i ni yw bod ysgolion uwchradd yn cadw at bynciau traddodiadol tra bod ysgolion cynradd wedi newid i Feysydd Dysgu a Phrofiad. Mae her yn codi wrth geisio sicrhau cydlyniant yn y clwstwr.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg

4.14 **Mewn rhai achosion, dywedwyd bod gweithgarwch y clwstwr ar gam cymharol gynnar yn ei ddatblygiad**. Yn yr achosion hyn, nododd uwch arweinwyr nad oedd ganddynt y sicrwydd a'r cymorth allanol manwl yr oedd arweinwyr eraill wedi dweud eu bod yn brif fanteision o gydweithio'n agos mewn clwstwr. Mewn lleiafrif o achosion, roedd cysylltiadau wedi'u gwneud y tu allan i'r clwstwr daearyddol, ac uwch arweinwyr wedi estyn ymhellach a gwneud defnydd o rwydweithiau ehangach i ddod o hyd i gymorth a chyd-ddealltwriaeth ag ysgolion a lleoliadau eraill. Roedd y dull hwn o weithredu i'w weld hefyd mewn lleiafrif o ysgolion a lleoliadau a oedd yn gallu cymryd rhan mewn clwstwr cynhyrchiol, ond a oedd wedi mynd ymhellach ar eu teithiau gweithredu nag eraill yn rhwydwaith y clwstwr. Yn yr achosion hyn, teimlai uwch arweinwyr nad oeddent yn cael budd o weithio mewn clwstwr gan ddweud eu bod yn chwilio am eraill ar gam tebyg yn eu datblygiad er mwyn creu cysylltiadau a rhannu arferion da.

4.15 **Dywedodd lleiafrif o uwch arweinwyr fod arolygiadau Estyn wedi'u cynnal yn y cyfnod rhwng eu cyfweliadau Cam 1 a Cham 2**. Roedd uwch arweinwyr wedi disgrifio amrywiaeth o brofiadau mewn perthynas ag arolygiadau. Roedd rhai ohonynt wedi cael adborth manwl ar eu dull o ymdrin â'r Cwricwlwm i Gymru a'u ffordd o weithredu, tra oedd eraill wedi dweud mai ychydig o archwilio a gafwyd ar y newidiadau roeddent wedi'u gwneud.

'Rydyn ni wedi cael arolygiad gan Estyn. Doedd dim llawer o sylw wedi'i roi i'r Cwricwlwm i Gymru, ond fe aeth yn dda iawn a chawson ni adroddiad da ac roedden nhw wedi cefnogi ein dull o weithredu. Gwybod beth rydych chi'n ei wneud, pam rydych chi'n ei wneud a'i wneud yn dda. Rydyn ni'n teimlo ein bod ni wedi cael sêl bendith i ddal ati yn yr un ffordd nawr.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

4.16 **Roedd uwch arweinwyr wedi rhoi pwyslais ar sicrhau bod trefniadau arolygu yn gyson â'r dulliau newydd o ymdrin â'r cwricwlwm**. Roedd rhai wedi mynegi

pryder y byddai timau arolygu yn gallu gofyn am dystiolaeth o gynnydd dysgwyr, cyrhaeddiad neu safonau dysgu ac addysgu a'r posibilrwydd na fyddent yn gallu ei darparu. Roedd yr uwch arweinwyr hyn wedi nodi eu bod yn gobeithio, yng nghyd-destun y newidiadau o ran cynllunio'r cwricwlwm ac wrth ddatblygu trefniadau newydd ar gyfer mesur cynnydd ac asesu, y byddai arolygwyr yn cymryd hyn i ystyriaeth ac y byddai hyn yn cael ei adlewyrchu mewn adroddiadau am arolygiadau.

*Materion eraill a godwyd gan uwch arweinwyr*

4.17 **Dywedodd uwch arweinwyr eu bod yn bryderus ynghylch lefelau cyllido wrth wynebu'r angen i weithredu newidiadau mor bellgyrhaeddol o dan y Cwricwlwm i Gymru.** Roedd nifer wedi nodi bod angen cyllid ychwanegol i ddarparu rhagor o gynorthwywyr addysgu, adnoddau dysgu a phrofiadau dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth, sydd i gyd yn gallu cynnig profiadau dysgu cyfoethocach i ddysgwyr. Yn ogystal â hyn, nodwyd bod amseriad y dyraniadau cyllid yn peri problem, gan nad oedd cyllidebau a grantiau yn cael eu cadarnhau tan ganol y flwyddyn fel y nododd un ysgol:

> 'Cyllid! Mae angen i Lywodraeth Cymru ddeall bod angen mwy o gyllid ar ysgolion a bod angen ei ddarparu'n fwy amserol, nid ar ganol y flwyddyn pan na fyddwn ni'n gallu cynllunio. Mae cyllidebu'n iawn, ac rydyn ni'n deall sut i wneud toriadau. Ond mae'r effaith o hyn ar ysgolion yn creu heriau mawr, yn enwedig ar ôl COVID, gyda'r diwygiadau ADY, a dylunio cwricwlwm.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg.

### Amrywiadau mewn barn yn ôl y math o ysgol neu leoliad

4.18 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd yn fwy tebygol na'r rheini mewn ysgolion uwchradd o roi gwybod am y canlynol:

- Bodlonrwydd a pharhau â chynnydd da ar eu cynlluniau yn y cyfnod ar ôl y cyfweliad Cam 1
- Canolbwyntio'n fwy manwl drwy fynd ati fesul cam i gyflwyno newidiadau yn y cwricwlwm

4.19 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion arbennig wedi dweud eu bod yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd roedd y cwricwlwm newydd yn ei gynnig er mwyn gallu ymateb i anghenion dysgwyr.

4.20 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd yn fwy tebygol na'r rheini mewn ysgolion cynradd o ddweud bod athrawon wedi mynychu hyfforddiant, gweithdai a chynadleddau mewn perthynas â dylunio'r cwricwlwm neu rannu arferion da, a bod hyn wedi eu helpu i weithredu eu cwricwlwm.

4.21 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol na'r rheini mewn ysgolion cyfrwng Saesneg o ddweud bod athrawon wedi mynychu hyfforddiant, gweithdai a chynadleddau mewn perthynas â dylunio'r cwricwlwm neu rannu arferion da.

**Barn uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd a oedd yn paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023**

4.22 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd a oedd yn paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 wedi amlinellu eu rhesymau dros beidio â'i weithredu yn ystod 2022-23. Y rhain oedd:

- cydnabod nad oeddent yn barod i weithredu'r cwricwlwm eto, a bod y pandemig wedi arafu neu gael effaith negyddol ar rai o'u paratoadau

'Mae'r cynnydd wedi'i arafu o ganlyniad i COVID a'r bylchau mewn dysgu sydd wedi dod i'r golwg. Er enghraifft, mae oed darllen mwy na chwarter ein disgyblion Blwyddyn 7 yn is o lawer na'u hoedran. Rydyn ni wedi gorfod dod ag athro ysgol gynradd i mewn i addysgu ffoneg.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

- awydd i dreulio blwyddyn arall yn treialu a mireinio rhai agweddau ar eu cwricwlwm newydd, yn enwedig eu dulliau o ymdrin â chynnydd y dysgwr ac asesu

'Rydyn ni wedi treialu Blwyddyn 7 am ddau dymor erbyn hyn ac rydyn ni'n adolygu pethau nawr. Rydyn ni ar gam cynnar o hyd ond wedi sylwi bod gwell presenoldeb ac ymgysylltu ym Mlwyddyn 7, hyd yn hyn, ac mae mwy o gydweithio ar draws y cwricwlwm nag erioed o'r blaen. Fyddai hi ddim wedi bod yn hwylus i ni weithredu o'r flwyddyn hon ymlaen, felly mae gweithredu fesul cam wedi bod o gymorth mawr. Peth allweddol i ni yw cydweithio â'n clwstwr i sicrhau

cysondeb a dilyniant i'r dysgwyr sy'n dod i fyny, ac ar draws y sector yn lleol.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

- disgwyliad y byddai arolygiad gan Estyn yn eu hysgol yn ystod 2022-23, ac awydd felly i ganolbwyntio ar baratoadau drwy ohirio gweithredu tan 2023-24
- awydd i ganolbwyntio ar weithredu argymhellion Estyn, ar sail arolygiadau mewn blynyddoedd blaenorol, yn ystod 2022-23 cyn gweithredu'r cwricwlwm
- bod penaethiaid a / neu uwch arweinwyr wedi'u penodi'n ddiweddar a heb ddymuniad i weithredu'r cwricwlwm newydd yn eu blwyddyn gyntaf.

4.23 Yn gyffredinol, roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd a oedd yn paratoi i weithredu'r cwricwlwm o fis Medi 2023 yn credu eu bod yn gwneud cynnydd da ar eu cwricwlwm, er bod rhai wedi dweud bod ganddynt waith sylweddol i'w wneud eto. Cyfeiriodd nifer o uwch arweinwyr at natur ailadroddus y broses o ddylunio cwricwlwm a chydnabod y byddai eu cwricwlwm yn cael ei adolygu a'i fireinio'n barhaus.

'Rydyn ni'n cydnabod y bydd angen i ni ei addasu wrth fynd ymlaen. Mae hyn yn beth cyffrous i rai aelodau staff ond mae'n codi ofn ar eraill. Mae'n ffordd wahanol iawn o weithio. Rydyn ni wedi hen arfer â gweithio gan ddilyn cyfarwyddyd. Mae'n well gan athrawon gael rhywun yn dweud 'gwnewch hyn, a dyma enghraifft o beth mae rhywun arall wedi'i wneud'. Unwaith y byddwch chi'n cael y syniadau cyntaf, mae'n haws – mae dechrau o'r dechrau yn anodd iawn.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

4.24 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd a oedd yn paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 wedi dweud bod eu hysgol wedi penderfynu cadw disgyblaethau pwnc a chymell dull cydweithredol o fewn Meysydd, yn hytrach na mabwysiadu dull seiliedig ar Feysydd. Roedd uwch arweinwyr wedi nodi ei bod yn bwysig mapio gweithgarwch y cwricwlwm er mwyn sicrhau cynnydd a bod pob agwedd wedi'i gynnwys ac er mwyn osgoi dyblygu cynnwys ar draws Meysydd neu grwpiau blwyddyn.

'Mae'r mapio clwstwr 'di bod yn bwysig iawn, gwneud yn siŵr ein bod ni'n mynd drwy bethau mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr a'n bod ni ddim yn ailadrodd yr un testunau ar adegau gwahanol.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg

4.25 Y prif faterion a godwyd gan uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd a oedd yn paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 oedd:

- yr angen fireinio eu dulliau o ymdrin â chynnydd ac asesu ymhellach
  - roedd uwch arweinwyr mewn rhai ysgolion wedi dweud bod rhai neu bob un o'u harweinwyr Maes yn cydweithio ag arweinwyr Maes yn ysgolion cynradd y clwstwr er mwyn mapio cynnydd ar draws yr holl grwpiau blwyddyn
  - dywedodd uwch arweinwyr eraill fod y gweithgarwch yn eu clwstwr wedi ymwneud yn bennaf â'r pontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7, a meithrin cyd-ddealltwriaeth o gynnydd ymysg athrawon ysgolion cynradd Blwyddyn 6 ac arweinwyr Maes mewn ysgolion uwchradd

'Mae gwaith ar draws y Sir wedi digwydd yn ddiweddar yn canolbwyntio ar gynnydd o fewn Meysydd ar draws bob cam cynnydd lan at gam cynnydd 4. Bob tymor 'ni wedi canolbwyntio ar un Maes, felly Dyniaethau tymor diwethaf, Iechyd a lles tymor yma, Celf mynegiannol tymor nesa ayyb.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg

- amser ar gyfer cymryd rhan yng nghlwstwr eu hysgol

'Amser yw'r her fwyaf; byddwch chi'n colli'r trywydd wrth geisio bachu ychydig o oriau bob hyn a hyn i weithio arno, yn enwedig fel clwstwr. Mae gennyn ni ddiwrnodau HMS penodol, sy'n beth da iawn, ond yn syth ar ôl dechrau mynd i'r ffordd honno o feddwl, rydych chi'n gorfod mynd yn ôl at waith pob dydd ac wedyn gallwch chi golli'r cymhelliant.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

- pryderon am natur cymwysterau yn y dyfodol a'u cysondeb â'r Cwricwlwm i Gymru

'Rydyn ni'n ymwybodol o'r newidiadau sydd ar y gweill o ran TGAU. Mae'n bosibl bod ychydig o anghysondeb rhwng y ddau [y Cwricwlwm i Gymru a chymwysterau]. Os nad yw dysgwr am astudio pwnc o fewn Maes penodol ar lefel TGAU, a oes rhaid iddo ddal i wneud cynnydd arno rhwng 14 a 16 oed?' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

## 5. Gyrfaoedd a Phrofiadau sy’n Gysylltiedig â Byd Gwaith

5.1 Mae crynodeb yn yr adrannau sy’n dilyn o sylwadau gan uwch arweinwyr ynghylch cynnwys thema Gyrfaoedd a Phrofiadau sy’n Gysylltiedig â Byd Gwaith (gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith) o fewn y trefniadau cwricwlwm newydd. Holwyd cyfweleion am y canlynol:

- sut roeddent wedi mynd ati i weithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith fel rhan o’u cwricwlwm newydd
    - a oedd y trefniadau wedi gweithio’n effeithiol hyd yma ac a oeddent wedi wynebu unrhyw heriau
    - (ar gyfer uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd) a oeddent yn teimlo bod y maes hwn yn gymharol newydd ac, os felly, sut roeddent yn mynd ati i gynllunio ar gyfer hyn mewn ffordd drawsbynciol
- sut roeddent yn cydweithio ag ysgolion a lleoliadau eraill yn eu clwstwr (neu y tu allan iddo) a phartneriaid eraill (yn cynnwys cyflogwyr) ar yr agwedd hon
- pa fathau o brofiadau y maent yn eu darparu i ddysgwyr (heblaw profiad gwaith traddodiadol), a pha gymorth penodol a fyddai’n ddefnyddiol ar gyfer hyn
- a oedd unrhyw gymorth ychwanegol penodol roedd arnynt ei angen mewn perthynas â’r agwedd hon ar y cwricwlwm.

5.2 Mae crynodeb yn yr adrannau sy’n dilyn o sylwadau gan uwch arweinwyr ynghylch gweithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith fel rhan o’r cwricwlwm newydd.

### Pwyntiau cyffredinol a godwyd gan uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau a weithredodd y Cwricwlwm i Gymru yn ystod 2022/23

*Y pwyntiau a godwyd amlaf gan uwch arweinwyr*

5.3 **Roedd uwch arweinwyr wedi nodi’r cysylltiadau roedd eu hysgol neu leoliad wedi’u ffurfio â chyflogwyr a sefydliadau lleol i’w helpu i weithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, ac i ddarparu profiadau dysgu cyfoethocach i ddysgwyr.** Roedd uwch arweinwyr, yn cynnwys y rheini mewn ysgolion cynradd ac mewn ysgolion uwchradd, wedi disgrifio eu hymdrechion i integreiddio’r profiadau

hyn mewn gweithgareddau, themâu neu brosiectau yn eu cwricwlwm. Ymhlith yr enghreifftiau a gynigiwyd gan uwch arweinwyr roedd y canlynol:

- cynrychiolwyr cyflogwyr, elusennau a sefydliadau eraill yn ymweld ag ysgolion a lleoliadau i siarad â dysgwyr am eu rôl a'u sefydliad neu ddysgwyr yn ymweld â safleoedd cyflogwyr neu sefydliadau lleol.
    - Mewn nifer o achosion, roedd uwch arweinwyr (yn cynnwys y rheini mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd) wedi disgrifio sut roeddent yn ategu eu gwaith presennol ar ymgysylltu â chynrychiolwyr sefydliadau allanol er mwyn canolbwyntio fwyfwy ar ddealltwriaeth dysgwyr o'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gwahanol rolau swydd ac o'r llwybrau ar gyfer eu cael.
- ymgysylltu â cholegau addysg bellach, darparwyr hyfforddiant a/neu gynrychiolwyr prifysgolion
- profiad gwaith yn yr ysgol: profiad gwaith yn nerbynfa'r ysgol, yn siop yr ysgol
- lleoliadau profiad gwaith traddodiadol

5.4 Roedd rhai uwch arweinwyr, yn enwedig y rheini mewn ysgolion cynradd, wedi cyfeirio at ymdrechion gan eu hysgol neu leoliad i ddod o hyd i rieni a gofalwyr a allai siarad â dysgwyr am eu gyrfa, eu busnes neu eu maes arbenigol eu hunain. Mewn nifer bach o ysgolion a lleoliadau, roedd uwch arweinwyr ac ymarferwyr wedi ystyried proffil yr economi leol (e.e. y mathau o gyflogwyr a sectorau sydd yn yr ardal leol) wrth lunio cynnwys eu cwricwlwm mewn perthynas â gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith. Roedd uwch arweinwyr wedi dweud bod hyn yn rhan bwysig o ymdrechion yr ysgolion a lleoliadau hyn i sicrhau bod eu cwricwlwm a phrofiadau eu dysgwyr yn rhai dilys a'u bod yn adlewyrchu eu hardal leol.

> 'Y drefn erioed yw bod nifer mawr o fusnesau lleol yn dod i'r ysgol yn gyson - nyrsys, yr heddlu, awduron, hyfforddwyr campfa, elusennau. Rydyn ni'n ceisio eu cael i siarad am y llwybr at y swydd honno a byddwn ni'n gwneud llawer o waith ar sgiliau entrepreneuraidd mewn perthynas â hyn. Mae'n gallu amrywio o ymweliadau gan ddisgyblion iau â siop neu fferm leol i ddeall y rolau swydd, i ymweliadau ynghylch rolau mwy amrywiol gan ddisgyblion hŷn.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

‘Rydyn ni wedi cael help gan Gyrfa Cymru i ddod o hyd i gysylltiadau da, sefydliadau a chyflogwyr sy’n gallu llenwi bylchau yn ein harlwy gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith. Rydyn ni’n ceisio sicrhau bod y partneriaid rydyn ni’n cydweithio â nhw yn gysylltiedig â’r sectorau sydd fwyaf perthnasol i’n dysgwyr a’r economi leol.’ Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg

‘Rydyn ni’n gwneud ychydig o waith gyda’r awdurdod lleol i weld pa sgiliau sy’n brin….Rydyn ni’n ceisio mapio ble mae’r bylchau a pha gymwysterau rydyn ni’n eu cynnig ar ôl 16 oed, ac yn darparu profiad gwaith wedyn ar gyfer hyn.’ Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

5.5 Roedd uwch arweinwyr (yn cynnwys y rheini mewn ysgolion cynradd ac mewn ysgolion uwchradd) wedi disgrifio sut roeddent **yn dod o hyd i gyfleoedd i integreiddio gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn eu cwricwlwm**. Mewn rhai ysgolion a lleoliadau, roedd y broses hon wedi galw ar ymarferwyr i fapio eu gweithgareddau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith presennol i weld pa feysydd neu bynciau a oedd wedi’u cynnwys ac i edrych ar gynnydd ar draws grwpiau blwyddyn. Roedd hyn wedi arwain at broses o ganfod cyfleoedd newydd i ddarparu gweithgareddau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith neu fireinio agweddau ar eu darpariaeth bresennol. Dywedodd nifer bach o uwch arweinwyr bod y dull hwn o weithredu wedi’i fabwysiadu ar lefel y clwstwr, ac roedd uwch arweinwyr wedi disgrifio proses o gydgynllunio darpariaeth gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith er mwyn i’w dysgwyr gael profiad mwy cyson a chydlynol yn ystod eu taith drwy’r cwricwlwm.

‘Rydyn ni’n arfer cynnal ‘wythnos prentisiaid iau’ ac yn ei chynnal fel cystadleuaeth ond nawr rydyn ni hefyd yn ei chyflwyno fel topig Celfyddydau Mynegiannol lle’r ydyn ni’n annog disgyblion i gyfansoddi rhigymau a gwneud gwisgoedd ac mae yna gysylltiadau â Gwyddoniaeth a Thechnoleg hefyd wrth ddylunio’r cynnyrch a hefyd â Mathemateg a Rhifedd wrth feddwl am gyllid, elw a cholled. Gallwn ni gynnwys y rhieni hefyd, fel y bydd y rhieni’n prynu’r cynnyrch.’ Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

‘’Ni di mapio ein gweithgareddau gyrfaoedd [a byd gwaith] ar draws yr oedrannau ac yn adnabod lle mae modd bwydo fe i mewn ffordd naturiol a nid jyst ’di ffocysu ar ddiwrnodau penodol mewn ffordd sy’n ‘disjointed’. ’Ni’n trio creu continwwm o weithgareddau lle ’ni’n ailymweld â themâu a phynciau ar wahanol bwyntiau yn ystod taith y dysgwr o’r cynradd drwodd i’r uwchradd.’ Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg

‘’Dan ni wedi trio mapio’r cyfleoedd sydd i’r plant i ymwneud â gyrfaoedd [a’r byd gwaith] ar draws ein gwaith cynllunio [clwstwr]. Mae’n bwysig iawn i ni beidio dyblygu gwaith gyda’r un dysgwyr mewn blynyddoedd gwahanol a’n bod ni’n gwneud yn siŵr bod dysgwyr [ar draws y clwstwr] yn cyrraedd yr uwchradd wedi cael cyfleoedd a phrofiadau tebyg. Mae’n bwysig fod gyrfaoedd [a’r byd gwaith] yn *authentic* a ddim yn *bolt-on*.’ Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg

5.6 **Nododd rhai uwch arweinwyr eu bod ar gam cymharol gynnar wrth weithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn eu cwricwlwm** a bod hwn yn faes eithaf newydd i’w hysgol neu leoliad**.** Ar y cyfan, roedd uwch arweinwyr yn yr ysgolion a lleoliadau hyn wedi disgrifio enghreifftiau penodol o weithgareddau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith roeddent yn eu darparu i ddysgwyr (e.e. ymweliadau gan gyflogwyr, gweithgareddau cysylltiedig â menter neu fusnes, gweithgareddau sy’n ymwneud â rheoli arian neu gyllid), ond wedi nodi nad oeddent eto wedi mapio neu ymgorffori’r gweithgareddau hyn ar draws eu cwricwlwm. Nododd uwch arweinwyr fod nifer o’u gweithgareddau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith presennol wedi’u hanelu’n draddodiadol at gohortau penodol, sef dysgwyr hŷn yn eu hysgol neu leoliad fel arfer, a bod datblygu continwwm yn y ddarpariaeth i gynnwys dysgwyr iau yn cael mwy o flaenoriaeth ganddynt nawr. Cyfeiriodd rhai uwch arweinwyr at eu bwriad i fapio’r ddarpariaeth gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith ar draws eu cwricwlwm dros y flwyddyn ddilynol ac roedd nifer bach o’r ysgolion a lleoliadau hyn yn bwriadu canolbwyntio ar fapio cynnydd rhwng y gweithgareddau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.

‘Mae hwn yn faes hollol newydd i’r ysgol; o’r blaen doedden ni ond yn rhoi ychydig o sylw iddo ar gyfer y dysgwyr hŷn. Nawr gallwn ni weld y negeseuon da rydyn ni’n eu cael [gan rieni a chyflogwyr]. Mae’n elfen newydd ffres yn y cwricwlwm.’ Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

‘Mae hyn wedi datblygu; rydyn ni ar y camau cyntaf. Rydyn ni am ei weld yn cael ei ymgorffori yn y cwricwlwm ond mae hyn wedi bod yn rhywbeth atodol i ni erioed. Rydyn ni wedi gorfod gwneud cryn ymdrech i newid ein ffordd o weithio a’i ymgorffori.’ Uwch arweinydd, ysgol pob oed cyfrwng Saesneg

‘Mae hwn yn faes i’w ddatblygu i ni. Yn draddodiadol, rydyn ni wedi gwneud mwy o waith ar hyn ym Mlynyddoedd 10 ac 11 ond nawr rydyn ni wedi dechrau ymysg y dysgwyr iau. Mae rhai arferion da: er enghraifft, daeth [enw cyflogwr] i’r ysgol ym Mlwyddyn 7 ac 8 ac rydyn ni’n darparu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith fel rhan o’r maes Iechyd a Lles ond mae angen mapio’r ddarpariaeth yn fwy trwyadl.

Ar ein diwrnod HMS yn nhymor yr haf, byddwn ni'n adolygu pethau ac yn mapio'r ddarpariaeth o elfennau trawsbynciol.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

5.7 **Dywedodd uwch arweinwyr fod perthynas waith effeithiol rhwng eu hysgol neu leoliad a Gyrfa Cymru a oedd yn werthfawr wrth weithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.** Roedd uwch arweinwyr wedi disgrifio gwahanol fathau o gymorth a gawsant drwy Gyrfa Cymru, yn cynnwys:

- mynediad at adnoddau ar-lein
- help i ddod o hyd i bartneriaid allanol i ymgysylltu â nhw (e.e. cyflogwyr, sefydliadau)
- cael mynediad i ffeiriau gyrfaoedd neu ddigwyddiadau allanol
- derbyn hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu gan Gyrfa Cymru.

'Cawson ni hyfforddiant gan Gyrfa Cymru y llynedd. Mae popeth sydd ei angen ar eu gwefan, roedd yn rhagorol. Roedd gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn thema ysgol gyfan ar gyfer tymor yr hydref [2022/23]. Dangosais i'r staff yr holl adnoddau a hyfforddiant a oedd wedi'u dangos i mi. Gwnaethon ni ganolbwyntio ar hyn dros y tymor, mae gennyn ni well dealltwriaeth nawr, ac mae'n cael ei gynnwys mewn testunau bellach.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

5.8 **Roedd uwch arweinwyr wedi disgrifio eu ffyrdd i sicrhau bod ymarferwyr yn cynnwys gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn eu gweithgareddau cynllunio cwricwlwm o fewn ac ar draws meysydd dysgu a phrofiad.** Rhai enghreifftiau oedd:

- ymarferwyr gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith dynodedig mewn ysgolion a lleoliadau yn dod o hyd i gyfleoedd neu'n cydgynllunio darpariaeth ag arweinwyr pwnc neu Faes
- ysgolion a lleoliadau yn creu templedi cynllunio a oedd yn cymell ymarferwyr i gynllunio cynnwys a oedd yn cyfeirio at ddarpariaeth gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith (e.e. ymgysylltu â chyflogwyr a sefydliadau allanol, cyfeirio at sgiliau cyflogadwyedd, enwi modelau rôl gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith mewn meysydd neu bynciau)

- ymarferwyr yn creu byrddau arddangos ar waliau ystafelloedd dosbarth yn canolbwyntio ar gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn eu Maes neu bwnc y gallai ymarferwyr a dysgwyr gyfeirio atynt yn ystod gwersi
- gosod nodau penodol ar gyfer meysydd neu bynciau i gynnwys cyfleoedd gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith i ddysgwyr o fewn cyfnod penodol (e.e. rhoi sylw i ddysgu am gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith o leiaf unwaith bob tymor).

Roedd nifer bach o uwch arweinwyr wedi gwneud sylw am y ffordd roedd y dulliau hyn wedi llwyddo yn eu barn nhw.

‘Dydy o’m yn waith ychwanegol os ’chi’n ei gynnwys o’n eich cynlluniau o’r cychwyn. Ma’n bwysig iawn i ni siarad am y pethau ’ma ar y cyd a chynllunio ar y cyd fel bo pawb ’di cael eu cynnwys ac yn cael sicrwydd am y ffordd ’dan ni ’di cytuno i wneud pethau.’ Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg

‘Roedden ni’n arfer gwneud hyn yn achlysurol ond nawr mae gyrfaoedd wedi’i gynnwys yn yr amserlen i’r ysgol gyfan, dull ysgol gyfan o weithredu. Mae arweinydd newydd wedi’i ddynodi o fewn yr ysgol.’ Uwch arweinydd, ysgol arbennig

‘Roedd gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn arfer bod yn elfen ychwanegol yn ein cwricwlwm. Nawr mae gennyn ni Gydgysylltydd addysg rhyw a chydberthynas/gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith ag amser wedi’i neilltuo ac rydyn ni wedi codi statws y maes hwn a rhoi mwy o amser iddo. Rydyn ni wedi mapio lle mae cyfleoedd yn ein cynlluniau gwaith ar gyfer cysylltiadau â chyflogwyr, ymweliadau, cysylltu gwersi’n uniongyrchol â gyrfaoedd a setiau sgiliau ac ati ac mae gofyn i bob maes pwnc nodi un esiampl lle maen nhw’n gallu cysylltu’n effeithiol â gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.’ Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

‘Mae pob ystafell ddosbarth yn cynnwys [elfen] sy’n berthnasol i yrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, er enghraifft bwrdd arddangos yn y Celfyddydau Mynegiannol yn dangos gwahanol yrfaoedd a bwrdd arddangos yn cynnwys y 10 sgil cyflogadwyedd pwysicaf mewn Mathemateg. Felly bydd athrawon yn y gwersi Mathemateg yn cyfeirio at y gwaith maen nhw’n ei wneud a sut mae’n ymwneud â’r rhain yn ystod y wers. Mae hyn yn helpu’r dysgwyr i weld eu bod nhw’n gwneud cynnydd mewn sgiliau sy’n berthnasol i’r gweithle fel bod modd cyfeirio at y rhain wrth ganmol disgyblion am eu gwaith.’ Uwch arweinydd, uned cyfeirio disgyblion

‘Rydyn ni’n edrych ar bob Maes ac roedden ni wedi gofyn i bob grŵp blwyddyn nodi un cyfle gyrfaoedd ym mhob tymor i fod yn sail i waith ar yrfaoedd. Gallai

> hyn fod yn ffair neu'n siaradwr yn ymweld â'r ysgol ac ati; dydyn ni ddim wedi pennu gofynion, mae'r staff yn cael dewis y dasg a'r thema. Rydyn ni'n ceisio ei ategu drwy gynnig profiadau o fewn yr ysgol.' Uwch arweinydd, ysgol pob oed cyfrwng Saesneg

*Materion eraill a godwyd gan uwch arweinwyr*

5.9 Dywedodd uwch arweinwyr **fod elfennau eraill yn eu cwricwlwm wedi cael blaenoriaeth dros themâu trawsbynciol fel gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith**. Roedd yr uwch arweinwyr hyn yn cydnabod pwysigrwydd gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, a'u bwriad i roi mwy o bwyslais arno, ond teimlent fod pwysau amser yn golygu bod angen datblygu elfennau eraill yn gyntaf (e.e. cynllunio o fewn ac ar draws Meysydd, datblygu eu dull o ymdrin â chynnydd ac asesu).

> 'Rydyn ni am roi athrawon ar ben ffordd o ran gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith wedi iddyn nhw ddod i ddeall y meysydd dysgu a phrofiad a gweld sut maen nhw'n gallu cysylltu'r ddau beth.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

> 'Rydyn ni'n delio â hyn mewn ffordd hamddenol wrth ei ymgorffori yn drawsbynciol – mae pen draw i'r amser a'r adnoddau sydd gennyn ni ac rydyn ni wedi gorfod canolbwyntio'n fwy ar feysydd eraill. Dydyn ni ddim am wneud hyn mewn ffordd symbolaidd, mae angen rhoi amser i staff i adael iddyn nhw gynllunio, dylunio, edrych ar gynnwys ac ati a datblygu hynny'n hyderus. Gan ein bod ni'n delio â chymaint o newid, mae hyn yn anodd. Lle mae rhywbeth yn cydblethu'n naturiol â gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, yna byddwn ni'n ei gynnwys, ond mae angen canolbwyntio ar y sylfeini ac elfennau craidd yn gyntaf oll. Mae gennyn ni gysylltiadau sydd wedi bod gennyn ni erioed, ond dydy hyn ddim mor strategol ag y bydden ni'n hoffi eto.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

5.10 Cyfeiriodd uwch arweinwyr at **adnoddau neu fframweithiau allanol roeddent yn eu defnyddio wrth gynllunio a gweithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith** yn eu cwricwlwm. Roedd y rhain yn cynnwys pecyn cymorth gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith Llywodraeth Cymru a 'model entrepreneuriaeth ACPT'.[24] Teimlai rhai uwch arweinwyr fod angen mwy o gymorth ac nid oeddent yn ymwybodol o

[24] Agwedd, Creadigrwydd, Perthynas, Trefniadaeth. Gweler 'Dysgu a dilyniant mewn addysg entrepreneuriaeth' (Llywodraeth Cymru, 2011)

adnoddau, fel y pecyn cymorth gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, a oedd ar gael iddynt.

5.11 Cafwyd sylwadau gan uwch arweinwyr am **effaith negyddol y pandemig ar y gallu i ddarparu rhai gweithgareddau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith**, yn egluro bod llai o ymgysylltu â phartneriaid oherwydd y cyfyngiadau ar ymwelwyr allanol yn ystod y cyfnod hwn. Teimlai uwch arweinwyr fod yr effaith hon wedi parhau eleni, a bod rhai o'u perthnasoedd â phartneriaid allanol wedi'u colli oherwydd diffyg gweithgarwch yn ogystal â'r ffaith bod staff neu gysylltwyr allanol wedi newid rolau yn y blynyddoedd diwethaf.

5.12 Dywedodd rhai uwch arweinwyr fod angen **mwy o gymorth ar eu hysgol neu leoliad wrth weithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith**. Rhai enghreifftiau a awgrymwyd gan uwch arweinwyr oedd astudiaethau achos o'r ffordd roedd ysgolion a lleoliadau eraill wedi gweithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith a chyfeiriadur o gyflogwyr a sefydliadau y gallent ymgysylltu â nhw i'w helpu i weithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith. Fodd bynnag, roedd uwch arweinwyr eraill yn teimlo nad oedd arnynt angen cymorth ychwanegol, ond bod arnynt angen amser i fapio eu gweithgarwch gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, cynllunio'r ffordd i'w weithredu a'i ymgorffori ar draws eu cwricwlwm.

5.13 Cyfeiriodd uwch arweinwyr at yr **heriau a oedd yn codi wrth ymgysylltu â phartneriaid allanol mewn ffordd amserol a fyddai'n ategu'r broses o ddarparu eu cwricwlwm**, gan nodi bod hyn yn galw am gynllunio sylweddol ac nad oedd hyn yn bosibl bob amser. Rhai enghreifftiau o hyn oedd nad oedd cynrychiolwyr cyflogwyr yn gallu ymweld â'r ysgol neu leoliad ar yr amseroedd mwyaf priodol neu heriau wrth drefnu ymweliadau fel eu bod yn cyd-ddigwydd â'u dysgu ac addysgu.

5.14 Roedd uwch arweinwyr wedi nodi bod **gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn bwysig o ran cynyddu dyheadau dysgwyr ac ehangu eu gorwelion** drwy eu galluogi i ystyried cyfleoedd gyrfa na fyddent yn ymwybodol ohonynt o bosibl. Er bod uwch arweinwyr yn cydnabod ei bod yn bwysig ffurfio cysylltiadau â chyflogwyr a sefydliadau yn eu cymuned, roedd nifer bach o gyfweleion yn teimlo ei bod yn bwysig nad oedd profiadau dysgwyr o ran gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn

ymwneud yn gyfan gwbl â chyflogwyr neu gyfleoedd sydd ar gael yn eu hardal leol oherwydd gallai hyn gyfyngu ar amrywiaeth y sefydliadau allanol roedd yn bosibl iddynt ymwneud â nhw. Teimlai uwch arweinwyr ei bod yn bwysig cynyddu dyheadau eu dysgwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth ar gael iddynt am amrywiaeth o sectorau a chyfleoedd swydd.

**Amrywiadau mewn barn yn ôl math a chyfrwng iaith yr ysgol neu leoliad**

5.15 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd yn fwy tebygol na'r rheini mewn ysgolion uwchradd o ddweud:

- bod gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn faes cymharol newydd iddynt neu eu bod ar y camau cyntaf wrth ei weithredu
- bod eu hysgol wedi gallu ffurfio cysylltiadau da â chyflogwyr a sefydliadau lleol
- eu bod yn canolbwyntio ar hyrwyddo ymgysylltu gan eu dysgwyr â busnesau a sefydliadau allanol drwy ddatblygu cynnwys ategol a oedd yn ymwneud â sgiliau, deall rolau swydd a llwybrau gyrfa.

5.16 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd yn fwy tebygol na'r rheini mewn ysgolion cynradd o ddweud:

- bod cysylltiadau da rhwng eu hysgol a Gyrfa Cymru
- mai ychydig o newidiadau a wnaeth eu hysgol yn eu harlwy gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.

5.17 Dywedodd uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg fod diffyg o ran yr adnoddau Cymraeg a oedd ar gael mewn perthynas â gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith a'u bod hefyd yn teimlo bod diffyg cyrsiau galwedigaethol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

5.18 Roedd croeso neilltuol ymysg uwch arweinwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion i'r ffocws ar gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn y Cwricwlwm i Gymru. Dywedwyd bod hyn yn cydweddu'n dda â'r pedwar diben a'u prif nodau ar gyfer dysgwyr. Dywedodd uwch arweinwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion fod hyblygrwydd y Cwricwlwm i Gymru hefyd wedi'u galluogi i gydweithio'n agosach â cholegau a

darparwyr hyfforddiant lleol i ddatblygu darpariaeth alwedigaethol fwy addas a oedd yn canolbwyntio ar ddyheadau gyrfa eu dysgwyr.

> ‘Mae’r pedwar diben yn fendith mawr i unedau cyfeirio disgyblion am eu bod yn crisialu beth rydyn ni’n ceisio ei wneud gyda’r bobl ifanc hyn pan ddôn nhw aton ni; edrych ar bethau yn eu cymuned y gallan nhw anelu atyn nhw, deall y llwybrau gyrfa, pa gyrsiau coleg y byddai angen iddyn nhw eu gwneud. Rydyn ni’n cysylltu hyn [gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith] â’r cwricwlwm galwedigaethol sy’n cael ei gynnig hefyd gyda darparwyr allanol [colegau a darparwyr hyfforddiant lleol].’ Uwch arweinydd, uned cyfeirio disgyblion

5.19 Teimlai uwch arweinwyr **y byddai ysgolion a lleoliadau llai, a’r rheini mewn ardaloedd lle mae economi lai amrywiol, yn gallu wynebu mwy o her wrth geisio ymgysylltu â chyflogwyr a sefydliadau addas** (e.e. mewn ardaloedd lle mae nifer y cyflogwyr mawr yn gyfyngedig).

> ‘Mae maint yr ysgol yn cael dylanwad ar hyn am ei bod yn llai tebygol mewn ysgol fach y bydd rhiant neu aelod o’r teulu sy’n filfeddyg neu’n gweithio i Airbus [cwmni gweithgynhyrchu awyrennau].’ Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

### Barn uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy’n paratoi i weithredu’r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023

5.20 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy’n paratoi i weithredu’r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 yn fwy tebygol na’r rheini sydd eisoes yn gweithredu’r Cwricwlwm i Gymru o ddweud eu bod ar gam cynnar wrth integreiddio gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn eu cwricwlwm. Y gweithgareddau paratoi a grybwyllwyd amlaf gan uwch arweinwyr yn yr ysgolion hyn oedd:

- dynodi arweinydd ar gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith
- mapio eu gwahanol weithgareddau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith presennol (e.e. heriau menter a phrosiectau, gweithgareddau STEM), er nad oedd hyn wedi’i wneud ym mhob maes gan mwyaf

> ‘Rydyn ni wedi mapio [gweithgareddau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith] ym Maes y Dyniaethau, sef yr unig un rydyn ni’n ei dreialu, ond nid ar draws y meysydd eraill eto. Byddwn ni’n ei gynnwys pan ddaw’r adeg briodol. Mae gyrfaoedd yn un o’r meysydd hynny lle mae staff yn gwneud pethau arnyn nhw heb sylweddoli hynny felly mae angen rhoi pwyslais ar y pethau hynny a dod â nhw ymlaen.’ Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

- nodi cysylltiadau rhwng gweithgareddau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith a'r sgiliau a chyfleoedd sy'n hanfodol ar gyfer cynnydd dros amser
- ymgysylltu â Gyrfa Cymru i ddod o hyd i gyfleoedd a datblygu syniadau newydd ar gyfer dysgu ac addysgu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith
- cynyddu eu hymgysylltu â chyflogwyr a sefydliadau allanol (e.e. drwy ymweld â busnesau lleol neu wahodd siaradwyr i'r ysgol)

''Dan ni 'di gweithio efo cyflogwr lleol i ddatblygu unedau o waith o fewn maes Iechyd a Lles; mae'r rhain yn paratoi'r disgyblion ar gyfer gwaith ac yn adeiladu sgiliau byd gwaith. 'Dan ni heb mapio hwn ar draws meysydd eraill eto, mae hynny ar y 'to do list'.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg

5.21 Materion eraill a grybwyllwyd gan uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd a oedd yn paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 oedd:

- eu bod yn croesawu'r ffaith bod y Cwricwlwm i Gymru wedi codi proffil a statws gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, a nifer bach wedi nodi bod statws addysg gyrfaoedd yn yr ysgol wedi disgyn yn y blynyddoedd cyn cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru
- y byddent yn falch o gael cymorth ychwanegol i ddod o hyd i gyflogwyr a sefydliadau a oedd yn barod i ymgysylltu â nhw er mwyn darparu profiadau cyfoethocach i'w dysgwyr, ond bod cael digon o amser a chapasiti i gynllunio yn ystyriaeth bwysicach iddynt.

'Mater o amser i gynllunio yw o yn hytrach na bod angen cefnogaeth benodol.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg

# 6. Y Gymraeg

6.1 Yn yr adran hon, amlinellir canlyniadau'r ymchwil mewn perthynas â phrofiadau cyfweleion o **ymgorffori'r Gymraeg yn nhrefniadau eu hysgol neu leoliad ar gyfer y cwricwlwm newydd.** Holwyd cyfweleion am y canlynol:

- sut mae'r cwricwlwm newydd yn cefnogi ac yn hyrwyddo dysgu'r Gymraeg a'r defnydd ohoni
- a yw'r trefniadau wedi bod yn effeithiol hyd yn hyn
- a oedd arnynt angen unrhyw gymorth ychwanegol ar gyfer yr agwedd hon
- a oeddent wedi wynebu unrhyw heriau wrth ymgorffori'r Gymraeg.

6.2 Addaswyd cwestiynau yn ôl iaith yr ysgol, gan ddarparu ar gyfer cyd-destunau addysg cyfrwng Cymraeg, dwy iaith neu gyfrwng Saesneg.

6.3 Yn yr adrannau sy'n dilyn, ceir crynodeb o sylwadau uwch arweinwyr am ymgorffori'r Gymraeg fel rhan o drefniadau eu hysgol neu leoliad ar gyfer y cwricwlwm newydd. Yn gyntaf, nodir pwyntiau a godwyd gan uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn cynnwys sylwadau gan y rheini mewn ysgolion dwy iaith am eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a defnyddir y term 'ysgolion cyfrwng Cymraeg' i gyfeirio at y canfyddiadau hyn. Wedyn mae pwyntiau a godwyd gan uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a lleoliadau eraill yn cael eu cyflwyno ar wahân.[25] Yn yr un modd ag mewn adrannau blaenorol, mae canfyddiadau wedi'u trefnu yn ôl y materion a godwyd amlaf, a materion eraill a godwyd gan nifer o gyfweleion.

### Pwyntiau cyffredinol a godwyd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwy iaith sy'n gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn ystod 2022/23

*Y pwyntiau a godwyd amlaf gan uwch arweinwyr*

6.4 Gan gadarnhau barn a fynegwyd yn ystod y cyfweliadau Cam 1, **roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi dweud bod y pandemig**

[25] Nid yw ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion yn cael eu categoreiddio yn ôl cyfrwng iaith. Mae sylwadau gan yr uwch arweinwyr hyn wedi'u cynnwys ochr yn ochr â'r rheini gan uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, ac mae unrhyw amrywiadau wedi'u nodi'n ddiweddarach yn yr adran hon.

**wedi cael effaith ar hyder a gallu myfyrwyr i ddefnyddio'r Gymraeg.** Teimlwyd bod hyn yn her yn benodol i ddysgwyr nad oeddent yn siarad Cymraeg gartref ac mewn ardaloedd lle nad oedd defnydd helaeth o'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Teimlai uwch arweinwyr fod effaith wedi bod ar hyder dysgwyr o ganlyniad i dreulio llai o amser yn yr ystafell ddosbarth yn ogystal â bod heb fynediad at weithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg (e.e. ymweliadau preswyl â gwersylloedd yr Urdd, digwyddiadau sy'n cael eu rhedeg gan y Mentrau Iaith) yn ystod y blynyddoedd diwethaf.[26] Dywedodd uwch arweinwyr eu bod wedi rhoi mwy o bwyslais ar lafaredd Cymraeg er mwyn ymateb i'r diffyg hwn o ran sgiliau a welwyd a theimlent fod y Cwricwlwm i Gymru yn cynnig yr hyblygrwydd yr oedd ei angen i addasu eu dysgu ac addysgu mewn ymateb i'r her hon. Barnwyd bod yr hyblygrwydd hwn i addasu i newid mewn amgylchiadau yn un o gryfderau fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.

> 'Mae sgiliau iaith Gymraeg wedi dioddef yn ystod y pandemig, yn enwedig ymysg y rheini nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg gartref. Ar ôl y pandemig, a yw'n rhesymol barnu sgiliau Cymraeg y rheini sy'n dod o gefndiroedd lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad o gwbl gartref gyda'r rheini mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol?' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg

> 'Rydyn ni'n parhau i ganolbwyntio ar lafaredd Cymraeg am fod nifer o'n disgyblion yn brin o hyder ac yn hunanfeirniadol iawn o ran eu sgiliau eu hunain. Mae'r cwricwlwm newydd yn ein galluogi i addasu a newid ffocws yn ôl anghenion y dysgwyr. Dydyn ni ddim wedi ein rhwymo drwy'r amser i ddarparu cynnwys penodol ar adegau penodol am ein bod ni'n rheoli ein cwricwlwm ein hunain.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg

6.5 **Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn teimlo bod y pwyslais ychwanegol ar Gymreictod yn y Cwricwlwm i Gymru yn llesol o ran hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar draws eu cwricwlwm.** Dywedodd uwch arweinwyr fod hyblygrwydd fframwaith y Cwricwlwm i Gymru wedi eu galluogi i ddatblygu cynnwys mwy cyfoes a mwy perthnasol i'r ardal leol a oedd yn fwy at ddant eu dysgwyr. Roedd uwch arweinwyr hefyd wedi nodi bod rhieni a gofalwyr eu dysgwyr yn teimlo bod hyn yn agwedd bwysig ar y cwricwlwm. Roedd uwch arweinwyr wedi darparu rhai enghreifftiau o'r ffordd roedd hyn wedi dylanwadu ar eu cynllunio, er enghraifft, trefnu ymweliadau addysgol â lleoliadau a oedd yn

[26] Mae Menter Iaith yn sefydliad cymunedol sy'n gweithio i godi proffil y Gymraeg a'r defnydd ohoni mewn ardal benodol.

berthnasol i'r Gymraeg a hanes Cymru neu leoliadau lle'r oedd dysgwyr yn gallu clywed a defnyddio'r Gymraeg.

> 'Mae'r pwyslais ar Gymreictod, hunaniaeth a pherthyn yn beth llesol yn y Cwricwlwm i Gymru. Gellir hyrwyddo hyn yn yr holl bynciau; mae'n helpu i roi mwy o bwyslais ar ymdeimlad o falchder a hyder yn sgiliau iaith Gymraeg [y dysgwyr].' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg

> 'Pan wnaethon ni gynnal ein hymgynghoriad â rhieni rai blynyddoedd yn ôl, cawson ni fwy na 400 o ymatebion ar draws y clwstwr ac ar ôl bwydo'r ymatebion i gwmwl Word roedd y geiriau "hanes Cymru" mewn ffont anferth yn y canol, felly mae hyn wedi bod yn ffocws pwysig i ni.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg

*Materion eraill a godwyd gan uwch arweinwyr*

6.6 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg hefyd wedi nodi:

- eu bod yn wynebu heriau wrth recriwtio a chadw staff a oedd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- bod y ddarpariaeth a'r capasiti ar gyfer trochi iaith Gymraeg yn hanfodol i alluogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg cyn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg
- bod cydweithio agosach rhwng athrawon Saesneg, Cymraeg ac ieithoedd rhyngwladol (drwy'r maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu) wedi arwain at ffurfio mwy o gysylltiadau rhwng ieithoedd a bod hyn yn cael ei ystyried yn llesol o ran newid agwedd rhai dysgwyr at ddefnyddio'r Gymraeg
- bod y cwricwlwm newydd wedi creu brwdfrydedd ymysg ymarferwyr dros ddatblygu gweithgareddau ac adnoddau newydd, cyfoes ar gyfer dysgu ac addysgu a oedd yn rhoi'r gallu i ganolbwyntio ar gynnwys seiliedig ar Gymru yn ogystal â defnyddio'r Gymraeg i ddysgu am faterion rhyngwladol cyfoes.

**Pwyntiau cyffredinol a godwyd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a lleoliadau eraill sy'n gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn ystod 2022/23**

*Y pwyntiau a godwyd amlaf gan uwch arweinwyr: ysgolion cyfrwng Saesneg a lleoliadau eraill*

6.7 **Roedd uwch arweinwyr wedi mynegi barn gadarnhaol am ddefnyddio'r Gymraeg yn achlysurol yn eu hysgol ac wedi nodi eu bod yn canolbwyntio ar hyrwyddo hyn ymhellach yn yr ystafell ddosbarth ac amgylchedd ehangach yr ysgol.** Roedd barn gadarnhaol gan uwch arweinwyr am y Siarter Iaith gan ei weld yn fframwaith ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu hysgol neu leoliad; dywedodd rhai ohonynt fod y ffocws ychwanegol ar y Gymraeg yn y Cwricwlwm i Gymru yn sbardun iddynt weithio i ennill achrediad ar y lefel nesaf yn y Siarter Iaith. Mynegwyd barn gadarnhaol gan rai uwch arweinwyr am y cymorth a gawsant gan bartneriaid allanol, fel consortia rhanbarthol, i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymysg eu dysgwyr.

> 'Mae persbectif plant o'r Gymraeg yn allweddol, felly rydyn ni'n eu hannog i gymryd rhan yn y diwylliant Cymraeg. Mae defnydd achlysurol o'r Gymraeg yn rhan annatod o fywyd yr ysgol. Mae hyn yn bwysig ac mae'r plant wedi arfer â chyfarchion Cymraeg ac ati.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

6.8 **Nododd uwch arweinwyr eu bod yn wynebu anawsterau wrth lenwi swyddi ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg a'r rheini sydd wedi ymgymhwyso i addysgu Cymraeg fel pwnc.** Teimlai uwch arweinwyr fod prinder staff sy'n siarad Cymraeg ac roedd canfyddiad eu bod yn aml yn cystadlu ag ysgolion eraill i gael yr athrawon hyn.

> 'Allwch chi ddim cael athrawon Cymraeg. Roedd yn rhaid i ni hysbysebu'r swydd dair gwaith, gan gystadlu ag ysgolion lleol eraill. Mae ysgolion eraill yn cynnig cymhellion a thâl ychwanegol i ddenu athrawon Cymraeg. Rydyn ni'n ofni gweld staff sy'n siarad Cymraeg yn ein gadael.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

6.9 **Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion neu leoliadau a ddefnyddiodd Gynllun Sabothol Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru wedi mynegi barn gadarnhaol am ei effaith ar eu gweithlu.**[27] Roedd rhai uwch arweinwyr wedi dweud bod nifer o'u haelodau staff wedi cael mynediad i'r cynllun. Roedd uwch arweinwyr eraill wedi mynegi awydd i fanteisio ar y cynllun er bod rhai ohonynt wedi nodi bod anawsterau ynglŷn â rhyddhau staff a cholli arbenigedd am fod athrawon yn treulio amser hir ar gyfnodau sabothol.

[27] Gweler dysgu proffesiynol Cymraeg

> ‘Mae’r cynllun sabothol wedi bod yn newid mawr i ni ac wedi cael yr effaith fwyaf – mae tri aelod o’n staff wedi bod arno ac rydyn ni wedi buddsoddi o ddifri ynddo. Mae’r cynllun yn ffordd ystyrlon i sefydlu’r sgiliau iaith hyn, o gymharu â hyfforddiant achlysurol parhaus.’ Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

6.10 **Nododd rhai uwch arweinwyr fod prinder staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg yn golygu eu bod yn wynebu heriau wrth gwrdd â disgwyliadau uchel y Cwricwlwm i Gymru mewn perthynas â dysgu ac addysgu Cymraeg.** Dywedodd uwch arweinwyr fod hyder staff o ran addysgu Cymraeg yn is na’u hyder i gyflwyno defnydd achlysurol o’r Gymraeg. Mewn ffordd debyg i sgiliau trawsgwricwlaidd a themâu trawsbynciol, dywedodd uwch arweinwyr eu bod wedi rhoi blaenoriaeth i elfennau eraill yn eu cwricwlwm dros ddysgu ac addysgu Cymraeg. Roedd yr uwch arweinwyr hyn yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg, ac wedi mynegi awydd i gynyddu’r ffocws arni, ond teimlent fod pwysau amser, ynghyd â diffyg capasiti a sgiliau i addysgu Cymraeg, yn golygu bod angen rhoi blaenoriaeth i elfennau eraill (e.e. cynllunio o fewn ac ar draws Meysydd, datblygu eu dull o ymdrin â chynnydd ac asesu). Dywedodd nifer bach o uwch arweinwyr eu bod hefyd yn dymuno rhoi blaenoriaeth i ieithoedd y cartref a siaredir gan eu dysgwyr.

6.11 **Dywedodd uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg fod ymdeimlad cynyddol o gysylltiad â diwylliant Cymraeg ar draws eu hysgol ac ymdeimlad o berthyn, ochr yn ochr â chydblethu defnydd o’r Gymraeg mewn pynciau eraill.** Cyfeiriodd rhai at ffocws cynyddol ar hanes a diwylliant Cymru fel rhan o’u cwricwlwm, yn cynnwys testunau cyfrwng Saesneg sy’n canolbwyntio ar ddiwylliant Cymraeg. Roedd rhai wedi gwneud sylw am y gwerth o ddefnyddio caneuon Cymraeg i gynyddu’r ymgysylltu â’r Gymraeg a’i diwylliant, a theimlent y byddai’n llesol cael rhagor o adnoddau yn ymwneud â cherddoriaeth Gymraeg i hyrwyddo’r dull hwn. Dywedodd nifer bach o uwch arweinwyr fod eu hysgol neu leoliad wedi cynnal eisteddfod ysgol am y tro cyntaf eleni.

> Rydyn ni’n edrych ar destunau Cymraeg wedi’u trosi i’r Saesneg, felly chwedlau o Gymru fel ‘The Mab’ gan Eloise Williams [addasiad dwyieithog o’r Mabinogi]. Mae’n bwysig dathlu hunaniaethau Cymreig.’ Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

> ‘Mae arnon ni angen rhagor o adnoddau a deunyddiau darllen Cymraeg. Rydyn ni’n gwneud llawer o waith ar ganeuon a cherddoriaeth Gymraeg a bydden ni’n falch o gael cymorth i wneud hyn. Dydyn ni ddim wedi gwneud hyn yn Gymraeg o’r blaen, mae’r dysgwyr yn gweld bod hyn yn fwy ystyrlon ac rydyn ni’n eu haddysgu drwy ddawns a chân.’ Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

6.12 **Roedd barn gadarnhaol gan uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg am gymorth arall roeddent wedi’i gael gan eu consortiwm rhanbarthol ac eraill yn ymwneud ag addysgu Cymraeg** (e.e. hyfforddiant dwys dros dri diwrnod, sgyrsiau, fideos a chasgliadau o sleidiau). Er hynny, roedd uwch arweinwyr wedi mynegi awydd hefyd am gael rhagor o adnoddau a hyfforddiant. Er enghraifft, dywedodd rhai fod angen adnoddau sain Cymraeg i gyd-fynd â thestunau ac roedd eraill wedi gofyn am sesiynau hyfforddi ‘diweddaru’ byr i staff a oedd wedi cymryd rhan yn y cynllun sabothol o’r blaen ond a allai fod heb ddefnyddio eu sgiliau ers hynny.

> ‘Mae adnoddau ar gael ar gyfer Cymraeg ond does dim adnoddau sain ar gael bob amser i gyd-fynd â’r rhain, gan fod angen i staff eu cael er mwyn modelu iddyn nhw eu hunain ac i’r plant. Mae hyn yn fwy amlwg ar Gam Cynnydd 3 lle mae’r Gymraeg yn mynd yn fwy anodd, mae angen mwy o hyder ar y staff wrth addysgu’r plant.’ Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

*Materion eraill a godwyd gan uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg*

6.13 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg wedi darparu amryw o sylwadau eraill yn ymwneud â’r Gymraeg, yn cynnwys:

- bod eu clwstwr wedi cydweithio i ddatblygu adnoddau ar gyfer dysgu, addysgu a defnyddio’r Gymraeg.
- mai Cymraeg oedd un o’r blaenoriaethau yn eu cynllun datblygu ysgol
- bod y ffocws ar ieithoedd rhyngwladol a’r ffocws ar y Gymraeg yn y Cwricwlwm i Gymru yn ategu ei gilydd
- na fu llawer o newid o ran dysgu ac addysgu’r Gymraeg neu o ran defnyddio’r Gymraeg yn eu hysgol neu leoliad.

### Amrywiadau mewn barn yn ôl y math o ysgol neu leoliad

6.14 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol na'r rheini mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg o ddweud bod y pandemig wedi effeithio ar allu a hyder myfyrwyr i ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd hefyd wedi dweud bod fframwaith y Cwricwlwm i Gymru wedi galluogi eu hadrannau Cymraeg i ddatblygu cynnwys mwy cyfoes a pherthnasol i'r ardal leol a oedd yn fwy at ddant eu dysgwyr a'i fod hefyd wedi galluogi adrannau eraill i ganolbwyntio ar ragor o gynnwys seiliedig ar Gymru sy'n cynnig cyd-destun i ddysgwyr ar gyfer dysgu'r Gymraeg.

6.15 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn fwy tebygol na'r rheini mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg o nodi:

- eu bod wedi wynebu anawsterau wrth recriwtio ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg a'r rheini sydd wedi ymgymhwyso i addysgu Cymraeg fel pwnc
- nad oedd sgiliau iaith Gymraeg digonol gan eu gweithlu

6.16 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn fwy tebygol na'r rheini mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg o nodi:

- eu bod wedi defnyddio neu ystyried defnyddio'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg
- eu bod yn gweithio i ennill achrediad y Siarter Iaith

6.17 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion wedi rhoi gwybod am heriau wrth recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg – yn enwedig cynorthwywyr addysgu – a allai weithio gyda dysgwyr sydd ag ADY. Fodd bynnag, er bod defnydd achlysurol o'r Gymraeg, mae her yn codi wrth ddatblygu rhagor o gapasiti Cymraeg ymysg staff (er enghraifft, cymryd rhan yn y cynllun Sabothol) oherwydd yr heriau sylfaenol o ran staffio yn yr ysgolion a lleoliadau hyn.

**Barn uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023**

*Materion a godwyd gan uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023*

6.18 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 wedi nodi nifer o weithgareddau roeddent yn eu cyflawni i ymgorffori addysgu, dysgu a defnyddio'r Gymraeg yn eu hysgol:

- penodi cydgysylltwyr Cymraeg neu ddwyieithrwydd
- gweithio i ennill dyfarniadau'r Siarter Iaith
- ailddylunio eu cwricwlwm a datblygu ffyrdd newydd i ymgysylltu â dysgwyr a chreu brwdfrydedd dros y Gymraeg

'Mae'n debyg mai hon yw'r adran sydd wedi cael y budd mwyaf [o'r Cwricwlwm i Gymru]. Roedd y cwricwlwm heb newid ers amser hir ac mae hyn wedi eu hadfywio [staff] a'u helpu i arloesi. Nawr rydyn ni'n rhedeg fersiwn Gymraeg o 'I'm a celebrity' [sioe realiti ar y teledu] ac yn siarad am ddysgwyr Cymraeg enwog. Digonedd o gemau a chystadlaethau i'w hannog i ymgysylltu â'r iaith sy'n cynnig gwahanol ffyrdd i'w hyrwyddo.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

'Nawr mae ein dysgwyr [di-Gymraeg] ym Mlwyddyn 7 yn astudio nofel Gymraeg sydd wedi'i hanelu at siaradwyr Cymraeg ag oed darllen Blwyddyn 5 neu 6. Mae'r awdur wedi dod i'r ysgol i gynnal gweithdai ac rydyn ni wedi dysgu yr un pryd am anifeiliaid ac ansoddeiriau mewn cyd-destunau dilys.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

- canolbwyntio'n fwy ar ddiwylliant yn ogystal â'r gwerth o ddysgu'r iaith

'Rydyn ni wedi rhoi pwyslais mawr ar ethos, iaith a diwylliant Cymru. Dydy [y Gymraeg] ddim yn cael ei siarad ar y coridorau ond nawr mae disgyblion yn cael mwy o wybodaeth am werth y Gymraeg.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

6.19 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 wedi nodi rhai heriau roeddent yn eu hwynebu wrth ymgorffori dysgu, addysgu a defnyddio'r Gymraeg yn eu hysgol:

- recriwtio athrawon sy’n gallu siarad Cymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- gallu rhyddhau staff i gymryd rhan yn y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg oherwydd yr effaith a welir ar ddilyniant yr addysgu a cholli arbenigedd staff yn ystod y cyfnod sabothol

*Materion a godwyd gan uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy’n paratoi i weithredu’r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023*

6.20 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg sy’n paratoi i weithredu’r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 wedi nodi:

- eu bod yn canolbwyntio’n fwy nag o’r blaen ar hanes a diwylliant Cymru ar draws y cwricwlwm
- bod y cydweithio ychwanegol o fewn Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn llesol, a bod staff Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol yn rhannu arbenigedd ac arferion da i fwy o raddau ac yn mynd ati mewn ffordd fwy cyson i ddatblygu sgiliau
- eu bod yn cydweithio â phartneriaid allanol fel y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i wella canfyddiadau dysgwyr a rhieni o werth y Gymraeg drwy ddarparu gwybodaeth am lwybrau gyrfa lle’r oedd sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu gweld yn werthfawr.

6.21 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg sy’n paratoi i weithredu’r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 wedi nodi nifer o ystyriaethau roeddent yn ymdrin â nhw:

- y dirywiad a welwyd yn y defnydd o’r Gymraeg gan ddysgwyr ers y pandemig, yn enwedig ymysg dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref;
- heriau o ran cymell dysgwyr i siarad Cymraeg y tu allan i’r ystafell ddosbarth;
- mewn ysgolion uwchradd dwy iaith, roedd yn flaenoriaeth cynyddu canran y dysgwyr sy’n dewis dilyn cymwysterau TGAU penodol, yn enwedig Gwyddoniaeth a Mathemateg, drwy gyfrwng y Gymraeg, ac roedd hyn yn

galw am weithgarwch i newid canfyddiadau o’r Gymraeg ymysg dysgwyr a’u rhieni.

# 7. Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol

7.1 Yn yr adran hon, amlinellir canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â phrofiadau cyfweleion o **weithredu addysg Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yn nhrefniadau eu hysgol neu leoliad ar gyfer y cwricwlwm newydd.** Holwyd cyfweleion am y canlynol:

- sut roedd ysgolion a lleoliadau wedi dechrau ymgorffori Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol fel rhan o'u cwricwlwm newydd
- a oedd trefniadau'n gweithio'n effeithiol neu yn ôl y disgwyl
- a oedd ysgolion neu leoliadau wedi wynebu unrhyw heriau hyd yn hyn
- sut roedd ysgolion a lleoliadau yn cynllunio ar gyfer hyn mewn ffordd drawsbynciol
- a oedd angen unrhyw gymorth ychwanegol penodol i weithredu'r agwedd hon ar y cwricwlwm.

7.2 Yn yr adrannau sy'n dilyn, ceir crynodeb o sylwadau gan uwch arweinwyr am weithredu addysg Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol fel rhan o drefniadau eu hysgol neu leoliad ar gyfer y cwricwlwm newydd.

### Canfyddiadau Cam 2 (Mai-Gorffennaf 2023): Pwyntiau cyffredinol a godwyd gan uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau sy'n gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn ystod 2022/23

*Y pwyntiau a godwyd amlaf gan uwch arweinwyr*

7.3 **Roedd gwahaniaethau rhwng uwch arweinwyr wrth ddisgrifio cynnydd ar ddechrau ymgorffori Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yn eu cwricwlwm newydd:** dywedodd rhai eu bod 'ar gam cynnar' wrth weithredu ar hyn, tra oedd eraill wedi dweud nad oedd y maes hwn yn newydd iddynt.

7.4 Roedd uwch arweinwyr a oedd ar gam cynnar wedi ymgymryd â gwaith cynllunio a darparu cychwynnol ond yn teimlo bod **y broses o ddatblygu'r agwedd hon ar y cwricwlwm yn galw am fwy sylw a buddsoddi**. Roedd rhai uwch arweinwyr wedi nodi pryderon ynghylch dymuno cael yr agwedd hon ar y cwricwlwm yn 'iawn', gan ddweud bod cynyddu gwybodaeth y gweithlu yn ystyriaeth bwysig.

‘Does dim digon o wybodaeth ac ymwybyddiaeth eto ynghylch sut i ymdrin â’r elfen hon. Mae angen hyfforddiant yn y maes hwn ac rydyn ni ar gam cynnar.’ Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

7.5 **Soniodd uwch arweinwyr am yr angen i ymwneud yn ystyrlon â’r agwedd hon ar y cwricwlwm newydd** a chydnabod bod angen dod o hyd i adnoddau addas a meithrin gwybodaeth a hyder athrawon er mwyn osgoi gweithredu mewn ffordd symbolaidd a bod y tasgau hyn yn cymryd amser:

‘Rydyn ni’n edrych ar ein hethos yn yr ysgol. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn cael gwell dealltwriaeth o’r ffordd orau i ymdrin â’r maes hwn yn y Cwricwlwm i Gymru. Yr ateb sydyn yw edrych ar adnoddau a chynnwys yn unig – rydyn ni’n gwneud hyn, ond mae angen mynd ymhellach. Mae angen buddsoddi mewn datblygiad proffesiynol parhaus er mwyn [i athrawon] wneud penderfyniadau doeth ynghylch elfennau fel archwilio’r cwricwlwm – a ddylid tynnu allan rai testunau? Mae angen i’n hathrawon fod yn hyderus wrth wneud penderfyniad o’r fath.’ Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

7.6 **Mewn llawer achos, roedd uwch arweinwyr a deimlai nad oedd yr agwedd hon ar y cwricwlwm yn newydd iddynt yn rhai a oedd wedi’u lleoli mewn ardaloedd mwy amrywiol ac a oedd â hanes o edrych ar amrywiaeth yn y cwricwlwm cyn bod sôn am y Cwricwlwm i Gymru.** Dywedodd yr arweinwyr hyn eu bod yn gryf yn y maes hwn a’i fod yn bwysig i ethos a diwylliant yr ysgol. Roedd rhai hefyd a oedd â chysylltiadau cryf â’r gymuned o rieni a gofalwyr ac a oedd yn eu cynnwys mewn agweddau ar ddarparu:

‘Mae [amrywiaeth] yn rhan naturiol, nid yn ychwanegiad. Mae rhieni’n dod i’r ysgol ar gyfer gwahanol wyliau fel Eid a byddan nhw’n sôn am y math o ddathliadau sydd ganddyn nhw gartref, yn dangos arteffactau a phethau o’r gymuned. Mae’n fwy ystyrlon a dilys ei glywed ganddyn nhw yn hytrach nag athrawon.’ Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

7.7 Roedd uwch arweinwyr a nododd fod ffocws blaenorol ar amrywiaeth **yn awyddus o hyd i wneud cynnydd a gwella eu cynnwys ar Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol.** Roeddent yn nodi y byddai hyfforddiant, adnoddau a chanllawiau ychwanegol yn fuddiol i’r staff addysgu, nifer ohonynt wedi datblygu’r agwedd hon ar y cwricwlwm mewn ymateb i anghenion y dysgwyr ond nid o reidrwydd ar ôl cael hyfforddiant neu gefnogaeth ffurfiol:

‘Byddai’n wych cael cyfleoedd hyfforddi neu adnoddau o unrhyw fath gan ein bod ni’n rhoi blaenoriaeth i’r maes hwn. Dydy staff ddim wedi cael eu hyfforddi yn y

maes hwn, rydyn ni'n ymwybodol o hynny ac am fod yn barod ar gyfer y cynllun datblygu ysgol. Rydyn ni am sicrhau ei fod yn ystyrlon i'r plant ac mae angen adnoddau a rhwydweithiau y gallwn ni eu defnyddio.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

7.8 **Roedd archwilio'r cwricwlwm yn flaenoriaeth i nifer o uwch arweinwyr**, ac roedd nifer o'r rhain yn dweud bod pwyslais wedi'i roi ar ganfod cyfleoedd i greu cysylltiadau trawsgwricwlaidd, nodi bylchau yn y ddarpariaeth, a dangos ble'r oedd angen gwella cynnwys presennol.

7.9 **Dywedodd uwch arweinwyr fod y broses archwilio yn un gylchol a'i bod yn cyfrannu i'r gwaith o gynllunio a dylunio'r cwricwlwm, a bod hyn yn agwedd bwysig ar ddatblygu'r maes hwn yn y cwricwlwm**. Yn ogystal â hyn, defnyddiwyd dulliau archwilio i ganfod bylchau mewn gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn llywio camau i gaffael adnoddau, cymorth a chanllawiau.

'Rydyn ni wedi darparu ar gyfer amser cynllunio, er mwyn sicrhau bod amrywiaeth yn rhan annatod o'r cwricwlwm. Mae ein hoffer cynllunio yn dangos a yw amrywiaeth wedi'i chynnwys yn ein cwricwlwm. Mae gennyn ni athrawon sydd â gwybodaeth a setiau sgiliau sy'n ymwneud yn benodol â'r maes hwn ond mae'n anodd iawn darparu adnoddau ar gyfer hyn.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

7.10 **Dywedodd lleiafrif o uwch arweinwyr eu bod yn cynnwys dysgwyr wrth archwilio'r cwricwlwm**, un ai drwy gynghorau myfyrwyr neu drwy gynnal arolygon. Gan amlaf, roedd yr ymgynghoriadau hyn yn cynnwys meysydd cydraddoldeb eraill ochr yn ochr â Hanes Lleiafrifoedd Ethnig, fel rhywedd, LHDTC+ ac anabledd:

'Mae'r cyngor ysgol wedi arwain archwiliadau i chwilio am dystiolaeth o ran tegwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth, rhagfarn ar sail rhywedd mewn adnoddau dosbarth.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

7.11 Soniodd uwch arweinwyr am **y pwysigrwydd o archwilio'r cwricwlwm i sicrhau ei fod yn adlewyrchu amrywiaeth eu dysgwyr. Roedd yr arweinwyr hyn wedi mynd ati i archwilio gyda'r bwriad o sicrhau bod y cwricwlwm yn gynrychiadol ac felly'n fwy priodol i'w hysgol neu leoliad.** Yn ogystal â hyn, drwy archwiliadau o'r cwricwlwm, roedd lleiafrif o ysgolion wedi rhoi gwybod bod angen gwella eu cynnwys presennol: yn bennaf oll, roedd diffyg o ran hanes a phortreadau cadarnhaol am gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng

nghynnwys presennol y cwricwlwm, yr oedd yr uwch arweinwyr hyn yn awyddus i'w unioni:

> 'Roedd ein cwricwlwm yn rhy wyn yn y dyniaethau, y tu allan i Hanes a Chrefydd draddodiadol. Roedd yn rhaid i ni gamu'n ôl a gofyn a oedd hyn yn cwrdd â'r anghenion a'r amrywiaeth yn ein hysgol. 'Nac oedd' oedd yr ateb i hyn.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

> 'Byddwn ni'n edrych ar y negeseuon – roedd negeseuon negyddol yn ein cynnwys ar amrywiaeth a stereoteipiau fel caethwasiaeth a chyflwr y dioddefwr. Gwnaethon ni sylweddoli ein bod yn cyfleu negeseuon gwael am gymunedau Du, bod rhagfarn anymwybodol yn ein dewisiadau. Nid yw ein gweithlu'n amrywiol iawn ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein cwricwlwm. Nid yw'n ddigon amrywiaethu beth sy'n cael ei addysgu, mae angen edrych ar yr argraff y mae'n ei gwneud. Rydyn ni am gael negeseuon mwy cadarnhaol.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

7.12 **Mewn llawer achos, roedd uwch arweinwyr wedi nodi iddynt ddefnyddio adnoddau wrth gynllunio a dylunio eu cynnwys ar Hanes Lleiafrifoedd Ethnig.** Dywedwyd bod cysylltiad uniongyrchol rhwng adnoddau a darparu a chynnwys y cwricwlwm. Ymhlith yr adnoddau hyn roedd gweithgareddau mewn rhai meysydd pwnc, llyfrau am gymunedau a modelau rôl Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a thaflenni gwaith a gweithgareddau ystafell ddosbarth sydd ar gael ar lwyfannau trydydd parti.

7.13 Roedd rhai ysgolion a lleoliadau wedi cael adnoddau eu hunain, eraill wedi defnyddio adnoddau sydd ar gael gan eu Consortiwm neu wedi cydweithio i'w datblygu ac, mewn lleiafrif o achosion, roedd uwch arweinwyr wedi dweud bod ganddynt arbenigedd mewnol roeddent yn ei ddefnyddio i ddatblygu adnoddau.

7.14 Nododd uwch arweinwyr **fod her yn codi wrth sicrhau adnoddau mewn rhai achosion oherwydd yr amser, yr ymdrech a'r gost a oedd ynglŷn â dod o hyd iddynt.** Roeddent wedi cyfeirio at y pwysigrwydd o gydweddu adnoddau ag anghenion y dysgwyr ac at hyder a gwybodaeth y staff addysgu a'u gallu i'w darparu:

> 'Mae llawer o adnoddau ar gael ar gyfer y maes hwn, mae braidd yn ormod i ysgolion. Y rhwystr mwyaf i ysgolion yw diffyg amser i ymchwilio ac ystyried pa adnoddau a fyddai'n fwyaf defnyddiol i'w hysgol.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg

> ‘Roedd yr adran Saesneg wedi gwneud ymdrech aruthrol i amrywiaethu, dydyn ni ddim yn credu ei bod yn anodd dod o hyd i adnoddau amrywiol – rydyn ni wedi edrych ar feysydd cynwysoldeb eraill hefyd fel LHDT+. Rydyn ni wedi neilltuo arian i brynu adnoddau a llyfrau newydd.’ Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

7.15 **Roedd uwch arweinwyr wedi gofyn am ragor o adnoddau allanol. Gofynnwyd am hyn gan y rheini a oedd ar y camau cyntaf wrth ddatblygu’r maes hwn yn y cwricwlwm, yn ogystal â’r rheini a oedd ar y camau diweddarach.** Nododd uwch arweinwyr y byddai eu staff yn gallu dewis o ystod ehangach o adnoddau os oedd mwy o adnoddau ar gael. Yn aml, roedd uwch arweinwyr wedi sôn am ddefnyddio adnoddau allanol, rhai a brynwyd a rhai di-dâl, fel man cychwyn ar gyfer eu gwaith cynllunio ac wedi nodi eu bod wedi’u haddasu at eu defnydd eu hunain. Dywedwyd bod dylunio adnoddau pwrpasol yn ffordd i sicrhau bod y maes hwn yn y cwricwlwm yn un teilwredig ac addas i’w ddarparu:

> ‘Mae nifer o gwmnïau preifat yn cynnig adnoddau parod i ysgolion sy’n llenwi’r bwlch yn y farchnad ar hyn o bryd ar gyfer llawer o ysgolion. Mae’n fwy buddiol i ysgolion fynd drwy’r broses o ddatblygu eu hadnoddau eu hunain mewn partneriaeth â rhanddeiliaid fel y bydd yr adnoddau hyn wedi’u teilwra yn ôl anghenion dysgwyr.’ Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg

> ‘Byddai astudiaethau achos anecdotaidd yn gallu bod o gymorth i ddangos sut mae ysgolion eraill yn rhoi pethau ar waith.’ Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

7.16 **Roedd nifer o uwch arweinwyr wedi nodi bod lefel y wybodaeth a’r hyder ymysg staff yn isel yn y maes hwn yn y cwricwlwm, yn enwedig mewn ysgolion a lleoliadau lle’r oedd lefelau isel o amrywiaeth ymysg y dysgwyr a/neu’r staff addysgu.** Roedd nifer o uwch arweinwyr wedi ymgysylltu ag arbenigwyr allanol fel DARPL[28] a Show Racism the Red Card[29] er mwyn datblygu galluoedd eu gweithlu. Soniodd rhai am ddefnyddio’r sefydliadau hyn i hyfforddi a datblygu eu haelodau staff, tra oedd eraill wedi gwneud defnydd o’r arbenigedd ac adnoddau a gynigiwyd gan y darparwyr allanol hyn.

---

[28] DARPL – Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol
[29] Hafan – Show Racism the Red Card

‘Roedden ni wedi dod i gysylltiad â DARPL: mae hyn yn help mawr os nad oes profiad bywyd o’r fath gennych chi.’ Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

‘Mae ein harweinwyr ar amrywiaeth wedi dilyn hyfforddiant DARPL – [roedd] yn dda iawn ac mae’r adnoddau ar gael ar Hwb. Rydyn ni’n cydweithio â nhw nawr i ddarparu hyfforddiant a gweithdai i’r holl staff.’ Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

7.17 Mewn rhai achosion, roedd uwch arweinwyr wedi tynnu sylw at fylchau mewn hyfforddiant a chyllid ar gyfer adnoddau, ond **wedi nodi bod heriau yn codi wrth geisio sicrhau adnoddau addas i gwrdd ag anghenion**.

‘Ysgol wyn yw hon yn bennaf, rydyn ni wedi wynebu her wrth ymgysylltu â darparwyr, nifer bach iawn sydd ohonyn nhw, mae’n ddrud. Rydyn ni am wneud hyn, ond sut y gallwn ni gael gafael ar y cymorth os na allwn ni ei fforddio?’ Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

7.18 **Roedd amrywiadau o ran ystod y darparu ar addysg Hanes Lleiafrifoedd Ethnig ar draws y cwricwlwm**. Cyfeiriodd rhai uwch arweinwyr at weithgareddau ar wahân, yn gysylltiedig fel arfer â dyddiadau allweddol fel Mis Hanes Pobl Ddu neu ddathliadau crefyddol, tra oedd eraill yn darparu addysg Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol drwy gydol y flwyddyn. **Yn gyffredinol, roedd yn ymddangos bod awydd ymysg uwch arweinwyr i droi oddi wrth weithgareddau ar wahân at ymgorffori darpariaeth drwy gydol y flwyddyn**. Roedd nifer wedi dweud bod gweithgareddau ar wahân yn ddefnyddiol fel sail i ddarparu, ond eu bod yn pryderu y gallai hyn ymddangos yn rhywbeth symbolaidd. Roedd yr uwch arweinwyr hyn yn chwilio am ffyrdd i ganolbwyntio ar Hanes Lleiafrifoedd Ethnig fel agwedd barhaus ar y cwricwlwm, heb ei gysylltu â digwyddiadau arbennig yn unig.

‘Rydyn ni’n defnyddio achlysuron yn y gymuned – Mis Hanes Pobl Ddu, Ramadan – ac yn cynnwys y rhain yn ein calendr o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn. Mae’r tîm Hanes wedi cyfrannu at hyn fel bod modd ei ddefnyddio mewn meysydd eraill.’ Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

‘Rydyn ni’n canolbwyntio o ddifrif ar hyn yn nhymor yr hydref yn ystod Mis Hanes Pobl Ddu. Ond mae rhywun yn teimlo bod hyn yn enghraifft o dicio blychau...rydyn ni am geisio gweld sut mae testunau hanes pobl Ddu yn cysylltu

â'r holl destunau, nid yn ystod Mis Hanes Pobl Ddu yn unig.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

7.19 Dywedodd rhai uwch arweinwyr eu bod yn canolbwyntio ar ddarparu Hanes Lleiafrifoedd Ethnig ym meysydd pwnc Hanes a'r Dyniaethau, tra oedd **eraill yn delio â'r agwedd hon ar y cwricwlwm mewn ffordd fwy cyfoes, gan ei gysylltu â phobl, digwyddiadau a materion pwysig cyfoes, a'i ymgorffori mewn gwahanol bynciau**. Roedd yn ymddangos bod rhai ysgolion a lleoliadau ar gamau cynnar yn y broses ddatblygu hon, ac roeddent wedi nodi bod angen rhagor o archwilio er mwyn symud ymlaen. Roedd eraill wedi mynd yn bellach ac wedi dechrau ffurfio cysylltiadau trawsgwricwlaidd: yn yr achosion hyn, nodwyd ei bod yn haws canfod cysylltiadau trawsgwricwlaidd mewn rhai meysydd nag mewn eraill:

'Pan fyddwn ni'n mapio, byddwn yn sicrhau bod cynrychiolaeth. Os bydd y tîm Saesneg yn dewis testun, yna gall y tîm Crefydd fynd ar ôl hynny, wedyn bydd y tîm Hanes yn rhoi sylw i beth oedd yn digwydd yn y cyfnod dan sylw. Mae'n gweithio. Ond pan fyddwch chi'n ceisio cynnwys pynciau mwy eang fel Technoleg a Gwyddoniaeth, mae'n golygu ceisio gwneud iddo ffitio, a dydy hynny ddim yn digwydd bob tro.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

'Ar y dechrau, roedden ni wedi edrych ar brosiect hanes pobl Ddu ond wedi gweld nad oedd yn ddigon cyfoes i'r dysgwyr. Roedd yn canolbwyntio gormod ar hanes ac nid oedd yn gyfoes. Yn lle hynny, rydyn ni'n astudio ffilm a llyfrau sy'n edrych ar ragfarn yn gyffredinol ac yn ei ddefnyddio i ddatblygu cynnwys. Mae hyn yn ei wneud yn fwy perthnasol i'r dysgwyr.' Uwch arweinydd, uned cyfeirio disgyblion

'Does dim diddordeb gan y plant. [Maen nhw'n] tyfu, yn chwilio am gyfleoedd. Mae'r tîm Hanes wedi addasu eu rhaglen ac yn sôn am 'blygu glin' [30]ac yn chwilio am faterion cyfoes ar gyfer y cwricwlwm.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

7.20 **Roedd croeso i'r camau i gynnwys Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yn y Cwricwlwm i Gymru, ac i'r gallu i addasu cynnwys y cwricwlwm yn ôl anghenion dysgwyr, rhieni a'r gymuned ehangach** ymysg uwch arweinwyr, yn enwedig y rheini sydd â chyfran uwch o ddysgwyr o gefndiroedd Ethnig Leiafrifol. Dywedodd y rhain eu bod yn gallu bod yn fwy ymatebol a chynhwysol wrth ddylunio eu cwricwlwm ers cyflwyno'r Cwricwlwm i

[30] Mae 'plygu glin' yn ystum cyfoes i ddangos gwrthwynebiad i hiliaeth a welir mewn digwyddiadau chwaraeon drwy'r byd.

Gymru, a bod ganddynt fwy o allu i adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

> 'Mae gennyn ni gydbwysedd o ran amrywiaeth yn yr ysgol a gymerwn yn ganiataol. Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi gwneud gwahaniaeth gan fod mwy o gyfle i ganolbwyntio ar amrywiaeth; roedd gennyn ni ddarpariaeth ar hyn erioed wrth gwrs. Fodd bynnag, mae gennyn ni gyfle [nawr] i gryfhau hyn.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

> 'Yr agwedd bwysicaf i ni yw hunaniaeth – hunaniaeth y dysgwr ei hun, parchu'r unigolyn. Mae hyn wedi arwain at drafodaethau mwy cyffredinol am gydraddoldeb ac yn cael ei gysylltu wedyn â phob disgybl. Mae hyn yn llinyn sy'n rhedeg drwy'r ysgol gyfan ac mae'n help wrth groesawu unrhyw ddisgyblion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol newydd. Rydyn ni'n teimlo bod ein gallu i ymateb i'n dysgwyr a gwneud yr agwedd hon yn berthnasol, yn bersonol, i bob plentyn yn rhywbeth sydd wedi gweithio'n dda.' Uwch arweinydd, ysgol pob oed cyfrwng Saesneg

7.21 **Roedd yr agwedd newydd hon ar y cwricwlwm wedi'i chroesawu hefyd mewn rhai ysgolion a lleoliadau a oedd heb gyfran fawr o ddisgyblion Ethnig Leiafrifol**, ac roedd uwch arweinwyr wedi nodi bod y gofyniad i fod yn fwy cynhwysol wedi rhoi cyfle iddynt addysgu eu dysgwyr am amrywiaeth yng Nghymru a thu hwnt:

> 'Does dim llawer o amrywiaeth hiliol yma ac rydyn ni'n ceisio creu mwy o gysylltiad â Chymru yn gyffredinol, i ddangos i'n dysgwyr a rhieni fod ardaloedd eraill yn fwy amrywiol.' Uwch arweinydd, ysgol arbennig

7.22 Yn aml, roedd uwch arweinwyr wedi nodi bod **yr agwedd newydd hon ar y cwricwlwm wedi arwain at roi mwy o sylw i feysydd cydraddoldeb eraill, fel rhywedd, anabledd ac LHDTC+.** Dywedodd uwch arweinwyr eu bod wedi sylwi, wrth archwilio'r cwricwlwm neu ddylunio cynnwys, ar gyfleoedd i gynnig enghreifftiau, testunau a modelau rôl mwy amrywiol er mwyn cwmpasu nodweddion lleiafrifol eraill.

> 'Rydyn ni'n edrych ar wahanol elfennau – mae testunau gwyddoniaeth yn cynnwys gwyddonwyr o wahanol gefndiroedd fel gwyddonwyr benywaidd. Mae ein ffocws ar Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol wedi ein helpu i feddwl am feysydd cydraddoldeb eraill, a chael gwared ar stereoteipiau eraill o ran rhywedd a phobl LHDTC+. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn caniatáu i ni wneud y cysylltiadau hyn a'u hymgorffori yn y cynnwys. Mae'n fwy hyblyg ac mae hyn yn well i'r plant.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

*Materion eraill a godwyd gan uwch arweinwyr*

7.23 Dywedodd rhai uwch arweinwyr fod **Hanes Lleiafrifoedd Ethnig yn aml yn cael ei ddarparu ym Maes Iechyd a Lles neu fel thema drawsbynciol** ochr yn ochr ag ACRh. Roedd yn ymddangos bod y trefniant hwn yn caniatáu iddynt gydgysylltu gwaith cynllunio a gweithgareddau ar sail yr elfennau newydd hyn yn y cwricwlwm.

> ‘Rydyn ni wedi penodi aelod staff i fod yn gyfrifol am themâu trawsbynciol. Mae wedi gwneud pethau tebyg gyda Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol ac addysg gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith ac wedi cydblethu’r rhain â gwersi bugeiliol a chofrestru.’ Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

7.24 **Mewn lleiafrif o ysgolion a lleoliadau, yn enwedig y rheini lle nad oes cyfran fawr o ddysgwyr Ethnig Leiafrifol, roedd uwch arweinwyr wedi nodi anawsterau wrth fwrw ymlaen â Hanes Lleiafrifoedd Ethnig.** Roedd uwch arweinwyr wedi sôn am heriau yn eu hysgol neu leoliad a oedd yn ganlyniad i ddiffyg amrywiaeth ac wedi’i chael yn anodd codi proffil yr agwedd hon ar y cwricwlwm newydd ymysg staff. Roedd rhai wedi tynnu sylw at y ffaith bod cyfrannau mawr o ddysgwyr Ethnig Leiafrifol gwyn yn eu hysgol neu leoliad, ond wedi nodi nad oedd staff yn teimlo bod y rhan hon o’r cwricwlwm wedi’i bwriadu ar gyfer y dysgwyr hynny. Mewn ymateb i hyn, roedd yr uwch arweinwyr hyn yn ystyried opsiynau hyfforddi ac wedi datblygu cysylltiadau ag arbenigwyr allanol er mwyn gwella gwybodaeth, dealltwriaeth a gallu eu hathrawon i gynllunio a darparu’r agwedd hon ar y cwricwlwm:

> ‘[Rydyn ni’n] deall pa mor bwysig yw hyn o safbwynt diwylliannol a chymdeithasol…ond yn [lleoliad yr ysgol] mae nifer mawr o [bobl ethnig leiafrifol gwyn], felly gallai hynny fod yn fwy perthnasol i’r plant.’ Uwch arweinydd, ysgol arbennig

### Amrywiadau mewn barn yn ôl math a chyfrwng iaith y lleoliad

7.25 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn fwy tebygol na’r rheini mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg o nodi:

- eu bod yn cysylltu Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol ag ACRh ac Iechyd a Lles.

- eu bod yn awyddus i ymgorffori Hanes Lleiafrifoedd Ethnig ar draws y cwricwlwm ehangach a'u bod ar wahanol gamau yn eu cynnydd ar hyn

7.26 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn fwy tebygol na'r rheini mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg o nodi:

- eu bod yn darparu Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol mewn ffordd drawsgwricwlaidd, wedi'i ymgorffori mewn pynciau heblaw Hanes
- bod y sylw i Hanes Lleiafrifoedd Ethnig wedi arwain at roi mwy o sylw i feysydd cydraddoldeb eraill fel rhywedd, anabledd ac LHDTC+.

**Barn uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023**

7.27 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 wedi disgrifio sut roeddent yn ymgorffori Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yn eu cwricwlwm. Yn gyffredinol, roedd uwch arweinwyr wedi dweud eu bod yn gwneud cynnydd da ar weithredu'r agwedd hon ar y cwricwlwm, er bod rhai wedi nodi bod y cynnydd yn amrywio rhwng pynciau a Meysydd. Y gweithgareddau paratoi a grybwyllwyd amlaf gan uwch arweinwyr yn yr ysgolion hyn oedd:

- uwch arweinwyr a/neu ymarferwyr yn cymryd rhan mewn gweithgarwch dysgu proffesiynol mewn perthynas â Hanes Lleiafrifoedd Ethnig
  - hyfforddiant a chynadleddau DARPL oedd y gweithgarwch dysgu proffesiynol a grybwyllwyd amlaf
- staff yn cymryd rhan mewn gweithgorau a hwyluswyd ar lefel y clwstwr, awdurdod lleol neu gonsortiwm rhanbarthol i ddatblygu adnoddau neu ddulliau gweithredu i'w rhannu er mwyn ymgorffori Hanes Lleiafrifoedd Ethnig yn eu cwricwlwm
- defnyddio templedi cynllunio cwricwlwm i gymell athrawon i gynnwys Hanes Lleiafrifoedd Ethnig yn eu cwricwlwm
- athrawon mewn un Maes (y Dyniaethau gan amlaf) yn arwain ar ddynodi cynnwys a syniadau sy'n ymwneud â Hanes Lleiafrifoedd Ethnig a chynghori

athrawon mewn Meysydd eraill wedyn ar y ffyrdd mwyaf priodol i gynnwys y rhain yn eu pynciau a Meysydd ac ar draws grwpiau blwyddyn, gan ddynodi er enghraifft:

- modelau rôl amlwg o gefndiroedd Ethnig Leiafrifol ym myd Gwyddoniaeth
- modelau rôl o gefndiroedd Ethnig Leiafrifol yng Nghymru neu eu hardal leol
- testunau neu nofelau sy'n ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â Hanes Lleiafrifoedd Ethnig.

'Mae'r ffocws ar yr agwedd hon wedi bod yn bositif iawn. Yn ein mapio a chynllunio, 'ni 'di plethu i fewn hanes a chynnwys yn ymwneud â lleiafrifoedd ethnig ar draws y cwricwlwm. 'Ni hefyd 'di gallu datblygu cwricwlwm sy'n adlewyrchu cefndiroedd ein plant a'n cymuned ni yn well.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg

7.28 Mewn nifer bach o'r ysgolion uwchradd sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023, roedd uwch arweinwyr yn cydnabod bod eu hymdrechion i ymgorffori Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yn eu cwricwlwm yn rhan o broses ailadroddus a oedd yn gofyn am newid yn ffordd o feddwl staff fel eu bod yn fwy myfyriol ac ymwybodol o arferion da yn y maes hwn. Yn yr ysgolion hyn, roedd uwch arweinwyr wedi nodi ei bod yn bwysig ymgorffori Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol er mwyn i'w hysgol fod yn fwy cynhwysol ar gyfer eu holl ddysgwyr.

7.29 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 wedi disgrifio ystyriaethau o ran ymgorffori Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yn eu cwricwlwm. Y materion a grybwyllwyd amlaf gan uwch arweinwyr yn yr ysgolion hyn oedd:

- yr angen i ledaenu ac ymgorffori arferion da ar draws yr holl bynciau a Meysydd yn eu hysgol
- yr angen i sicrhau bod mwy o hyfforddiant ar gael i ymarferwyr
- yr angen i hybu ymwybyddiaeth o adnoddau ac arferion da a'u gwneud yn fwy gweladwy.

## 8. Elfennau eraill yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru

8.1 Yn ystod Cam 1 yn yr ymchwil hon, holwyd uwch arweinwyr am dair elfen arall yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru:

- cynllunio a gweithredu’r cwricwlwm ar draws ac o fewn meysydd dysgu a phrofiad (Meysydd).
- Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)
- Ieithoedd rhyngwladol

8.2 Ni holwyd uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau a oedd yn gweithredu’r cwricwlwm yn ystod 2022-23 am yr elfennau hyn yn ystod Cam 2 yr ymchwil. Fodd bynnag, fe holwyd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd a oedd yn paratoi i weithredu’r cwricwlwm o fis Medi 2023 am yr elfennau hyn.

8.3 Yn yr adran hon, ceir crynodeb o ganfyddiadau’r adroddiad Cam 1 mewn perthynas â phob un o’r uchod, ac wedyn cyflwynir barn uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd a oedd yn paratoi i weithredu’r cwricwlwm o fis Medi 2023 mewn perthynas â phob elfen.

### Cynllunio a gweithredu’r cwricwlwm ar draws ac o fewn meysydd dysgu a phrofiad

8.4 Holwyd cyfweleion am y canlynol:

- a oedd trefniadau’n gweithio’n effeithiol neu yn ôl y disgwyl
- a oeddent wedi wynebu unrhyw heriau
- a oedd angen cymorth ychwanegol mewn perthynas â’r agwedd hon ar y cwricwlwm (e.e. dysgu proffesiynol, canllawiau, adnoddau, cymorth i wella arweinyddiaeth neu ymarfer proffesiynol).

### Crynodeb o ganfyddiadau Cam 1 (Tachwedd 2022 – Ionawr 2023): ysgolion a lleoliadau a oedd yn gweithredu’r cwricwlwm yn ystod 2022-23

8.5 Yn yr adroddiad Cam 1, roedd y canfyddiadau yn dangos:

- Bod ysgolion a lleoliadau yn mapio elfennau o fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ar sail pob un o'r Meysydd er mwyn sicrhau 'sylw' digonol ac osgoi ailadrodd os oedd yn bosibl.
- Bod ysgolion a lleoliadau yn mabwysiadu gwahanol ddulliau o gynllunio eu cwricwla a sicrhau bod cysylltiadau rhwng pynciau a Meysydd.
  - Roedd nifer o ysgolion a lleoliadau yn canolbwyntio ar fapio cynnydd o fewn meysydd, ac roedd uwch arweinwyr wedi disgrifio sut roedd gweithgarwch y clwstwr yn chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd.
  - Roedd uwch arweinwyr wedi dweud bod mwy o gydweithio rhwng disgyblaethau pwnc mewn ysgolion a lleoliadau.
- Roedd amrywiadau o ran y Meysydd roedd uwch arweinwyr yn credu eu bod yn gwneud cynnydd da wrth ddylunio a gweithredu eu cwricwlwm.
- Cyfeiriodd uwch arweinwyr at heriau roeddent yn eu hwynebu o ran sicrhau capasiti staff i gymryd rhan mewn sesiynau cydgynllunio a gweithgarwch y clwstwr.

*Barn uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd a oedd yn paratoi i weithredu'r cwricwlwm o fis Medi 2023*

8.6 Dywedodd uwch arweinwyr eu bod wedi mapio cynnwys y cwricwlwm ar draws meysydd. Mewn rhai achosion, roeddent wedi gwneud hyn ar lefel y clwstwr, er mwyn ceisio sicrhau cydlyniant a phrofiad mwy cyson i'r holl ddysgwyr.

> 'Roedd y mapio'n fuddiol achos nath o helpu ni i weld ar draws y clwstwr bod rhai plant yn astudio'r Tuduriaid am y pedwerydd gwaith ym Mlwyddyn 8 tra bod rhai heb neud e o gwbl. Nath mapio fel clwstwr helpu ni i gysoni pethau i'r disgyblion ac athrawon.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg

8.7 Mewn rhai ysgolion, roedd uwch arweinwyr wedi datblygu themâu ysgol gyfan ar gyfer grwpiau blwyddyn. Roedd gwahaniaeth barn ynghylch pa mor dda y mae hyn wedi gweithio, a rhai uwch arweinwyr wedi dweud eu bod wedi troi oddi wrth y dull hwn o weithredu, tra oedd eraill wedi cael ei fod yn fuddiol. Eglurodd nifer bach o

uwch arweinwyr nad oedd y themâu hyn yn orfodol ar gyfer yr holl Feysydd, am fod rhai ohonynt wedi ei chael yn anodd addasu eu gwaith i ffitio i rai themâu.

> ‘Rydyn ni wedi datblygu tair uned thematig ar gyfer Blwyddyn 7 yn cwmpasu nifer o Feysydd. Mae’r rhain yn ein helpu i ddod o hyd i gysylltiadau naturiol ar draws Meysydd ac rydyn ni wedi mapio’r sylw i wahanol elfennau yn y Cwricwlwm i Gymru ar sail yr unedau hyn. Rydyn ni wedi gallu datblygu profiadau dysgu a thasgau dilys ar draws gwahanol bynciau a meysydd sydd i gyd yn gysylltiedig â’r unedau hyn’. Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

> ‘’Ni ’di datblygu themâu traws ysgol ym mlwyddyn 7 sydd ’di seilio ar un ‘Cwestiwn mawr’ sy’n gyrru’r dysgu mewn sawl Maes am 8 wythnos.’ Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg

> ‘Nid yw’r gweithio ar draws Meysydd wedi datblygu fel roedden ni wedi gobeithio ond dydyn ni ddim wedi gwthio hyn achos dydyn ni ddim am ei weld yn cael ei wneud o anfodd. Felly mae’r cysylltiadau’n cael eu ffurfio o fewn Meysydd, nid rhyngddyn nhw.’ Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

8.8 Dywedodd uwch arweinwyr fod timau rhai Meysydd wedi datblygu cwricwlwm mwy cydlynol na’i gilydd. Roedd yn ymddangos bod nifer o ffactorau yn dylanwadu ar hyn, gan gynnwys:

- a oedd ysgolion wedi treialu eu cwricwlwm mewn Meysydd penodol, ac felly wedi cael mwy o amser i brofi a mireinio dulliau
- a oedd maint yr ysgol a threfniadau amserlennu yn eu galluogi i gadw cysondeb o ran athrawon ar draws Meysydd (e.e. mewn rhai ysgolion, roedd un athro yn addysgu’r Dyniaethau i bob grŵp o ddysgwyr Blwyddyn 7)
- y berthynas rhwng staff mewn gwahanol adrannau o fewn un Maes.

8.9 O ran y cynnydd o fewn Meysydd penodol, roedd uwch arweinwyr wedi nodi:

- Bod meysydd **y Dyniaethau, Iechyd a Lles** a’r **Celfyddydau Mynegiannol** yn datblygu’n dda at ei gilydd
    - Dywedodd nifer o ysgolion eu bod wedi treialu eu dulliau cwricwlwm newydd mewn un neu ragor o’r Meysydd hyn.
- Bod y maes **Mathemateg a Rhifedd** wedi datblygu’n dda, er bod rhai uwch arweinwyr wedi nodi ei bod yn anodd cynnwys y Maes hwn mewn themâu ysgol gyfan

- Roedd y profiadau o faes **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu** yn fwy amrywiol.
    - Roedd rhai ysgolion yn hybu cydweithio a ffocws cyson ar sgiliau penodol ar draws pynciau (e.e. sgiliau synthesis neu ysgrifennu darnau estynedig yn Gymraeg a Saesneg) tra oedd eraill yn datblygu themâu ar gyfer Cymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Rhyngwladol.
    - Nododd rhai uwch arweinwyr fod athrawon yn ymateb yn dda i'r cydweithio cynyddol rhwng pynciau ym maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.
    - Nododd nifer bach o ysgolion fod eu hadrannau Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu wedi ei chael yn anodd datblygu cysylltiadau rhwng pynciau.
- Roedd ymarferwyr wedi wynebu mwy o her wrth gydweithio ym maes **Gwyddoniaeth a Thechnoleg** ac roedd nifer bach o uwch arweinwyr wedi dweud eu bod wedi penodi aelodau staff newydd neu ddyrannu capasiti ymysg uwch arweinwyr i ddatblygu'r cwricwlwm yn y Maes hwn.

8.10 Nododd uwch arweinwyr fod eu hysgolion wedi penodi 'arweinwyr Maes' i ymgymryd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros rai Meysydd, ond eu bod wedi mabwysiadu model mwy cydweithredol mewn eraill, lle'r oedd arweinwyr adrannol wedi dod ynghyd i rannu arferion a datblygu dulliau mwy cyson. Mewn nifer bach o ysgolion, ni phenodwyd arweinwyr Maes ond roedd ysgolion yn teimlo bod hyn wedi arwain at ddiffyg momentwm wrth fwrw ymlaen â'r cwricwlwm ac roeddent bellach yn ailystyried eu dull o weithredu.

**Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)**

8.11 Holwyd cyfweleion am y canlynol:

- sut roeddent wedi dechrau gweithredu ACRh
- a oedd trefniadau'n gweithio'n effeithiol neu yn ôl y disgwyl
- a ydynt wedi wynebu unrhyw heriau hyd yn hyn

- a oedd angen unrhyw gymorth ychwanegol i weithredu'r agwedd hon ar y cwricwlwm.

**Crynodeb o ganfyddiadau Cam 1 (Tachwedd 2022 – Ionawr 2023): ACRh**

8.12 Yn yr adroddiad Cam 1, roedd y canfyddiadau yn dangos bod:

- Nifer o ysgolion a lleoliadau nad oeddent wedi rhoi gwybod am fynegi pryderon ynghylch ACRh gan rieni a gofalwyr, er bod rhai ohonynt wedi rhag-weld y gallai materion gael eu codi.
- Nifer o ysgolion a lleoliadau wedi dweud eu bod yn defnyddio adnoddau o ffynonellau allanol i lywio'r broses o ddylunio, cynllunio a darparu ACRh.
- Rhai ysgolion a lleoliadau wedi cael ymatebion negyddol gan rieni ynghylch yr elfen ACRh yn y cwricwlwm.
- Uwch arweinwyr wedi nodi bod ymarferwyr wedi addasu deunyddiau o ffynonellau allanol i sicrhau ei fod yn briodol yn ddatblygiadol.
- Eraill wedi mynegi'r angen am gymorth mwy canolog ar gyfer dylunio'r cwricwlwm ACRh a bod pryderon wedi'u mynegi ynghylch gallu ysgolion a lleoliadau i ddarparu'r agwedd hon ar y cwricwlwm heb wariant.
- Nifer o uwch arweinwyr wedi dweud eu bod wedi dyrannu cyfrifoldeb dros ACRh i aelod staff penodol, er enghraifft penodi Pennaeth Lles.
- Uwch arweinwyr wedi nodi bod arweinwyr ACRh yn cydweithio ag arweinwyr Maes eraill i ymgorffori testunau cysylltiedig ag ACRh ar draws y cwricwlwm.

*Barn uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd a oedd yn paratoi i weithredu'r cwricwlwm o fis Medi 2023*

8.13 Nid oedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd a oedd yn paratoi i weithredu'r cwricwlwm o fis Medi 2023 wedi rhoi gwybod am fynegi pryderon gan rieni ynghylch ACRh. Dywedodd uwch arweinwyr eu bod yn ymwybodol o rywfaint o sylw yn y cyfryngau i'r elfen hon yn y Cwricwlwm i Gymru, ac o'r posibilrwydd y byddai rhieni a gofalwyr yn codi cwestiynau am eu dull o weithredu. Fodd bynnag, roeddent yn teimlo'n hyderus yn eu gallu i egluro eu ffordd o ymdrin ag ACRh i rieni os codir cwestiynau.

> 'Mae yna densiwn oherwydd y sylw yn y cyfryngau a heriau cyfreithiol ond dydyn ni erioed wedi cael ein holi am ein deunydd o'r blaen ac mae'n cydweddu'n dda â'r cwricwlwm ACRh newydd. Felly dydyn ni ddim yn rhag-weld y bydd unrhyw gŵynion neu anawsterau o ran ein dull darparu.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

8.14 Roedd rhai ysgolion wedi penodi ymarferwyr arweiniol dynodedig ar ACRh ac wedi mapio eu darpariaeth bresennol ar draws pynciau a Meysydd. Roedd arweinwyr ACRh hefyd yn darparu cyngor a syniadau i arweinwyr Maes a phwnc ynghylch sut i ymgorffori cynnwys ACRh yn eu cwricwlwm. Dywedodd uwch arweinwyr fod cynnwys ACRh i'w gael mewn gwahanol bynciau a Meysydd, yn bennaf ym meysydd Iechyd a Lles, Gwyddoniaeth a'r Dyniaethau. Nododd uwch arweinwyr eu bod yn cymell timau'r holl Feysydd i gynnwys rhai elfennau o ACRh yn eu cwricwlwm ond nad oedd hyn yn cael ei orfodi er mwyn sicrhau y byddai'r cysylltiadau hyn yn fwy 'naturiol' (e.e. sylw i dlodi mislif mewn gwersi Gwyddoniaeth, y berthynas rhwng cymeriadau mewn gwersi Saesneg).

> 'Rydyn ni wedi cynnal archwiliad o beth rydyn ni'n ei ddarparu ar hyn o bryd – roedden ni wedi sylweddoli'n barod fod hyn yn drawsgwricwlaidd ac yn cydweddu â'r [ddarpariaeth] ACRh newydd. Mae'r ddarpariaeth sydd gennyn ni'n gynhwysfawr ac mae aelod staff newydd yn ymuno â ni a fydd yn gallu dod â phersbectif newydd. Mae lle i wella, mae angen edrych ymhellach ar yr ystodau oed a gweld a yw pethau'n ffitio i'r lle iawn.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

8.15 Teimlai rhai uwch arweinwyr y byddent yn hoffi cael canllawiau mwy penodol ar beth i'w addysgu i ddysgwyr ar wahanol bwyntiau ar eu taith cwricwlwm, ac ar briodoldeb testunau penodol yn ôl oed (e.e. heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, porn dial, tynnu lluniau i fyny sgertiau). Dywedodd nifer bach o uwch arweinwyr fod eu staff wedi cymryd rhan mewn sesiynau dysgu proffesiynol o ansawdd da drwy eu consortiwm rhanbarthol. Nododd eraill, er y byddent wedi hoffi cael rhagor o ganllawiau, eu bod yn teimlo'n hyderus yng ngallu eu staff i ddatblygu eu dull eu hunain o ymdrin ag ACRh.

### Ieithoedd rhyngwladol

8.16 Holwyd cyfweleion am y canlynol:

- sut mae addysgu ieithoedd rhyngwladol wedi'i weithredu mewn ysgolion

- y camau y mae ysgolion yn eu cymryd i integreiddio ieithoedd rhyngwladol fel rhan o’r cwricwlwm.

**Crynodeb o ganfyddiadau Cam 1 (Tachwedd 2022 – Ionawr 2023): ieithoedd rhyngwladol**

8.17 Yn yr adroddiad Cam 1, roedd y canfyddiadau yn dangos:

- Mewn ysgolion cynradd, fod uwch arweinwyr wedi dweud eu bod ar y camau cynnar wrth weithredu addysgu ieithoedd rhyngwladol yn eu hysgolion.
    - Nododd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd fod eu gwaith ar ddatblygu ieithoedd rhyngwladol yn eu cwricwlwm yn dibynnu ar gydweithio.
    - Roedd uwch arweinwyr mewn nifer o ysgolion cynradd, rhai cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, wedi cyfeirio at y pwysigrwydd o gydbwyso datblygiad sgiliau iaith Gymraeg a chyflwyno ieithoedd rhyngwladol.
    - Roedd nifer o ysgolion cynradd yn cyflwyno neu’n ystyried cyflwyno Iaith Arwyddion Prydain fel eu dewis iaith ryngwladol.
- Mewn ysgolion uwchradd, fod uwch arweinwyr yn parhau i ddatblygu eu darpariaeth ieithoedd rhyngwladol wrth ddarparu’r cwricwlwm.
    - Nododd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd eu bod yn cydweithio’n agos â’r ysgolion cynradd a oedd yn eu bwydo er mwyn datblygu darpariaeth ieithoedd rhyngwladol yn eu clwstwr.
    - Cyfeiriodd uwch arweinwyr at yr angen i gwrdd ag anghenion disgyblion mewn ysgolion lle mae nifer mawr o ddysgwyr yn siarad ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg.

*Barn uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd a oedd yn paratoi i weithredu’r cwricwlwm o fis Medi 2023*

8.18 Roedd uwch arweinwyr wedi nodi bod cynnydd yn y cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Rhai enghreifftiau o weithgareddau a grybwyllwyd gan uwch arweinwyr oedd:

- cydweithio ag ysgolion cynradd i greu continwwm cynnydd ar gyfer ieithoedd rhyngwladol ac i greu mwy o gydlyniant yn yr arlwy o fewn y clwstwr
- addysgu mewn sesiynau byr i gyflwyno ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion cynradd
- athrawon ysgol uwchradd yn helpu i hyfforddi neu greu adnoddau ieithoedd rhyngwladol ar gyfer staff ysgolion cynradd

8.19 Teimlai uwch arweinwyr fod y Cwricwlwm i Gymru wedi rhoi lle mwy amlwg i ieithoedd rhyngwladol, a hybu'r brwdfrydedd yn eu cylch a'u bod yn teimlo bod ymarferwyr yn croesawu'r hyblygrwydd i ganolbwyntio ar ddiwylliant yn ogystal ag addysgu ieithoedd. Teimlai nifer bach o uwch arweinwyr fod hyn yn galluogi eu staff ieithoedd rhyngwladol i addasu cynnwys i gyd-fynd â newyddion cyfoes (e.e. roedd un ysgol wedi datblygu prosiect ar sail eitem newyddion ynghylch diogelu statws y baguette gan UNESCO).

8.20 Teimlai rhai uwch arweinwyr y dylai'r canllawiau cenedlaethol ar ieithoedd rhyngwladol fod yn fwy pendant o ran sicrhau mai dim ond os gellid parhau â'r ddarpariaeth yn yr ysgol uwchradd y gellid cynnig ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion cynradd.[31] Roedd rhai wedi cwestiynu a oedd capasiti digonol i alluogi ysgolion i gynnig continwwm yn y ddarpariaeth o Iaith Arwyddion Prydain.

8.21 Dywedodd nifer bach o uwch arweinwyr nad oedd eu cwricwlwm ieithoedd rhyngwladol wedi datblygu cystal ag roeddent wedi gobeithio. Nododd yr uwch arweinwyr hyn fod eu hadrannau Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn ei chael yn anodd cydweithio'n effeithiol. Cyfeiriodd rhai uwch arweinwyr at ddiffyg capasiti a sgiliau yn yr ysgolion cynradd yn eu clwstwr a oedd yn cyfyngu ar faint y ddarpariaeth y gellid ei chynnig.

> 'Nid ni sy'n wynebu'r broblem fwyaf, ond yr ysgolion cynradd sydd heb y capasiti sydd ei angen i ddarparu ieithoedd rhyngwladol.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

[31] Yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, nodir 'Gall lleoliadau ac ysgolion ddymuno cydweithio ag eraill, er enghraifft er mwyn cynnig dilyniant yn yr iaith a gynigir o un cam cynnydd i'r nesaf neu fel bod gan ddysgwyr fwy o ddewis o ieithoedd rhyngwladol.'

# 9. Cynnydd

9.1 Yn yr adran hon, amlinellir canfyddiadau’r ymchwil mewn perthynas â **sut mae ysgolion a lleoliadau yn gweithio’n fewnol ac ar y cyd ag ysgolion a lleoliadau eraill i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd y dysgwr.** Holwyd cyfweleion am y canlynol:

- a oeddent wedi cydweithio ag ysgolion a lleoliadau o fewn eu clwstwr a’r tu allan iddo
- sut roedd eu hysgol neu leoliad yn rhannu gwybodaeth â rhieni am gynnydd dysgwyr, a pha ymateb a gafwyd gan rieni
- pa mor hwylus yw hi i ysgolion a lleoliadau adrodd i rieni bob tymor am gynnydd dysgwyr a faint yw’r baich y mae hyn yn ei greu
- sut mae ysgolion a lleoliadau yn sicrhau bod y cwricwlwm yn herio’r holl ddysgwyr yn briodol ac yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer cyrhaeddiad dysgwyr.

9.2 Yn yr adrannau sy’n dilyn, ceir crynodeb o’r sylwadau gan uwch arweinwyr am gynnydd fel rhan o’r trefniadau cwricwlwm newydd yn eu hysgol neu leoliad.

**Crynodeb o ganfyddiadau Cam 1 (Tachwedd 2022 – Ionawr 2023): cynnydd**

9.3 Roedd uwch arweinwyr a gyfwelwyd yn ystod Cam 1 yr ymchwil wedi dweud bod ysgolion a lleoliadau wedi datblygu cynlluniau cynnydd (a elwir yn aml yn ‘fapiau cynnydd’) ar draws Meysydd, gan wneud sylwadau a oedd yn dangos bod egwyddorion cynnydd yn cael eu hymgorffori yn nyluniad y cwricwlwm. Roedd yr uwch arweinwyr hyn yn gweithio’n fewnol ac mewn clystyrau i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd.

9.4 Dywedodd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd eu bod yn rhoi mwy o bwys ar ddeall cynnydd dysgwyr unigol wrth ddatblygu cynlluniau cynnydd ac wrth adrodd ar gynnydd. Roedd ysgolion wedi cyflwyno enghreifftiau o fodelau a dulliau cynnydd roeddent wedi’u datblygu ac yn eu treialu. Nododd uwch arweinwyr fod dulliau cynnydd newydd a fabwysiedir yn galw am newid yn ffordd o feddwl ymarferwyr, a’i bod yn debygol y bydd yn cymryd cryn amser i sicrhau hyn.

9.5 Roedd uwch arweinwyr wedi mynegi pryderon neu nodi heriau sy'n gysylltiedig â chynnydd, yn enwedig y canfyddiad o'r risg y bydd gwahaniaethau'n codi wrth i ysgolion, lleoliadau a chlystyrau fabwysiadu dulliau gwahanol o gofnodi ac adrodd ar gynnydd.

9.6 Roedd uwch arweinwyr wedi disgrifio newidiadau yn eu dulliau o adrodd i rieni a gofalwyr, yn cynnwys y fformat a ddefnyddiwyd yn ogystal â natur y wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys mewn adroddiadau cynnydd.

### Canfyddiadau Cam 2 (Mai-Gorffennaf 2023): Pwyntiau cyffredinol a godwyd gan uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau a weithredodd y Cwricwlwm i Gymru yn ystod 2022/23

*Y pwyntiau a godwyd amlaf gan uwch arweinwyr*

9.7 Dangosodd cyfweliadau ag uwch arweinwyr bod **rhai ohonynt yn parhau i ddatblygu eu dulliau o ymdrin â chynnydd, a bod nifer yn canolbwyntio i fwy o raddau ar yr agwedd hon ar gynllunio eu cwricwlwm yn ystod y flwyddyn academaidd.** Roedd y themâu a godwyd amlaf yn ystod y set ddiweddar o gyfweliadau yn adleisio nifer o'r sylwadau a wnaed yn ystod cam cyntaf yr ymchwil; cyfeiriodd uwch arweinwyr at y gwaith a gyflawnwyd gan glystyrau i ddatblygu dulliau ar y cyd o ymdrin â chynnydd; hefyd, eglurodd uwch arweinwyr fod cynnydd wedi'i ymgorffori fel rhan o'u proses o gynllunio'r cwricwlwm yn fwy cyffredinol, yn seiliedig ar egwyddorion cynnydd.

9.8 **Mae uwch arweinwyr yn parhau i weithio mewn clystyrau i ddatblygu a mireinio ymhellach eu dulliau o gefnogi cynnydd y dysgwr.** Roedd uwch arweinwyr wedi nodi nifer o wahanol ffyrdd o fynd ati i gydweithio ar gynnydd. Mae hyn yn cynnwys gweithgorau i'r clwstwr cyfan (yn cynnwys uwch arweinwyr a/neu grwpiau seiliedig ar Feysydd) sy'n cwrdd yn rheolaidd i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd a dyfeisio cynlluniau cynnydd. Cyflawnir y gweithgarwch hwn mewn gwahanol ffyrdd, yn cynnwys grwpiau o uwch arweinwyr, grwpiau seiliedig ar Feysydd a grwpiau blwyddyn.

> 'Mae grwpiau blwyddyn y clwstwr yn edrych ar gynnydd nawr – roedd y gwaith hwn wedi'i seilio ar y ddarpariaeth i raddau helaeth ar y dechrau a llawer o sylw'n cael ei roi i rannu gwybodaeth a dulliau o weithredu. Rydyn ni wedi bod yn

datblygu [cynnydd] drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf ac rydyn ni'n troi at y clwstwr i gael cymorth ar gymedroli.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

9.9 Nododd uwch arweinwyr fod gweithio mewn clystyrau mewn cysylltiad â'r cwricwlwm newydd wedi arwain at drafodaethau proffesiynol mwy ystyrlon ynghylch sut i ddangos tystiolaeth o gynnydd y dysgwyr a'i gefnogi.

'Rydyn ni'n dod i gyd-ddealltwriaeth o gynnydd yn y clwstwr. Roedd yr awdurdod lleol wedi ceisio cydgysylltu hyn ond roedden ni wedi camu o'r neilltu a gwneud ein gwaith ein hunain. Roedden ni wedi cytuno ar flaenoriaethau fel clwstwr ar gyfer pob Maes, gan ddisgrifio beth fyddai natur cynnydd. Rydyn ni'n bwriadu datblygu hyn o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r dull hwn yn well na beth oedd gennyn ni o'r blaen, sef dim ond cymedroli a phenderfynu lefelau.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

9.10 Dywedodd uwch arweinwyr fod athrawon (arweinwyr Maes mewn llawer achos) wedi mynychu cyfarfodydd clwstwr i gymryd rhan mewn sesiynau cymedroli ar y cyd er mwyn edrych ar enghreifftiau o waith a'u meincnodi neu drafod y cysylltiad rhwng eitem waith benodol a chamau cynnydd. Dywedwyd bod sesiynau o'r mathau hyn wedi bod yn fuddiol o ran hybu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd ar draws clystyrau.

9.11 Dywedwyd bod rhai clystyrau yn gweithredu fesul cam, gan ganolbwyntio ar Feysydd neu agweddau penodol ar y cwricwlwm er mwyn datblygu dull o weithredu a fydd yn gallu cyfrannu i ddull o weithredu y gall grwpiau eraill ei fabwysiadu. Roedd hyn yn cynnwys gweithio ar lefel y clwstwr rhwng ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo, gan ganolbwyntio weithiau ar destunau penodol.

'Mae'r gwaith ar gynnydd yn y clwstwr wedi mynd yn dda iawn. Mae llawer o staff o holl ysgolion y clwstwr wedi dod at ei gilydd. Roedden nhw a'r clwstwr wedi canolbwyntio ar gynnydd y dysgwr mewn ysgrifennu ym mis Medi – maen nhw wedi creu llwybr sy'n dangos beth yw cynnydd mewn ysgrifennu. Mae'r holl ysgolion wedi defnyddio hwn o'r dosbarth meithrin hyd 16 oed.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

9.12 Dywedodd uwch arweinwyr eraill eu bod yn gweithio fel ysgolion a lleoliadau unigol i ddatblygu eu dulliau 'pwrpasol' eu hunain, ond eu bod yn rhannu gwybodaeth am eu modelau ag eraill yn y clwstwr er mwyn 'dysgu ar y cyd', yn hytrach na datblygu dulliau unffurf o weithredu. Nododd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd eu bod wedi cael budd o glywed am ddulliau o adrodd ar gynnydd dysgwyr mewn ysgolion eraill.

9.13 Roedd uwch arweinwyr wedi disgrifio modelau cynnydd a oedd wedi'u trefnu ar sail agweddau allweddol o fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Roedd y camau cynnydd yn darparu fframwaith bras ar gyfer cynllunio cynnydd mewn nifer o ysgolion a lleoliadau, ac roedd modelau hefyd wedi'u seilio'n aml ar Ddatganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig, a'u cysylltu â disgrifiadau dysgu. Mewn llawer achos, roedd ysgolion a lleoliadau yn dehongli rhai agweddau yn eu ffordd eu hunain. Roedd nifer o ysgolion uwchradd wedi pwysleisio eu bod yn gwneud ymdrech ymwybodol, yn eu gwaith mewn clystyrau, i osgoi'r canfyddiad eu bod yn arwain y broses.

> 'Rydyn ni'n defnyddio fframwaith y camau cynnydd a'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - rydyn ni'n ailddiffinio'r [datganiadau o'r hyn sy'n bwysig] mewn ffyrdd sy'n fwy ystyrlon i'n hathrawon a dysgwyr. Mae'r cyd-ddealltwriaeth a'r gwaith hwn wedi bod yn llesol iawn. Yn y clwstwr, gellir cael ymdeimlad ei fod yn digwydd o'r brig i lawr, o'r ysgolion uwchradd i'r ysgolion cynradd. Ond rydyn ni wedi troi hyn ar ei ben – cawson ni gyfarfodydd cydweithredol rhwng athrawon Blynyddoedd 6 a 7, yn gweithio ar y cyd i ddyfeisio cynllun cynnydd, a'r ysgolion cynradd yn arwain.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

9.14 Nododd nifer o uwch arweinwyr eu bod wedi penderfynu, drwy eu gwaith clwstwr, y byddent yn defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd i lywio eu dull o ymdrin â chynnydd. Awgrymodd yr uwch arweinwyr hyn y byddai'n fuddiol cael fframweithiau tebyg ar draws Meysydd eraill.

> 'Mae'n llawer haws asesu cynnydd mewn Llythrennedd a Rhifedd, rydyn ni'n ei chael yn fwy anodd o lawer gwneud dim heblaw rhoi barn broffesiynol yr athro mewn Meysydd eraill. Gellir mesur a yw plentyn wedi gwneud cynnydd, ond mae mesur cyrhaeddiad yn fwy anodd am fod y camau cynnydd mor eang ac mae'n anodd dweud ble mae'r plentyn wedi cyrraedd o fewn cam cynnydd.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg

9.15 Nododd rhai uwch arweinwyr fod gwaith ar gynnydd ar lefel y clwstwr, yn ogystal â helpu i sicrhau bod ysgolion cynradd ac uwchradd yn ymwybodol o gynlluniau ei gilydd, wedi dangos bod agweddau ar ddiwygio'r cwricwlwm a oedd yn galw am ragor o waith. Nododd rhai ysgolion uwchradd fod ysgolion cynradd yn eu clwstwr wedi elwa o gael gwybodaeth arbenigol gan athrawon pwnc wrth lunio eu cynlluniau cynnydd. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, roedd ysgolion uwchradd wedi dweud nad oedd eu cynllunio hwythau ar gyfer y cwricwlwm yn cynnwys y 'cydlyniant llorweddol…roedd ysgolion cynradd yn gyfarwydd ag ef' (Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg). Roedd uwch arweinwyr yn teimlo'n galonogol o fod â'r

gallu i dynnu ar gryfderau ysgolion a lleoliadau ar draws eu clystyrau yn eu ffyrdd o ymdrin â chynnydd a diwygio'r cwricwlwm yn fwy cyffredinol.

9.16 **Gan adleisio sylwadau a wnaed yn ystod Cam 1 yr ymchwil, nododd uwch arweinwyr fod cynnydd mewn dysgu wedi'i ymgorffori fel rhan o ddyluniad y cwricwlwm.** Roedd y syniad bod cynnydd mewn dysgu yn elfen ganolog wrth gynllunio cwricwlwm yn un a fynegwyd yn amlach gan uwch arweinwyr yn ystod ail gam yr ymchwil, a hynny o bosibl yn adlewyrchu'r ffaith bod cynlluniau cwricwlwm a meddwl am gynnydd wedi datblygu yn ystod y flwyddyn academaidd. Nododd nifer o uwch arweinwyr fod cynnydd 'yn cael ei gynnwys yn y cam dylunio', a'i fod wedi'i seilio ar egwyddorion cynnydd. Nododd uwch arweinwyr fod cynnwys y cwricwlwm wedi dod yn fwy cyfyng mewn rhai Meysydd, gyda phwyslais ar ddatblygu gwybodaeth ddyfnach (a chofio gwybodaeth) ac ar gymhwyso dysgu a sgiliau dros amser ac mewn gwahanol gyd-destunau.

9.17 Roedd nifer o uwch arweinwyr wedi cyfeirio at y cysylltiad rhwng addysgeg a chynnydd. Un enghraifft o hyn oedd bod uwch arweinydd mewn ysgol uwchradd wedi nodi eu bod yn canolbwyntio wrth ddarparu'r cwricwlwm ar 'ddysgu, cofio, cymhwyso'. Ym mhob gwers (yn yr holl bynciau) gofynnir i athrawon gynnwys amser i weld faint y mae dysgwyr wedi'i gofio – neu'n gallu ei adalw – o'r wers cynt neu ddosbarth cynharach.

> 'Os yw dysgwyr yn gallu cofio beth maen nhw wedi'i ddysgu, ac yn gallu gweld ei berthnasedd a rhoi'r wybodaeth neu'r sgìl hwnnw ar waith mewn gwers arall, yna gallwn ni fod yn hyderus eu bod yn gwneud cynnydd. Dydyn ni ddim yn gwybod eto beth yw effaith y dull hwn, ond mae gennyn ni weledigaeth a chynllun ac rydyn ni'n bwrw ymlaen â hyn.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

9.18 Yn ogystal nodi bod cynnydd yn rhan annatod o ddyluniad y cwricwlwm, dywedodd uwch arweinwyr fod cynnydd y dysgwr yn dylanwadu hefyd ar y dull o ddarparu'r cwricwlwm ac ar y ffordd y mae athrawon yn cefnogi dysgu yn barhaus. Nododd uwch arweinwyr fod arsylwadau athrawon ar y cynnydd a wnaed gan ddysgwyr yn cael eu hystyried wrth gynllunio'r camau nesaf. Roedd yr uwch arweinwyr hyn wedi tanlinellu pwysigrwydd barn broffesiynol yr athrawon o ran deall y cynnydd a wnaed gan ddysgwyr ac addasu neu wahaniaethu eu haddysgu er mwyn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd priodol.

9.19 **Darparwyd enghreifftiau gan uwch arweinwyr o'r ffordd y mae dulliau o adrodd ar gynnydd i rieni a gofalwyr wedi newid i adlewyrchu'r trefniadau cwricwlwm newydd.** Rhai enghreifftiau oedd:

- 'Nawr mae'r dull yn fwy cyfannol, wedi'i seilio ar naratif ac yn canolbwyntio ar dystiolaeth o sgiliau'r dysgwr unigol.' Uwch arweinydd, ysgol 3-16
- 'Mae adroddiadau'n darparu asesiad ansoddol, wedi'i lunio ar sail disgrifiadau dysgu. Drwy droi oddi wrth lefelau, gellir ffurfio barn fwy cytbwys am y dysgwr.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd
- 'Rydyn ni'n trefnu dau gyfarfod i rieni yn ystod y flwyddyn – cyfarfodydd byr yw'r rhain ac maen nhw'n ymwneud yn bennaf â lles yn ogystal â llythrennedd a rhifedd. Mae'r adroddiadau ysgrifenedig ar ddiwedd blwyddyn yn canolbwyntio ar gynnydd ar draws pob un o'r Meysydd gyda thargedau ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Mae'r sylw i les yn dal yn hollbwysig. Mae'r adroddiadau'n fwy ansoddol o lawer – rydyn ni'n disgrifio profiadau'r disgybl, sut mae wedi ymdopi, lefel y gwaith y mae'n ei gynhyrchu.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd

9.20 Roedd yn ymddangos bod y newid i ddull mwy personol ac ansoddol o adrodd ar gynnydd yn mynd law yn llaw â'r ffaith bod nifer o uwch arweinwyr wedi nodi eu bod yn rhoi'r gorau i ddefnyddio rhaglenni meddalwedd (e.e. Taith 360) roeddent wedi'u defnyddio o'r blaen i'w helpu i dracio cynnydd dysgwyr. Yn yr un modd â'r hyn a welwyd yn ystod Cam 1 yr ymchwil, nododd nifer o uwch arweinwyr fod eu hadroddiadau cynnydd yn cynnwys sylwadau am agwedd dysgwyr at ddysgu, ochr yn ochr â chynnydd o ran gwybodaeth a sgiliau.

9.21 Mewn nifer bach o achosion, nododd uwch arweinwyr eu bod wedi dechrau cynnwys sylwadau mewn adroddiadau ynghyd ag awgrymiadau am y ffordd y gallai rhieni gyfrannu at gynnydd y dysgwr, neu ei les yn gyffredinol. Un dull arloesol o adrodd ar gynnydd a fabwysiadwyd gan un ysgol gynradd oedd cynnwys ymrwymiadau gan y dysgwr, yr ysgol a'r rhiant/gofalwr.

> 'Caiff y dysgwr ei annog i ddod i'r cyfarfod cyntaf i rieni, lle mae cynnydd a lles y dysgwr hwnnw'n cael eu trafod. Yn y cyfarfod bydd pob un o'r tri pharti yn gwneud ymrwymiad, e.e. 'Byddaf i [y dysgwr] yn parhau i ddatblygu fy annibyniaeth fel dysgwr ac yn canolbwyntio'n llwyr ar dasgau'; 'Byddwn ni fel

ysgol yn canolbwyntio ar lythrennedd [y dysgwr], gan sicrhau ei fod yn cael cyfleoedd i drafod ei ddiddordebau a'i bryderon. Byddwn yn sicrhau ei fod yn cael her briodol'; 'Byddaf i fel rhiant yn sicrhau bod [y dysgwr] yn cael deiet cytbwys, a byddaf yn hyrwyddo ei ffitrwydd cyffredinol.' Mae hyn yn ffordd i gyfleu'r neges bod rhan gan bawb i'w chwarae mewn cefnogi cynnydd y dysgwr hwnnw yn yr ysgol. Mae'r ymrwymiadau wedi'u teilwra yn ôl anghenion yr unigolyn. Maen nhw hefyd yn rhai tymor hwy ac yn gymwys dros gyfnod hirach, yn hytrach na'u bod yn ymwneud â thasg neu sgìl penodol.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg

9.22 **Mewn nifer bach o achosion, roedd uwch arweinwyr wedi disgrifio enghreifftiau o fodelau a disgrifyddion roeddent wedi'u datblygu i'w helpu i ddeall cynnydd dysgwyr mewn meysydd neu sgiliau penodol.** Roedd y rhain yn debyg i enghreifftiau eraill a ddarparwyd yn ystod cam cyntaf yr ymchwil, e.e.,

- mae dysgwr yn 'ddiogel', yn 'datblygu' neu'n 'ddatblygol/angen cymorth ychwanegol' mewn perthynas â maes gwaith neu sgìl penodol (defnyddir enghreifftiau cyfatebol neu gymaradwy mewn ysgolion cynradd ac uwchradd)
- mae dysgwr yn 'uwch na'r disgwyl', 'yn unol â'r disgwyl', yn 'is na'r disgwyl'.

9.23 Nododd uwch arweinwyr fod y matricsau neu fframweithiau hyn yn cael eu defnyddio ochr yn ochr â dulliau mwy ansoddol i adrodd ar gynnydd. Mynegodd rhai uwch arweinwyr amheuaeth ynghylch a ddylid defnyddio dull o'r math hwn:

'Dydyn ni ddim yn sicr a yw hyn yn dal i fod yn rhy debyg i'r hen system, a ddylen ni gael gwared â phob syniad o 'lefelau'.' – Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

9.24 **Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi nodi bod dulliau o ymdrin â chynnydd yn canolbwyntio'n fwy ar y dysgwr ac yn galw am annog dysgwyr i fyfyrio ar eu cynnydd mewn ffyrdd newydd.** Gan adleisio sylwadau mewn cyfweliadau yn y cam cyntaf, nododd uwch arweinwyr fod ysgolion yn rhoi sylw i'r cynnydd gan bob dysgwr unigol:

- Mae dysgwyr yn dod i gyfarfodydd cynnydd / cyfarfodydd rhieni gydag athrawon ac yn cael eu hannog i siarad am eu dysgu a'u cynnydd.
- Trafodaethau mwy rheolaidd â dysgwyr am eu cynnydd, yn cynnwys cynnydd mewn perthynas ag amcanion dysgu unigol a osodwyd ar ddechrau tymor neu flwyddyn ysgol.

‘Mae ‘Pit-stops for Progress’ wedi’i ysbrydoli gan ddull o weithredu yn yr ysgol uwchradd. Bydd plant yn cwrdd â’u hathro dosbarth yn rheolaidd i siarad am gynnydd. Rydyn ni am wneud mwy o’r hapwiriadau hyn.’ Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

- Mae dysgwyr yn cael eu hannog i feddwl am y cynnydd y maent yn ei wneud ac ‘i’w fynegi’. Nododd uwch arweinwyr fod athrawon yn gofyn i’w dysgwyr: ‘Sut rydych chi’n gwybod eich bod chi wedi gwneud cynnydd? Allwch chi gyfeirio at enghreifftiau o’ch gwaith sy’n dangos eich bod chi wedi gwneud cynnydd?’ Y bwriad wrth ofyn cwestiynau fel y rhain yw annog myfyrwyr i feddwl yn gadarnhaol am y sgiliau a’r wybodaeth y maent yn eu datblygu.
- Mae ysgolion a lleoliadau (a chlystyrau mewn rhai achosion) yn datblygu portffolios neu e-bortffolios dysgwr. Mae’r rhain ar gam cynnar yn eu datblygiad a byddant yn darparu enghreifftiau o waith y dysgwr unigol dros amser. Bydd dysgwyr yn gallu ychwanegu gwaith i rai mathau o e-bortffolio mewn nifer o fformatiau gwahanol (ysgrifenedig, sain, fideo, ffotograffau). Nododd uwch arweinwyr y bydd portffolios yn cynnwys myfyrdodau’r dysgwr ar gynnydd mewn perthynas â’r pedwar diben, ei nodau ac amcanion personol ar gyfer y dyfodol (neu ar gyfer yr ysgol uwchradd). Mae rhai ysgolion yn bwriadu rhannu portffolios Blwyddyn 6 ag athrawon Blwyddyn 7 fel y bydd ysgolion uwchradd yn gallu gweld ble mae dysgwyr wedi cyrraedd a deall persbectif, diddordebau a nodau’r dysgwr cyn y pontio.

9.25 **Nododd un ysgol gynradd fel y gofynnwyd i athrawon feddwl mewn ffordd wahanol am gynllunio eu gwersi a rhaglenni gwaith, gan roi pwyslais ar sicrhau bod dysgwyr yn deall y dasg, a’r rheswm dros gyflawni tasg benodol.** Dywedwyd mai’r nod yw helpu dysgwyr i fod yn fwy annibynnol.

‘Rydyn ni’n gwahaniaethu rhwng y tasgau a gaiff eu gosod, ac mae tair haen o feini prawf gwaith neu gyflawniad: 1) posibl, 2) tebygol, 3) dichonol. Gall pawb wneud y cyntaf; dylai’r rhan fwyaf allu gwneud yr ail; byddai rhai yn gallu gwneud y trydydd. Mae hyn wedi helpu i feithrin cymhelliant a brwdfrydedd ymysg dysgwyr – mae rhai wedi ein synnu o ran eu gallu a beth allan nhw ymdopi ag ef.’ Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

9.26 Dywedodd uwch arweinwyr fod y dulliau newydd – gan gynnwys dysgu ac addysgu gwahaniaethol – wedi gwella dealltwriaeth athrawon o’r ffordd y mae dysgwyr unigol

yn gwneud cynnydd. Nodwyd bod y dulliau hyn yn helpu i adnabod sgiliau neu agweddau dysgu penodol lle mae angen cefnogaeth bellach ar ddysgwyr. Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd wedi nodi bod eu gwaith ar gynnydd yn arwain at broses fwy bwriadus o gynllunio dysgu ac addysgu.

9.27 **Dywedodd uwch arweinwyr eu bod wedi gwerthfawrogi'r cymorth allanol a ddarparwyd i'w helpu i siapio eu dulliau o ymdrin â chynnydd.** Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn prosiectau cenedlaethol (e.e. prosiect Camau Llywodraeth Cymru), cymorth gan arbenigwyr ac ymgynghorwyr (e.e. hyfforddiant Understanding by Design), a chymorth hefyd gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Roedd nifer o uwch arweinwyr a fu'n bryderus ynghylch eu dull o adrodd ar gynnydd (troi oddi wrth ddulliau sy'n canolbwyntio ar ddata at ddefnyddio dulliau seiliedig ar naratif sy'n fwy teilwredig) wedi cael sicrwydd gan swyddogion awdurdodau lleol a oedd wedi cymeradwyo a chefnogi eu gwaith.

9.28 Roedd uwch arweinwyr wedi nodi rhai pryderon neu heriau wrth iddynt barhau i ddatblygu eu dulliau o ymdrin â chynnydd. Codwyd nifer o faterion gan uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd, yn cynnwys:

- y byddai **deongliadau gwahanol o gamau cynnydd**, rhwng ysgolion a hefyd ledled Cymru, yn gallu arwain at ddiffyg cydlyniant ar draws y system ehangach
- bod **diffyg data meintiol yn ei gwneud yn anodd deall cynnydd**, yn enwedig lle mae athrawon yn teimlo'n ansicr neu'n ddihyder
- **bod ysgolion wedi neidio i'r cam gweithredu mewn perthynas â chynnydd heb fynd ati'n drwyadl i ymdrin â chynllunio ac ystyriaethau strategol ar lefel yr ysgol gyfan**. Roedd hyn yn arbennig o wir am ysgolion cynradd a ddywedodd nad oeddent wedi cydweithio'n agos â'r ysgol uwchradd yn eu clwstwr

'Rydyn ni mewn clwstwr bach ac roedd yr ysgol uwchradd yn arwain ar rai pethau. Rydyn ni wedi'i chael yn anodd cael amser ac arian i gwrdd eto. Dydyn ni ddim yn gwybod eto beth mae'r ysgol uwchradd yn ei ddisgwyl gan ddisgyblion Blwyddyn 6 sy'n dod i Flwyddyn 7. Fel ysgol, rydyn ni wedi cael ein mapiau cynnydd yn barod ond y teimlad yw bod hyn yn rhy hwyr.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

- bod yr amser sydd ei angen i ddatblygu ac adolygu dulliau o ymdrin â chynnydd wedi rhoi staff o dan fwy o bwysau.

9.29 Nododd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd fod graddau'r cymorth sydd ar gael gan gonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn amrywio. Eglurodd uwch arweinwyr eu bod wedi cael cymorth a chanllawiau da gan y rhanbarth mewn perthynas â rhai Meysydd (e.e. Mathemateg), ond mai ychydig o gymorth a gynigiwyd i ymdrin â chynnydd ym meysydd eraill y cwricwlwm.

**Amrywiadau mewn barn yn ôl math a chyfrwng iaith yr ysgol neu leoliad**

9.30 **Nododd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd fod pryder ymysg athrawon (a rhai rhieni) ynghylch troi oddi wrth adrodd ar lefelau at ddull adrodd nad yw'n rhoi arwydd clir o gyrhaeddiad, neu o safon gwaith y dysgwyr, mewn perthynas, er enghraifft, â graddau disgwyliedig ar lefel TGAU.** Nododd uwch arweinwyr fod rhieni a gofalwyr yn gefnogol at ei gilydd i'r dull mwy cyfannol ac ansoddol o adrodd ar gynnydd ond bod yr adborth gan rieni yn aml yn cynnwys nhw'n holi os oedd eu plentyn 'ar y trywydd iawn'.

> 'Gwnaethon ni rannu adroddiadau Blwyddyn 7 newydd mewn fforwm i rieni yn ddiweddar a chael ymateb cadarnhaol ar y cyfan ond roedd rhai [rhieni] am weld lefelau a doedden nhw ddim yn gallu eu deall heb lefelau. Mae pryder y bydd rhai rhieni, wrth i ni adrodd mewn ffordd fwy ansoddol a chanolbwyntio ar agweddau at ddysgu ym Mlynyddoedd 7-9, yn cael braw wrth weld Gradd E wrth enw eu plentyn ym Mlynyddoedd 10 ac 11 – gallai hyn achosi problemau os na cheir trafodaethau gofalus â rhieni.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

9.31 Roedd un uwch arweinydd wedi crynhoi barn nifer o gyfweleion mewn ysgolion uwchradd, gan danlinellu'r angen i ystyried gwahanol ddulliau o adrodd wrth i ddysgwyr nesáu at sefyll arholiadau TGAU.

> 'Y peth sy'n peri i mi deimlo'n anghysurus yw gwybod y bydd y plant hyn yn gorfod sefyll arholiadau TGAU ryw dro. O gwmpas Blwyddyn 9, mae'n debyg y byddwn ni'n gorfod rhoi gwerth/gradd/lefel a nodi a yw'n briodol iddyn nhw ddilyn cyrsiau TGAU penodol. Beth rydw i wedi'i ddweud wrth rieni sy'n poeni am beidio â gweld gradd ym Mlynyddoedd 7 ac 8 yw 'os ydych chi am wybod ble mae'ch plentyn wedi cyrraedd, agorwch ei lyfr, darllenwch ei adroddiad a dewch i siarad â'i athro' ond wrth iddyn nhw nesáu at Flwyddyn 9 byddan nhw am wybod beth mae hyn yn ei olygu ar lefel TGAU. Roeddwn i wedi gobeithio y byddai Llywodraeth Cymru wedi rhoi rhyw gyfarwyddyd ynghylch beth i'w wneud ym

> Mlwyddyn 9 yn ystod y flwyddyn nesaf [o ran adrodd]. Rydyn ni'n ddigon hapus i fod heb raddau a thargedau ym Mlynyddoedd 7 ac 8 ond dydyn ni ddim yn sicr am Flwyddyn 9. Fy nheimlad i yw y dylid rhoi data mwy meintiol ym Mlwyddyn 9.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

9.32 Mewn ymateb i hyn, mae rhai ysgolion uwchradd yn bwriadu cynnwys 'taith ragamcanol' neu 'drywydd' mewn adroddiadau. Gobaith uwch arweinwyr yw y bydd hyn yn helpu rhieni i ddeall cynnydd eu plentyn ac y bydd o gymorth i reoli disgwyliadau.

> 'Mae'r rhain yn bethau newydd ond maen nhw'n disgrifio'n fras y trywydd arferol ar gyfer plentyn sy'n gwneud cynnydd fel eich plentyn chi nawr. [Er enghraifft] bydd disgybl sy'n gwneud cynnydd fel eich plentyn chi yn debygol o gael A*, neu C, neu F neu beth bynnag arall ar lefel TGAU.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

9.33 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol na'r rheini mewn ysgolion cyfrwng Saesneg o ddweud:

- bod heriau yn codi wrth ddatblygu ac addasu i fodelau cynnydd newydd, yn enwedig o ran cael dealltwriaeth o gyrhaeddiad y dysgwr heblaw mewn llythrennedd a rhifedd
- bod pryderon ynghylch sicrhau cysondeb rhwng dulliau ar draws gwahanol glystyrau, ar draws awdurdodau lleol ac ar lefel genedlaethol.

### Barn uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023

9.34 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 wedi dweud:

- eu bod yn cydweithio'n agos ag ysgolion cynradd i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd ym mhob Maes

> 'Rydyn ni'n mynd ati mewn ffordd gydgysylltiedig a phendant iawn i edrych ar y continwwm ar gyfer plant 3-16 oed yr holl ffordd drwodd. O'r blaen, bydden ni'n dechrau o'r dechrau â'n dysgwyr ym Mlwyddyn 7; nawr rydyn ni'n ystyried ble maen nhw wedi cyrraedd yn barod ac yn ei wneud yn llwybr di-dor. Mae'r cwricwlwm wedi dod â'r clwstwr at ei gilydd yn lle gweithio ar wahân fel yr oedd i raddau helaeth o'r blaen. Gobeithio y bydd hyn yn gynaliadwy a bellach rydyn ni wedi sefydlu deialog yn hytrach na'r ddwy fonolog a oedd gennyn ni o'r blaen.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

- eu bod wedi gweithredu fesul cam, gan ganolbwyntio ar Feysydd neu Gamau Cynnydd penodol ar y dechrau ac wedyn adolygu eu dull o weithredu a symud ymlaen at y rhai nesaf
    - Teimlai rhai fod datblygu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd mewn llythrennedd a rhifedd yn fwy syml am fod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn darparu mwy o gyfarwyddyd, a bod cynnydd yn fater mwy goddrychol mewn Meysydd eraill
- bod newid wedi digwydd wrth droi oddi wrth ddulliau adrodd meintiol ar gynnydd y dysgwr at ddulliau mwy ansoddol, er enghraifft drwy beidio â chynnwys lefelau mewn adroddiadau blynyddol
- nad oeddent eto wedi cyrraedd man lle'r oeddent yn cael adborth gan rieni ar eu dulliau o adrodd ar gynnydd y dysgwr.

'Rydyn ni wedi creu continwwm cynnydd ar sail y Disgrifiadau Dysgu ac wedi dadansoddi'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig er mwyn nodi a chrynhoi'r prif syniadau a chysyniadau. Rydyn ni wedi defnyddio'r rhain ochr yn ochr â'r disgrifyddion dysgu i fapio sut mae dysgwyr yn gallu camu ymlaen o Gam Cynnydd 3 i Gam Cynnydd 4. Dydyn ni ddim yn edrych ar y rhain fel blychau ticio ac maen nhw'n cael eu datblygu dros amser drwy wahanol fathau o brofiadau a dysgu.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

9.35 Dywedodd uwch arweinwyr mewn nifer bach o ysgolion eu bod ar gam cynnar o hyd wrth gynllunio eu dull o ymdrin â chynnydd a'u bod yn ansicr o'u dull o weithredu. Dywedodd yr ysgolion hyn eu bod yn canolbwyntio ar ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd ar gyfer dysgwyr sy'n pontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 cyn ystyried grwpiau oedran eraill.

9.36 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 wedi disgrifio'r gweithgareddau roeddent yn eu cyflawni i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd ar draws eu clwstwr. Roedd y rhain yn cynnwys:

- craffu ar lyfrau ar y cyd, sesiynau cymedroli ar y cyd ac arsylwi ar wersi rhwng athrawon cynradd ac uwchradd

'Rydyn ni wedi cydweithio â'r ysgolion cynradd [yn y clwstwr], gan arsylwi ar wersi mewn ysgolion cynradd ac fel arall. Ym Mlynyddoedd 6 a 7 y digwyddodd

hyn yn bennaf, a chafwyd rhywfaint o waith ar Flwyddyn 5 ac ar bontio. Roedden ni wedi gosod tasgau iddyn nhw [dysgwyr ysgolion cynradd] ac roedden ni wedi cael y rhain yn ôl i'w marcio. Mae hyn yn ein helpu i gael gwell syniad o safonau yn yr ysgol gynradd.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

- creu e-bortffolios lle gall dysgwyr ac athrawon lanlwytho enghreifftiau o waith i ddangos beth maent yn ei ystyried yn gynnydd da mewn gwahanol Feysydd a hefyd yn y sgiliau cyfannol
    - roedd y rhain yn cael eu defnyddio gyda dysgwyr sy'n pontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7, ond roedd uwch arweinwyr yn bwriadu cyflwyno'r rhain ar gyfer grwpiau blwyddyn eraill hefyd
- gwefan ar gyfer athrawon ar draws y clwstwr sy'n cynnwys enghreifftiau o waith sydd wedi'i gymedroli ar y cyd ym mhob cam cynnydd.

9.37 Materion eraill a grybwyllwyd gan uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 oedd:

- eu bod yn ystyried sut i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng adrodd ar gynnydd a chynnwys rhyw ffordd i ddangos cyrhaeddiad i rieni
    - roedd rhai uwch arweinwyr yn bryderus ynghylch sicrhau y bydd disgwyliadau rhesymol gan rieni o ran cyrhaeddiad tebygol eu plentyn yn y dyfodol

'Dwi'n poeni byddant yn adrodd i rieni eu bod wedi gwneud cynnydd disgwyliedig, ac ar drac i gyrraedd eu potensial ond wedyn yn cael D neu E TGAU a wedyn yn cwestiynu pam nad oeddent yn gwybod hynny yn gynharach. Mae risg o godi disgwyliadau rhai rhieni os nad yn glir ar eu gradd disgwyliedig.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg

'Mae'r adborth gan ein harweinwyr cwricwlwm yn dangos eu bod wedi'i chael yn anodd troi oddi wrth lefelau. Ar y dechrau, roedden ni'n annog athrawon i weithio o Flwyddyn 7 a pheidio â chyfeirio o gwbl at TGAU neu lefelau, ond roedd hyn yn anodd i nifer ohonyn nhw. Felly nawr rydyn ni wedi ceisio dweud beth mae cynnydd [datblygol, yn datblygu, yn meistroli] yn ei olygu o ran y 'trywydd' at radd ar lefel TGAU. Mae hyn yn mynd â ni ychydig oddi wrth ein bwriad gwreiddiol o droi oddi wrth lefelau yn gyfan gwbl. Ond mae'n rhoi rhywbeth i athrawon y gallan nhw ei ddeall a gallan nhw weithio'n ôl o Flwyddyn 11. Mae'r newid yn y ffordd o feddwl wedi bod yn anodd i nifer o athrawon.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

- eu bod yn teimlo bod y canllawiau a'r dysgu proffesiynol mewn perthynas â chynnydd wedi bod yn rhy gyffredinol
- bod rhai ysgolion yn wynebu her wrth geisio datblygu dull cyson o weithredu ar draws y clwstwr
    - roedd hyn wedi'i nodi'n benodol mewn rhai ardaloedd gwledig, yn enwedig lle'r oedd ysgolion yn cydweithio â nifer mawr o ysgolion cynradd, a lle'r oedd nifer o ysgolion cynradd yn bwydo nifer o ysgolion uwchradd mewn mwy nag un awdurdod lleol.

## 10. Asesu

10.1 Yn yr adran hon, amlinellir canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â'r ffordd y mae ysgolion a lleoliadau yn gweithio'n fewnol ac ar y cyd ag eraill i ddylunio dulliau asesu o dan y trefniadau cwricwlwm newydd. Gofynnwyd i gyfweleion:

- pa newidiadau a gafwyd o ran eu dull o asesu
- a oedd y trefniadau'n gweithio'n effeithiol/yn ôl y disgwyl hyd yn hyn
- a oeddent wedi wynebu unrhyw heriau
- a oedd arnynt angen unrhyw gymorth ychwanegol penodol mewn perthynas â'r agwedd hon ar y cwricwlwm (e.e. dysgu proffesiynol, canllawiau, adnoddau neu gymorth i wella arweinyddiaeth neu ymarfer proffesiynol).

10.2 Yn yr adrannau sy'n dilyn, ceir crynodeb o sylwadau gan uwch arweinwyr am drefniadau asesu yn eu hysgol neu leoliad.

**Crynodeb o ganfyddiadau Cam 1 (Tachwedd 2022 – Ionawr 2023): asesu**

10.3 Roedd uwch arweinwyr a gyfwelwyd yn ystod Cam 1 wedi dweud eu bod yn gwneud cynnydd ar ddatblygu dulliau asesu newydd, a'u bod yn canolbwyntio'n fwy ar asesu ffurfiannol o ddydd i ddydd. Dywedodd uwch arweinwyr eu bod yn defnyddio asesu ffurfiannol ar gyfer cynllunio a phennu dulliau addysgu gwahaniaethol sy'n ymateb i anghenion dysgwyr penodol. Roedd uwch arweinwyr wedi gwneud sylwadau am y newid yn y ffordd o feddwl ac ymagwedd sydd ei angen i wireddu'r uchelgais am ddull newydd o asesu.

10.4 Dywedodd nifer o uwch arweinwyr fod gostyngiad cyffredinol ym maint yr asesu ffurfiol yn ystod y flwyddyn ysgol. Er hynny, roeddent yn parhau i ddefnyddio'r asesiadau personol cenedlaethol gorfodol i fesur cynnydd dysgwyr mewn darllen a rhifedd.

10.5 Yng ngolwg nifer o uwch arweinwyr, mae cwestiynau pwysig sydd heb eu hateb eto mewn perthynas ag asesu: maent yn dweud nad oes ganddynt ddealltwriaeth clir a'u bod yn bryderus ynghylch y data asesu y bydd gofyn iddynt eu darparu o dan drefniadau atebolrwydd. Mewn nifer o achosion, mae uwch arweinwyr yn parhau i

ddefnyddio offer asesu allanol ochr yn ochr â’r dulliau asesu newydd sy’n cael eu datblygu.

### Canfyddiadau Cam 2 (Mai-Gorffennaf 2023): Pwyntiau cyffredinol a godwyd gan uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau sy’n gweithredu’r Cwricwlwm i Gymru yn ystod 2022/23

*Y pwyntiau a godwyd amlaf gan uwch arweinwyr mewn perthynas ag asesu*

10.6 **Dywedodd uwch arweinwyr eu bod yn parhau i wneud cynnydd ar ddatblygu eu dulliau asesu a’u bod yn canolbwyntio’n fwy ar asesu ffurfiannol**. Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd wedi nodi bod asesu yn digwydd yn barhaus drwy aseiniadau a gwaith cwrs. Roeddent hefyd wedi dweud bod athrawon yn cymryd rhan mewn mwy o drafodaethau proffesiynol (fel timau Maes neu mewn grwpiau eraill) ynghylch beth mae’r deilliannau o asesiadau ffurfiannol yn ei ddangos iddynt am y cynnydd a wneir gan ddysgwyr. Dywedodd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd fod maint yr asesu ffurfiol drwy brofion neu arholiadau ‘wedi lleihau’ o ganlyniad i hyn neu ei fod yn ‘cael ei gadw i’r lleiaf posibl’ o gymharu â threfniadau blaenorol.

10.7 Dywedodd uwch arweinwyr eu bod yn meddwl am asesu mewn ffyrdd newydd a bod hyn yn rhan o’r broses o gynllunio unedau gwaith a thasgau unigol.

> ‘Rydyn ni’n neilltuo llawer o amser i feddwl am ffurf y tasgau a hefyd am y math o asesu ar eu cyfer a fydd yn fwyaf priodol i gefnogi’r dysgu gan y disgybl. Byddwn ni’n meddwl am y math o adborth a fydd yn gallu cefnogi ei ddysgu a sut mae hunanasesu ac asesu gan gyfoedion hefyd yn gallu bod yn rhan o hyn.’ Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

10.8 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd wedi darparu enghreifftiau o dempledi cynllunio ac asesu ar gyfer unedau gwaith unigol a oedd yn ymgorffori elfennau o fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ac yn ymgorffori strategaethau asesu. Gan amlaf, roedd unedau gwaith mewn ysgolion cynradd wedi’u trefnu ar sail Datganiadau o’r Hyn sy’n Bwysig ac yn nodi’r disgrifyddion dysgu a oedd yn berthnasol i ddatganiadau penodol o’r Hyn sy’n Bwysig. Roedd un ysgol wedi dyfeisio templed cynllunio a oedd yn cynnwys ‘camau at gynnydd’ neu ‘amcanion dysgu’ i helpu i ddeall cynnydd. Dyfeisiwyd gweithgareddau penodol i alluogi dysgwyr i ddatblygu a dangos eu sgiliau a’u gwybodaeth. Yn yr enghraifft hon,

roedd templed asesu dosbarth cyfan wedi'i gwblhau ar gyfer pob gweithgaredd, a oedd yn nodi:

- A oedd pob dysgwr 'yn ddiogel', 'yn datblygu' neu 'yn ddatblygol/angen cymorth ychwanegol' mewn gweithgaredd penodol neu o ran sgiliau
- Y camau nesaf i'r dysgwyr ym mhob un o'r categorïau uchod
- Gwallau cyffredin mewn sgiliau sylfaenol sydd i gael sylw yn y dosbarth cyfan
- Sylwadau am waith o ansawdd da i'w rhannu â'r dosbarth cyfan
- Arfarniad gan yr athro ynghylch a oedd y dosbarth yn barod i gamu ymlaen neu a oedd angen rhagor o waith i wella neu ddyfnhau'r dysgu.

10.9 Nododd uwch arweinwyr fod cydnabyddiaeth 'nad yw profion yn dangos popeth sydd angen ei wybod' a bod newid yn digwydd i asesu a fydd yn rhoi gwybod i athrawon am y cynnydd sy'n cael ei wneud, er mwyn deall pa gymorth ychwanegol sydd ei angen a hefyd er mwyn dathlu cynnydd parhaus y dysgwyr. Mae'r dulliau sy'n cael eu mabwysiadu – yn enwedig mewn ysgolion cynradd – yn canolbwyntio ar 'farcio byw' er mwyn cael gwybodaeth am sgiliau sy'n datblygu (neu'n llithro) i'w hystyried yng nghyd-destun addysgeg a chymorth.

10.10 Fel a nodwyd yn ystod Cam 1, **cafwyd sylwadau gan uwch arweinwyr am y newid yn y ffordd o feddwl ac ymagwedd sydd ei angen i ddylunio a gweithredu dulliau asesu newydd.** Dywedodd uwch arweinwyr eu bod wedi parhau i sylwi ar gynnydd mewn hyder ymysg athrawon wrth ddefnyddio dulliau asesu ffurfiannol; roedd hyn yn cael ei hyrwyddo drwy sesiynau dysgu proffesiynol mewnol; drwy gael cymorth gan arbenigwyr ac ymgynghorwyr allanol; a hefyd drwy rannu dulliau ac arferion addysgu yn anffurfiol o ddydd i ddydd. Cyfeiriodd nifer o uwch arweinwyr at werth y cymorth a ddarparwyd drwy'r rhaglen gweithdai 'Understanding by Design'.[32] Dywedwyd bod hyn wedi helpu i sicrhau bod dyluniadau dulliau asesu yn gyson â nodau cyffredinol ar gyfer hyrwyddo cynnydd dysgwyr a hwyluso trefniadau pontio.

[32] Mae 'Understanding by Design' yn fframwaith ar gyfer addysgu gyda'r nod o greu dealltwriaeth, drwy ddull dylunio am yn ôl ('backward design approach'), sy'n cynnwys yr arfer o edrych ar ganlyniadau yn gyntaf. Crëwyd 'Understanding by Design' gan Jay McTighe a Grant Wiggins ac fe'i gyhoeddwyd gan y Gymdeithas dros Arolygaeth a Datblygu Cwricwlwm (Association for Supervision and Curriculum Development) ym 1998.

10.11 Dywedodd uwch arweinwyr mewn rhai ysgolion uwchradd fod athrawon yn arfer mwy o ymreolaeth a barn broffesiynol wrth benderfynu ar ddulliau asesu sy'n addas i'w pynciau. Gan gydnabod bod angen neilltuo amser ychwanegol i ddatblygu a gweithredu dulliau asesu newydd, mae rhai uwch arweinwyr wedi gallu cynllunio ar gyfer darparu amser ychwanegol i wneud hyn.

> 'Rydyn ni wedi rhoi mwy o amser ac arian i arweinwyr pwnc a phenaethiaid blwyddyn. Mae ganddyn nhw fwy o ymreolaeth a mwy o amser i ddal i fyny nawr (sicrhau ansawdd, archwilio llyfrau, cyfarfodydd). Mae pob un pwnc yn wahanol felly allwn ni ddim cael yr un asesiadau mewn Drama ac mewn Mathemateg. Erbyn diwedd Mehefin, mae angen mewnbynnu'r data i'n system ganolog, ond fyddwn ni ddim yn pennu ffurf yr asesiadau. Rydyn ni'n gofyn bod yr asesiadau'n rhai cronnol a'u bod ar amryw o ffurfiau. Mae'r dull gweithredu pwrpasol hwn yn hollol wahanol i ddulliau blaenorol, sef eistedd yn y neuadd a sefyll arholiad. Mae'n llawer mwy dynamig.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

10.12 Er hynny, roedd uwch arweinwyr eraill mewn ysgolion uwchradd wedi nodi bod llawer o waith i'w wneud eto ar ddatblygu trefniadau asesu a bod angen rhagor o gymorth.

> 'Mae rhai adrannau'n parhau i farcio allan o 10 a heb roi syniadau newydd ar waith eto. Peth da fyddai gwneud defnydd o gymorth allanol gan fod pobl yn dal i'w gael yn anodd mewn rhai achosion i ddeall beth yn union yw'r dulliau gwirioneddol dda i asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

10.13 **Nododd uwch arweinwyr eu bod yn edrych ar ffyrdd i gynnwys dysgwyr mewn gweithgarwch asesu**. Rhai enghreifftiau o'r ffyrdd y mae ysgolion a lleoliadau wedi cynnwys dysgwyr mewn dulliau asesu newydd yw:

- Darparu enghreifftiau o waith i ddysgwyr a gofyn iddynt ddarparu adborth arnynt neu eu graddio; nododd un uwch arweinydd mai'r bwriad wrth wneud hyn oedd gwneud dysgwyr yn ymwybodol o'r safonau y dylent geisio eu cyrraedd (ysgol uwchradd)
- Asesu ymagwedd y dysgwr yn barhaus a chynnal trafodaethau rheolaidd â dysgwyr am ymddygiad, ymdrech a sut mae hyn yn ymwneud â'u cynnydd.

> 'Rydyn ni wedi llwyddo i gychwyn trafodaethau agored ynghylch pwysigrwydd ymagwedd ac ymdrechu – gyda dysgwyr a rhieni. Mae rhieni'n deall hyn ac yn ymateb iddo'n fwy nag y bydden nhw i lefelau.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

10.14 **Mae ysgolion a lleoliadau yn parhau i ddefnyddio offer allanol i'w helpu i asesu ac i ddeall ble mae cohort penodol wedi cyrraedd, ochr yn ochr yn aml â dulliau asesu ffurfiannol o fewn yr ysgol.** Cyfeiriodd uwch arweinwyr at wahanol fentrau a rhaglenni y maent yn eu defnyddio, gan egluro pwrpas penodol y mathau neilltuol o asesu mewn llawer achos. Cyfeiriodd ysgolion arbennig at ddefnyddio B-squared, pecyn masnachol sy'n galluogi athrawon i asesu a thracio cynnydd y dysgwr mewn ffordd deilwredig.[33] Nododd un uwch arweinydd mewn ysgol arbennig ei fod wedi prynu'r pecyn hwn er mwyn delio â bwlch roedd wedi'i ganfod yng nghanllawiau cenedlaethol y Cwricwlwm i Gymru – 'Mae B-squared yn cynnwys is-lefelau i helpu dysgwyr i wneud cynnydd o Ar Drywydd Dysgu i Gam Cynnydd 1, ac mae'n cynnwys pecynnau gwaith i gynorthwyo dysgwyr sydd â PMLD'.

10.15 Profion eraill y dywedodd uwch arweinwyr eu bod yn eu defnyddio ar gyfer asesu oedd: Taith360; Profion Gallu Gwybyddol ('Cognitive Abilities Tests' (CAT4), GL Assessment); Accelerated Reading ac Accelerated Maths/STAR Maths (Renaissance Learning); data y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion a phrofion PASS (i edrych ar les cymdeithasol ac emosiynol).

> 'Rydyn ni'n defnyddio profion GL Assessment o Flwyddyn 2 i asesu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol. Mae staff yn teimlo'n fwy hyderus wrth gael asesu o'r math hwn ochr yn ochr â'u hasesiadau athro eu hunain.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

10.16 **Roedd uwch arweinwyr hefyd wedi tynnu sylw at heriau a phryderon parhaus mewn perthynas â threfniadau asesu.**

- Gan adleisio barn a fynegwyd yn ystod Cam 1 yr ymchwil, roedd uwch arweinwyr wedi ailddatgan y pwynt bod **angen amser a gwaith sylweddol o hyd i fireinio a datblygu eu trefniadau asesu ymhellach**. Nododd nifer o gyfweleion eu bod yn teimlo eu bod yn parhau i dreialu dulliau newydd a'u bod yn ansicr o hyd a ydynt yn addas i'w diben.
- Mae ansicrwydd o hyd ymysg rhai uwch arweinwyr am y ffordd i asesu rhai agweddau ar fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.

[33] Gweler B Squared Assessment Software

‘Rydyn ni am iddyn nhw fod yn gydnerth, yn gallu meddwl yn greadigol ac yn feirniadol ond mae’n anodd gwybod sut i asesu hyn a gwybod ein bod ni’n asesu’r pethau hyn yn dda.’ Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

- **Gwahaniaethau o ran y dulliau gweithredu** mewn ysgolion a lleoliadau yn yr un clwstwr, a’r cydweithio ar asesu yn llai datblygedig nag agweddau eraill ar ddiwygio’r cwricwlwm; yn ystod ail gam yr ymchwil roedd rhai uwch arweinwyr wedi dweud bod hyn yn gysylltiedig yn rhannol â heriau wrth geisio neilltuo amser i ryddhau staff i gwrdd â chydweithwyr yn y clwstwr.
- Ansicrwydd ynghylch sut byddai dulliau asesu newydd yn cydweddu ag arholiadau TGAU.[34] Roedd rhai ysgolion uwchradd wedi rhoi pwyslais ar gadw asesiadau crynodol ‘gan mai hyn fydd yn digwydd o hyd ar lefel TGAU’. Roedd yr angen am gysondeb a chydlyniant ar draws y system wedi’i nodi gan uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

‘Y testun pryder nesaf yw sut bydd hyn yn cydweddu â’r TGAU newydd? Mae Llywodraeth Cymru am ddefnyddio’r un dull o weithredu, ond dydyn ni ddim yn sicr sut bydd hyn yn gweithio gyda’r Cwricwlwm i Gymru newydd. Mae arnon ni angen mwy o wybodaeth am y ffordd y byddan nhw’n cydasio.’ Ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

- Roedd rhai uwch arweinwyr yn parhau i leisio pryder ynghylch a fyddai’r newidiadau mewn dulliau asesu yn cael croeso mewn arolygiadau yn y dyfodol. Teimlai rhai fod bylchau o ran tystiolaeth a’r data a gaiff eu casglu i ddangos cyrhaeddiad.
- Roedd nifer bach o uwch arweinwyr wedi dyfalu, er iddynt gael rhyddid i ddatblygu dulliau pwrpasol i asesu cynnydd dysgwyr, y gellid cyrraedd pwynt yn y dyfodol lle bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am newid cyfeiriad a dull mwy safonedig mewn ymateb i bwysau gwleidyddol neu ffactorau allanol eraill.

‘Y pryder yw y bydd rhywun yn digwydd dweud yn y dyfodol fod angen i bawb ddechrau [asesu] mewn ffordd wahanol. Byddai set wael o ganlyniadau PISA yn gallu cael ei chyhoeddi ac wedyn bydd rhywun mewn awdurdod yn dweud bod

[34] Cyhoeddwyd penderfyniadau ar y set o gymwysterau TGAU newydd gan Cymwysterau Cymru ar 28 Mehefin (tua diwedd cyfnod y gwaith maes). Gweler TGAU Gwneud-i-Gymru | Cymwysterau Cymru

rhaid i bawb asesu yn yr un ffordd a dyma set o dargedau'.  Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg

**Amrywiadau mewn barn yn ôl y math o ysgol neu leoliad**

10.17 Dywedodd rhai mewn ysgolion uwchradd fod dryswch ymysg rhieni sydd â phlant mewn grwpiau oedran hŷn o ganlyniad i gyflwyno dulliau newydd o asesu ym Mlwyddyn 7. Mae systemau asesu newydd – rhai lle rhoddwyd y gorau i ddefnyddio graddau yn aml – wedi ysgogi cwestiynau gan rieni.

> 'Rydyn ni'n credu ein bod ni'n rhoi esboniadau da am newidiadau i'r rhieni ond mae'n beth anodd. Roedden ni wedi anfon fideos canllawiau cartref i geisio egluro ein hadroddiadau. Mae llai o gwestiynau a chamddealltwriaethau'n codi dros amser ond nes bydd un system yn unig, byddwn ni'n dal i wynebu hyn.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

10.18 Dywedodd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd iddi fod yn fwy anodd cynllunio ar gyfer asesu mewn rhai Meysydd. O ran Mathemateg, er enghraifft, nodwyd bod asesiadau cronnol yn gwneud mwy o synnwyr, 'gan fod nifer penodol o sgiliau yn treiddio drwy'r pwnc' (uwch arweinydd ysgol uwchradd). O ran y Dyniaethau, dywedwyd bod hyn yn fwy o her am fod gwahanol unedau gwaith yn galw am wahanol sgiliau, felly mae cynllunio asesiadau sy'n addas i ystod o sgiliau a mathau o wybodaeth yn waith mwy cymhleth. Nododd uwch arweinwyr fod athrawon yn cael eu hannog i arfer eu harbenigedd a barn broffesiynol i nodi dulliau priodol a phwrpasol ar gyfer asesu cynnydd y dysgwr yn barhaus. Clywodd yr ymchwilwyr am enghreifftiau o ymgorffori dulliau asesu mewn arferion pob dydd drwy dasgau diweddaru ac adalw a oedd yn ceisio canfod faint a gofiwyd o'r dysgu mewn gwersi blaenorol fel man cychwyn ar gyfer datblygu a dyfnhau gwybodaeth.

10.19 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd yn fwy tebygol na'u cymheiriaid mewn ysgolion cynradd o nodi bod y newid mewn dulliau asesu yn digwydd yn araf. Nododd rhai ysgolion uwchradd fod hyn yn golygu 'newid mawr mewn diwylliant' i ysgolion a bod cynllunio dulliau newydd yn galw am neilltuo amser sylweddol.

> 'Mae asesu yn rhywbeth rydyn ni'n canolbwyntio arno o ddifrif ym Mlwyddyn 8. Nid yw'r [trefniadau] mor gyson a chydlynol ag y mae angen iddyn nhw fod ar hyn o bryd. Mae hyn yn gofyn llawer gan athrawon – mae'n dasg feichus a difrifol. Y brif ystyriaeth yw amser.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

**Barn uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023**

10.20 Dywedodd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023:

- eu bod bellach yn cynnal asesu mwy ffurfiannol ar gyfer dysgu

'Nawr mae mwy o adborth 'byw' yn cael ei ddarparu drwy asesu ffurfiannol, meini prawf llwyddiant a gaiff eu llunio ar y cyd â dysgwyr.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

- mewn rhai ysgolion, eu bod yn cynnal llai o asesiadau, ond eu bod yn canolbwyntio'n fwy ar ansawdd yr asesu

'Gwnaethon ni dreialu dull newydd o asesu yn y Dyniaethau. Roedden ni'n arfer cael chwe asesiad bob tymor yn y Dyniaethau; un bob hanner tymor ar gyfer pob un o'r tri phwnc. Nawr rydyn ni wedi newid i gael un asesiad cyfunol ar y Dyniaethau ar ddiwedd pob tymor. Mae'r asesiad hwn wedi'i seilio ar eitem gwaith fwy sy'n cael ei hadolygu sawl gwaith yn ystod y tymor. Mae athrawon a dysgwyr wedi cael bod hyn yn fwy ystyrlon a buddiol. Maen nhw'n gallu cael mwy o fudd o un dasg wedi'i hasesu yn ystod 70+ o wersi ym mhob un o'r tri phwnc, yn hytrach nag asesiad ar ôl 12 gwers mewn Daearyddiaeth, Hanes neu Addysg Grefyddol bob hanner tymor. Mae'n fwy rhyngweithiol, ac yn rhoi mwy o gyfleoedd i gynnwys sgiliau trawsbynciol, cael ymweliad ymarferol, dod â siaradwyr i mewn o'r tu allan.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

- eu bod yn treialu dulliau asesu newydd mewn un neu ragor o Feysydd ac wedyn yn adolygu'r dull hwn cyn datblygu asesiadau mewn Meysydd eraill
- eu bod yn cynnwys dysgwyr yn y broses o ddatblygu dulliau asesu newydd
- eu bod yn parhau i ddefnyddio asesiadau safonedig fel profion CAT4 (GL Assessments).

10.21 Cafwyd sylwadau gan uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 am yr heriau roeddent yn eu hwynebu wrth ddatblygu eu dull o ymdrin ag asesu. Y rhain oedd:

- bod rhai athrawon wedi bod yn bryderus ynghylch troi oddi wrth ddulliau asesu cenedlaethol, safonedig nes cael mwy o sicrwydd am fesurau atebolrwydd ysgolion

‘Ceir ofnau mawr ynghylch asesu. Cafwyd penaethiaid cyfadrannau yn dweud ‘os na allwch chi ddweud wrthyf i beth fydd yr asesiadau newydd, yna dydw i ddim am newid’. Gallwch chi ddeall y rhesymau gan mai dyna’r unig beth sydd ganddyn nhw i’w harwain. Mae’n destun pryder mawr, am fod cymaint o anniddigrwydd ynghylch asesu ac mae’n rhywbeth ar wahân i’r brwdfrydedd ynghylch y cwricwlwm newydd.’ Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

‘12-18 mis yn ôl, bydden ni wedi bod yn feirniadol iawn o’r canllawiau ar asesu/cynnydd. Wedyn gwnaethon ni sylweddoli bod angen i ni newid ein ffordd o feddwl. Mae’n dal yn destun pryder – rydyn ni’n poeni am y posibilrwydd y bydd mesurau atebolrwydd yn ymyrryd ryw dro yn y dyfodol â’r pethau y maen nhw wedi’u cytuno o ran asesu.’ Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

- eu bod yn teimlo’n hyderus ynghylch asesu cynnydd ar lefel yr unigolyn drwy ddulliau mwy cyfannol ond bod tracio a monitro hyn dros amser, ac adrodd ar gohortau o ddysgwyr, yn fwy o her.

## 11. Tegwch a chynwysoldeb

11.1 Yn yr adran hon, amlinellir canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â phrofiadau uwch arweinwyr o'r ffordd y mae'r trefniadau cwricwlwm newydd yn cefnogi **tegwch a chynwysoldeb.** Holwyd cyfweleion am nifer o faterion yn ymwneud â hyn. Roedd y rhain yn cynnwys cwestiynau am y canlynol:

- sut mae gweithredu'r cwricwlwm hyd yn hyn yn helpu i godi disgwyliadau i'r holl ddysgwyr ac i ddelio â bylchau mewn cyrhaeddiad
- y camau y mae ysgolion a lleoliadau yn eu cymryd i sicrhau eu bod yn lleoedd cynhwysol ar gyfer dysgu

**Crynodeb o ganfyddiadau Cam 1 (Tachwedd 2022 – Ionawr 2023): tegwch a chynwysoldeb**

11.2 Yn adroddiad ymchwil Cam 1 cafwyd bod:

- Uwch arweinwyr wedi pwysleisio bod tegwch wedi bod yn ffocws pwysig erioed yn eu hysgol neu leoliad, ond eu bod bellach yn canolbwyntio'n fwy ar y dysgwr yn eu dull o ddylunio'r cwricwlwm, a bod hyblygrwydd ganddynt i deilwra cymorth yn unol â hynny
- Dywedwyd bod y sylw cynyddol i lais y dysgwr yn cyfrannu at broses o ddatblygu cwricwlwm sy'n gynhwysol ac yn canolbwyntio ar y dysgwr
- Cyfeiriodd uwch arweinwyr at ddulliau mwy unigoledig o fonitro cynnydd y dysgwr, gan ddweud bod pwyslais ar sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd priodol yn ei ddysgu a'i ddatblygiad fel unigolyn
- Cyfeiriodd uwch arweinwyr at y pwysigrwydd o fod yn gynhwysol bob amser a chwrdd â'r gofynion yn y Cod ADY, gan nodi bod y Cwricwlwm i Gymru yn caniatáu iddynt hyrwyddo a chanolbwyntio ar gynwysoldeb
- Roedd uwch arweinwyr o'r farn bod newid cynnwys eu cwricwlwm fel ei fod yn fwy amrywiol ac yn adlewyrchiad gwell o gymdeithas yn newid er gwell
- Roedd uwch arweinwyr wedi crybwyll amrywiaeth o adnoddau a chyfleoedd hyfforddi i staff sy'n cael eu defnyddio ganddynt i gefnogi tegwch yn eu hysgol neu leoliad.

**Canfyddiadau Cam 2 (Mai-Gorffennaf 2023): Pwyntiau cyffredinol a godwyd gan uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau sy'n gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn ystod 2022/23**

*Y pwyntiau a godwyd amlaf gan uwch arweinwyr*

11.3 **Roedd uwch arweinwyr wedi ailbwysleisio pwyntiau a godwyd yn ystod y cyfweliadau Cam 1 am bwysigrwydd y ffaith bod eu dull o weithredu yn 'canolbwyntio ar y dysgwr'.** Roedd hyn yn cynnwys mewnbwn parhaus drwy lais y dysgwr, ac roedd nifer o uwch arweinwyr wedi nodi bod hyn yn elfen gryf yn eu hysgol neu leoliad. Dywedwyd bod cynnwys dysgwyr mewn gweithgareddau fel adolygiadau adran yn helpu i sicrhau 'cynrychiolaeth' a bod llais y disgyblion 'yn cael ei glywed'. Croesawyd y ffaith bod modd ymateb i lais y dysgwr drwy'r cyfleoedd y mae'r cwricwlwm yn eu cynnig i ddysgwyr lywio'r dewis o gynnwys. Mae'r ffocws ar y dysgwr unigol yn cael ei ategu ymhellach yn y pwynt cyffredinol a ganlyn a godwyd yn aml gan uwch arweinwyr mewn perthynas â'r defnydd o ddata.

> 'Mae Llais y Disgybl wedi bod elfen bwysig yn ein dull o weithredu; rydyn ni wedi gofyn iddyn nhw roi adborth am asesu ac adroddiadau i rieni.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

> 'Mae'r cwricwlwm newydd yn rhoi mwy o gyfle i gwrdd ag anghenion unigolion; mae'n fwy addasol, does dim rhaid i ni ruthro drwyddo. Mae'n rhoi'r hyder sydd ei angen i grwydro oddi ar y testun yn ôl yr hyn y mae dysgwyr am ei wneud, rydyn ni'n gallu bod yn fwy ymatebol i lais y dysgwr.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

> 'O'r blaen, roedd yn fater o fynd ati fel lladd nadroedd i lenwi bylchau ar gyfer yr asesiad. Nawr mae staff yn mynd ati'n fwy pwyllog gan ganolbwyntio ar y disgybl. Does neb yn cynhyrfu yn ei gylch, ac mae'n rhoi lle i'r plant dyfu.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

> 'Yn hytrach na ffitio plant i'r cwricwlwm, rydyn ni nawr yn adeiladu'r cwricwlwm o amgylch y dysgwr. Mae'n drobwynt yn fy marn i.' Uwch arweinydd, uned cyfeirio disgyblion

11.4 **Mewn modd tebyg i'r cyfweliadau Cam 1, roedd uwch arweinwyr wedi adleisio'r sylwadau am y pwysigrwydd o broffilio'r holl ddysgwyr.** Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth hefyd fod hyn yn galw am lawer o adnoddau ac amser yn aml. Er bod uwch arweinwyr wedi gwneud sylwadau am ddefnyddio 'tracwyr cynnydd', cyfarfodydd ag athrawon, 'adolygiadau cynnydd', a monitro gan

ddefnyddio amrywiaeth o ddata (e.e. presenoldeb, asesiadau), mynegwyd pryder am y ffordd y mae'r data hyn yn cael eu defnyddio, a bod y 'toreth o ddata yn newid drwy'r amser' (uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg). Er hynny, mae'r defnydd o ddata o'r fath yn sicrhau bod staff yn adnabod eu dysgwyr, a chafwyd sylwadau cadarnhaol am roi'r gorau i fonitro lefelau. Mae ffynonellau gwybodaeth eraill fel sylwadau gan rieni am dalentau eu plant a 'diwrnodau hunaniaeth' lle mae dysgwyr yn gallu rhannu gwybodaeth amdanynt eu hunain ag athrawon yn rhai sy'n cyfrannu ymhellach at gryfhau'r data proffilio a dealltwriaeth athrawon o ddysgwyr unigol.

> '[Mae] rhywfaint o bryder ynghylch pa ddata y dylen ni eu defnyddio, mae'r profion yn fwy diagnostig. Beth rydyn ni'n gorfod ei gymharu? Mae pethau braidd yn annelwig.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

> 'Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn decach o ran y pwyslais ar addysgeg a chynnydd. Fydden ni ddim am fynd yn ôl i'r hen system. Mae rhoi'r gorau o fonitro lefelau yn gam cadarnhaol o ran canolbwyntio ar ddysgu unigoledig yn hytrach na chyrraedd targedau mympwyol.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg

11.5 **Cyfeiriodd uwch arweinwyr at amrywiaeth o fentrau penodol a ddarperir mewn ysgolion a lleoliadau i ategu eu harlwy ar gyfer tegwch.** Mewn rhai achosion, mae'r gweithgareddau hyn yn galw am adnoddau sylweddol, fel staffio ychwanegol i gynnal grŵp 'anogaeth', ymyriadau ar gyfer darllen, a mwy o help i wneud gwaith cartref i'r rheini o gefndiroedd difreintiedig, e.e. polisi gwaith cartref. Cafwyd sylwadau gan nifer o uwch arweinwyr am strwythur y dosbarthiadau yn eu hysgol; gallu cymysg neu setiau. Nododd un uwch arweinydd ei bod yn ymddangos bod eu dull gallu cymysg yn dod ymlaen yn dda. Er hynny, fel a nodir isod, awgrymir ei bod yn bosibl bod bwlch yn yr hyfforddiant i athrawon i'w galluogi i ddarparu addysgu yn effeithiol mewn dosbarthiadau gallu cymysg.

> 'Rydyn ni'n dal at ein polisi gwaith cartref – adolygu beth rydych chi wedi'i addysgu yn y dosbarth, dim tasgau ychwanegol i'w cyrchu.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

11.6 **Fel a nodwyd yng ngham cyntaf y cyfweliadau, cyfeiriodd uwch arweinwyr at amrywiaeth o adnoddau a chyfleoedd hyfforddi sydd ar gael i gefnogi tegwch yn eu hysgol neu leoliad.** Ymysg yr adnoddau sydd ar gael y mae'r defnydd o'r

grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau; cyllid sydd ar gael gan Awdurdodau Lleol; y rhwydwaith SEREN sydd i fod ar gael i bawb yn y dyfodol; cyflwyno rhaglenni penodol i dargedu agweddau fel ysgrifennu, hyder a chymhwyso egwyddorion y prosiect RADY (Raising the Attainment of Disadvantaged Youngsters); hyfforddiant gan Gonsortia Addysg Rhanbarthol i gynorthwyo dysgwyr sy'n agored i niwed, a chyllid tuag at gostau tripiau ysgol ac offerynnau cerdd. Mewn achosion eraill, cafwyd gwybod am newidiadau yn y ffordd o ddefnyddio adnoddau staff mewn dosbarthiadau penodol; er enghraifft, cyfarwyddo athrawon i weithio gyda dysgwyr sydd ag angen cymorth, dyrannu mwy o gymorth gan Gynorthwywyr Addysgu i Flynyddoedd 7 i 9, a chynnal prosiect ymchwil i ddod o hyd i'r ffordd fwyaf effeithiol i gefnogi dysgwyr sydd ag ADY a hysbysu staff addysgu am y dull addysgu a ffefrir gan bob dysgwr.

> '[Rydyn ni wedi] newid ein ffordd o leoli/defnyddio staff: mewn dosbarthiadau lle mae athrawon a staff cymorth, defnyddiwn athrawon dosbarth gyda'r dysgwyr gwannach a bydd cynorthwywyr cymorth dysgu wedyn yn gweithio gyda'r grwpiau cryfach sydd ag angen llai o gymorth. Mae'r cwricwlwm yn cael ei ddarparu mewn ffordd decach oherwydd y ffordd y mae amser athrawon yn cael ei ddefnyddio a'i ddyrannu. Felly nid oes a wnelo hyn â chynnwys y cwricwlwm ond y ffordd y mae athrawon yn cael eu hannog i ganolbwyntio cymorth.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg

11.7 **Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion hefyd wedi ategu sylwadau a wnaed yn ystod eu cyfweliadau Cam 1 gan ailddatgan bod tegwch wedi bod yn flaenoriaeth i'w hysgol erioed.** Ailadroddwyd sylwadau am y farn bod hyblygrwydd y cwricwlwm yn helpu ysgolion a lleoliadau i fod yn deg a gallu cynorthwyo'r holl ddysgwyr. Teimlwyd bod hyblygrwydd y Cwricwlwm i Gymru yn caniatáu mwy o greadigrwydd yn yr arlwy dysgu a'i fod yn cael effaith lesol hefyd ar brofiad y dysgwr o asesu.

> 'Dydw i ddim yn credu bod y Cwricwlwm i Gymru yn bwysig mewn trafodaethau am leihau anghydraddoldeb; roedden ni'n ysgol gynhwysol yn barod.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

> 'Mae tegwch a chynwysoldeb wedi bod yn flaenoriaethau erioed. Nawr mae gennyn ni fwy o hyblygrwydd i sicrhau bod [ein] dysgwyr [..] wedi'u hadlewyrchu yng nghwricwlwm yr ysgol. Mae hyn yn helpu o ran cynwysoldeb.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg

‘Mae’r Cwricwlwm i Gymru yn rhoi hyblygrwydd i ni ganolbwyntio ar y dysgwr, mae staff yn gallu bod yn fwy creadigol nawr. Mae troi oddi wrth brofion yn gweithio i ddysgwyr sydd heb fod yn addas ar gyfer y dull asesu hwnnw.’ Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

‘Dydw i ddim yn sicr bod cwricwlwm yn rhywbeth sy’n gallu delio â bylchau mewn cyrhaeddiad, ond mae’r hyblygrwydd yn helpu am ei fod yn eich galluogi i fynd yn ddyfnach i dopig penodol nag y gallech fod wedi bwriadu os ydych chi’n teimlo bod y plant yn ei fwynhau a’u bod yn awyddus i ddysgu mwy. Dydych chi ddim yn teimlo cymaint o orfodaeth a bod rhaid i chi symud ymlaen at rywbeth arall.’ Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

‘Rydw i’n meddwl mai’r peth gorau yw’r term sy’n cael ei ddefnyddio yn y Cwricwlwm i Gymru – hyblygrwydd. Mae wedi’i seilio ar hyblygrwydd a’r cyd-destun. Fel ymarferydd myfyriol, byddwch chi’n ystyried hyn beth bynnag, ond mae gweithio ar sail model cwricwlwm sy’n hyrwyddo hyn yn beth gwych.’ Uwch arweinydd, ysgol arbennig

11.8 **Cyfeiriwyd at les yn aml yn ystod y cyfweliadau Cam 2.** Dywedodd uwch arweinwyr fod y ffaith bod lle mwy amlwg i iechyd a lles yn y cwricwlwm yn golygu eu bod yn gallu edrych ar yr hyn sydd ei angen ar y plentyn fel unigolyn; mae’n ‘iawn edrych ar ymwybyddiaeth ofalgar yn hytrach na neidio’n syth at ffoneg neu fathemateg’. Roedd pwysigrwydd iechyd a lles y dysgwr yn cael ei bwysleisio am fod ysgolion a lleoliadau yn cefnogi pob agwedd ar fywyd y dysgwr er mwyn sicrhau ei fod yn gallu ymroi i ddysgu. Dywedwyd bod lles wedi dod yn bwysicach, yn cynnwys sylw i bwysigrwydd bywyd cartref iach i gefnogi dysgu.

‘Mae iechyd a lles yn tynnu sylw at fywyd y cartref a beth ellir ei wneud yn y cartref i helpu. Os nad yw’r plant yn iach ac yn barod i ddysgu, fyddan nhw ddim yn gallu rhoi sylw i’r gwaith. Mae iechyd a lles yn effeithio ar beth sy’n digwydd yn yr ystafell ddosbarth. Nid yw’n hawdd, ond mae’n bwysicach nag erioed o’r blaen.’ Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg

11.9 **Nododd uwch arweinwyr fod pwysau ar gyllid yn peri pryder iddynt.** Roedd pryder neilltuol ynghylch staffio dosbarthiadau i sicrhau arlwy dysgu teg. Roedd y pwysigrwydd o gynnig arlwy dysgu teg yn cael ei gysylltu hefyd â’r gallu i gynnig her i’r disgyblion mwyaf galluog ac i gwrdd â disgwyliadau’r diwygiadau ADY. Er bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi pwyslais bob amser ar ymateb i anghenion yr holl ddysgwyr, mae hyn yn ddibynnol iawn ar yr adnoddau sydd ar gael i ysgolion a lleoliadau. Nid mewn perthynas â chyllid ysgolion yn unig y codwyd pryderon

ynghylch pwysau ar gyllid, ond hefyd mewn perthynas â gwasanaethau eraill sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc. Y teimlad, yn dilyn y pandemig yn enwedig, oedd bod mwy o blant bellach sydd ag angen cymorth ychwanegol. Mae hyn yn wir nid yn unig am y dysgwyr hynny sydd ag ADY ond hefyd mewn perthynas â'r cynnydd yn nifer y dysgwyr sydd o dan anfantais gymdeithasol. Ochr yn ochr â hyn, mae prinder o ran amser a chapasiti staff i dreialu a gweithredu rhai mentrau.

> '[..] hyd yn oed os oes plant newydd sydd ag anghenion ADY, allwn ni ddim gwneud cais am help ar gyfer y plant hyn ac rydyn ni'n gorfod gwneud i'r cyllid ADY ymestyn ymhellach. Mae hyn yn anodd iawn; mae gennyn ni blant ar lai o oriau am nad oes gen i ddigon o adnoddau a chyllid i helpu'r plant hyn. O ran darparu tegwch i blant sydd ag ADY, allwn ni ddim rhoi cefnogaeth ddigonol iddyn nhw. Mae hyn yn achosi straen mawr ymysg staff ac mae'n golygu y bydd rhai o'n dysgwyr ADY yn mynd heb yr help sydd ei angen arnyn nhw, ond does gennyn ni ddim digon o gapasiti i roi pethau ar waith i helpu'r dysgwyr hyn i wneud cynnydd. [..] Rydyn ni'n gorfod delio â phroblemau wrth iddyn nhw godi ac mae [hyn] yn golygu bod dysgwyr eraill yn yr ysgol ar eu colled.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

*Materion eraill a godwyd gan uwch arweinwyr*

11.10 Yn ystod y cyfweliadau Cam 2, roedd nifer bach o uwch arweinwyr wedi nodi eu bod yn pryderu o hyd ynghylch sicrhau tegwch yn eu hysgol neu leoliad. Cafwyd sylwadau am ansawdd gwael adeiladau ysgol a'r amgylchedd, a diffyg lle yn yr awyr agored, gan un uwch arweinydd mewn uned cyfeirio disgyblion. Roedd uwch arweinydd arall mewn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg wedi myfyrio ar ei bryderon ynghylch 'y gwahaniaeth rhwng ysgolion', yn enwedig ysgolion a lleoliadau llai.

> 'Mae ansawdd adeiladau a'r amgylchedd dysgu yn ffactor sy'n effeithio ar degwch. Does gennyn ni ddim lle yn yr awyr agored yma, felly nid yw ein dysgwyr ni'n cael yr un math o fynediad.' Uwch arweinydd, uned cyfeirio disgyblion

11.11 Roedd nifer bach o gyfweleion Cam 2 wedi rhoi gwybod am gynnydd yn nifer y dysgwyr sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Cyfeiriwyd at effeithiau negyddol y pandemig ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc ac at gynnydd mewn cyfraddau gwahardd o'r ysgol. Dywedwyd hefyd fod cyfran fwy o ddysgwyr yn cael prydau ysgol am ddim yn awr o gymharu â rhai blynyddoedd yn ôl. Ar adeg cynnal y cyfweliadau, nid oedd prydau ysgol am ddim i holl blant oedran cynradd yng Nghymru wedi cael eu cyflwyno'n llawn eto. Mater a oedd yn gysylltiedig â hyn oedd

nad oedd rhieni yn gallu cefnogi ysgolion a lleoliadau fel y byddent yn arfer gwneud; nododd un arweinydd ysgol fod gostyngiad yn nifer y rhieni sy'n helpu wedi arwain at ganslo tripiau ysgol. Dywedodd nifer bach o uwch arweinwyr ei bod bellach yn fwy anodd cynnwys rhieni ym mhroses dysgu eu plant e.e. eu helpu i ddarllen gartref. Roedd un uwch arweinydd wedi codi'r mater o sicrhau bod modd cymhwyso cyd-destun yr holl asesiadau at gefndiroedd dysgwyr o bob math ac nid yn unig y rheini sy'n gysylltiedig â 'magwraeth ddosbarth canol'.

> 'Rydyn ni'n gorfod edrych ar degwch mewn ffordd wahanol nawr [...], mae nifer y plant dan anfantais [economaidd-gymdeithasol] wedi cynyddu'n aruthrol ac mae'r hyn a oedd yn arfer bod yn elfen arbenigol yn ein gwaith [...] bellach wedi mynd yn elfen graidd ac yn codi llawer o heriau.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

11.12 Roedd nifer bach o uwch arweinwyr mewn ysgolion wedi mynegi barn gymysg am gynnydd y diwygiadau ADY a'u heffaith ar weithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae canran uchel y dysgwyr ADY wedi bod yn 'her aruthrol' i rai. Dywedwyd bod bwlch rhwng disgwyliadau rhieni am yr hyn y gall ysgol ei ddarparu o ran gofal ADY a'r hyn y gall yr ysgol ei gynnig mewn gwirionedd. Yn achos rhai eraill, fodd bynnag, er bod heriau wedi'u crybwyll, dywedwyd bod y broses cyflwyno 'yn gweithio'n dda' a cheir ymdrech i leihau'r amser roedd rhai plant yn ei dreulio 'y tu allan i'r dosbarth'. Ceir awydd i sicrhau bod plant yn aros yn y brif ffrwd yn hytrach na mynd i ysgol arbennig, yn enwedig os ydynt wedi gwneud yn dda drwy gydol eu haddysg gynradd.

11.13 Cyfeiriodd nifer bach o uwch arweinwyr at y pwysigrwydd o sicrhau bod staff yn cael amser ar gyfer dysgu proffesiynol a'u bod yn cael eu hyfforddi'n ddigonol i ddarparu agweddau fel 'addysgu gallu cymysg'. Ochr yn ochr â hyn, roedd nifer bach o uwch arweinwyr wedi gwneud sylw am y 'trawsnewid' a welwyd yn agwedd rhai o'u staff. Er enghraifft, roedd un uwch arweinydd mewn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg wedi sôn am yr enghreifftiau rhagorol o waith gwahaniaethol a welir yn yr ysgol. Roedd y pwysigrwydd o gynnig profiadau dilys i ddysgwyr wedi'i godi hefyd gan nifer bach o uwch arweinwyr gan gyfeirio at enghreifftiau fel plant yn tyfu llysiau a'u gwerthu, a mynd ar daith mewn trên.

### Amrywiadau mewn barn yn ôl y math o ysgol neu leoliad

11.14 Er bod uwch arweinwyr wedi dweud bod mwy o bwyslais ar addysgu gallu cymysg, roedd un uwch arweinydd mewn ysgol arbennig wedi nodi eu bod yn troi'n ôl at y model o ddyrannu dysgwyr i setiau yn ôl gallu mewn rhifedd a llythrennedd; byddai'r rhai mwy galluog yn cael her a'r rhai llai galluog yn cael y cymorth roedd arnynt ei angen. Yn ogystal â hyn, roedd un uwch arweinydd mewn ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg wedi nodi eu bod wedi ailddechrau dyrannu plant i setiau yn lle eu rhoi mewn dosbarthiadau gallu cymysg. Roedd ysgolion uwchradd yn fwy tebygol o gyfeirio at anghenion hyfforddi nag yr oedd ysgolion cynradd.

11.15 Roedd uwch arweinwyr yn y sector cynradd yn fwy tebygol nag eraill o bwysleisio eu bod wedi rhoi blaenoriaeth i degwch bob amser. Awgrymodd un uwch arweinydd mewn ysgol gynradd ei bod yn haws cymryd i ystyriaeth brofiadau'r dysgwr unigol yn y sector cynradd, yn enwedig am ei bod 'yn haws dod i adnabod yr holl blant yn y [sector] cynradd'.

11.16 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd yn fwy tebygol nag eraill o nodi'r heriau o ganlyniad i effaith y pwysau ar gyllid.

### Barn uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023

11.17 Roedd barn gymysg ymhlith uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 ynghylch a fyddai'r cwricwlwm yn gwella tegwch a chynwysoldeb ac yn helpu i ddelio â bylchau mewn cyrhaeddiad. Teimlai rhai y byddai'r ffocws ychwanegol ar addysgeg yn gwella ansawdd addysgu ac y byddai hynny wedyn yn gallu gwella'r canlyniadau i ddysgwyr. Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo bod ysgolion yn canolbwyntio ar hyn eisoes a bod ffactorau eraill, yn enwedig cyllid ysgolion a'r argyfwng costau byw, yn debygol o gael mwy o ddylanwad. Y prif bwyntiau a godwyd gan uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 oedd:

- bod tegwch a chynwysoldeb eisoes yn faes pwysig roedd eu hysgol yn canolbwyntio arno a bod y Cwricwlwm i Gymru yn ategu hyn, yn enwedig drwy'r sylw cynyddol i addysgeg

- bod y Cwricwlwm i Gymru wedi arwain at bwyslais mwy ar les a chymorth i ddysgwyr, er enghraifft drwy ddysgu proffesiynol i ymarferwyr a oedd yn canolbwyntio ar gynorthwyo dysgwyr
- y byddai dulliau mwy unigoledig o ymdrin â chynnydd ac asesu yn gallu bod yn fuddiol o ran teilwra cymorth yn ôl anghenion dysgwyr nad oeddent yn gwneud cynnydd yn ôl y disgwyl

‘Ma’n asesu ni ’di ‘switsho’ i fod yn fwy ffurfiannol. Os ’ni’n edrych ar gynnydd yn y pump peth ymysg y rhai sydd wedi cwympo y tu ôl, ’ni ’di rhoi ymyraethau mewn lle ac ma’n ymddangos fel ei fod yn gweithio. Hwn yw’r flwyddyn gyntaf i lawer o rieni ond ’ni ’di cal ymateb cadarnhaol gan rieni hyd yma.’ Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg

- y byddai’r Cwricwlwm i Gymru yn gallu cymell rhai ysgolion i newid i grwpiau gallu cymysg ym Mlwyddyn 7

11.18 Materion eraill a grybwyllwyd gan uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy’n paratoi i weithredu’r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 oedd:

- eu bod wedi sylwi ar gynnydd yn ystod y sgiliau trawsgwricwlaidd roedd dysgwyr wedi’u meithrin yn dilyn y pandemig. Roeddent yn priodoli hyn i amrywiadau yn y cymorth roedd rhieni a gofalwyr yn gallu ei gynnig i ddysgwyr
    - eu bod wedi gorfod addasu cynnwys eu cwricwlwm i geisio delio â’r bwlch canfyddedig hwn yn y ddwy flynedd diwethaf

‘Ma’r cwricwlwm wedi lansio yn ystod amser caled achos ma gymaint sydd angen cymorth ychwanegol ar ôl Cofid felly mae’r amser i dreialu ayyb ac ma ’na sgil effaith o ran faint allwn ni wahaniaethu a herio plant.’

- bod yr argyfwng costau byw wedi cael effaith negyddol ar allu rhieni a gofalwyr i wneud cyfraniad ariannol at gost tripiau ysgol, a bod hyn wedi effeithio wedyn ar allu rhai ysgolion i gynnig profiadau cyfoethog i ddysgwyr
    - y byddai hyn yn gallu cael effaith anghymesur ar ddysgwyr mewn ardaloedd lle mae lefelau uwch o amddifadedd economaidd-gymdeithasol, ar y rheini ar aelwydydd incwm is a’r rheini sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

- bod uwch arweinwyr wedi sylwi ar gynnydd yn nifer y dysgwyr sydd â phroblemau cymdeithasol ac emosiynol ac sy’n amlygu ymddygiad heriol
- bod heriau o ran amserlennu wrth geisio cadw rhai llwybrau ar gyfer rhai dysgwyr (e.e. mynediad cynnar ar gyfer TGAU Mathemateg).

# 12. Ymgysylltu â rhieni a gofalwyr

12.1 Yn yr adran hon, amlinellir canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â phrofiadau uwch arweinwyr o **ymgysylltu â rhieni a gofalwyr er mwyn hybu ymwybyddiaeth o'r trefniadau cwricwlwm ac asesu newydd.** Holwyd cyfweleion am y canlynol:

- sut mae ysgolion a lleoliadau yn rhoi gwybodaeth am y cwricwlwm i rieni a gofalwyr
- a yw gweithgarwch ymgysylltu â rhieni/gofalwyr wedi ychwanegu at y galwadau ar gapasiti staff yn yr ysgol
- a yw rhieni a gofalwyr yn cael eu hannog i gyfrannu at ddylunio'r cwricwlwm
- a oes angen cymorth ychwanegol ar ysgolion a lleoliadau i gynnwys rhieni a'u cymuned leol yn y broses o ddylunio'r cwricwlwm.

12.2 Mae crynodeb isod o ganfyddiadau Cam 1 mewn perthynas ag ymgysylltu â rhieni a gofalwyr. Yn yr adrannau sy'n dilyn, ceir crynodeb o sylwadau gan uwch arweinwyr am ymgysylltu â rhieni a gofalwyr.

**Crynodeb o ganfyddiadau Cam 1 (Tachwedd 2022 – Ionawr 2023): ymgysylltu â rhieni a gofalwyr**

12.3 Yn yr adroddiad ymchwil Cam 1 cafwyd bod:

- Ysgolion a lleoliadau yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i ledaenu gwybodaeth am y cwricwlwm ymysg rhieni. Roedd rhai wedi dweud eu bod yn ofalus wrth roi gwybod am newidiadau'r Cwricwlwm i Gymru i rieni ac wedi nodi amryw o ddulliau a ddefnyddir i 'ddiferu' diweddariadau er mwyn ceisio osgoi llethu rhieni â gormod o wybodaeth. Dywedodd uwch arweinwyr eu bod yn defnyddio eu crynodebau cwricwlwm gorfodol i rannu gwybodaeth â rhieni am y diwygiadau, gan amlinellu sut mae'r cwricwlwm yn cael ei drefnu a rhoi trosolwg ar ddulliau o ymdrin â chynnydd y dysgwr.
- Roedd rhai uwch arweinwyr wedi nodi bod y presenoldeb wedi bod yn wael mewn digwyddiadau ar gyfer rhieni a gofalwyr a oedd yn ymwneud yn benodol â'r Cwricwlwm i Gymru, fel gweithdai ar y newidiadau. Dywedodd

uwch arweinwyr eu bod wedi canfod ei bod yn well ymgysylltu â rhieni a gofalwyr drwy gynnal digwyddiadau a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru lle'r oedd y plant yn cymryd rhan hefyd, er enghraifft cyflwyniadau, digwyddiadau dathlu a chyfarfodydd cynulleidfaol. Dywedodd nifer o uwch arweinwyr eu bod wedi dechrau cynnal 'diwrnodau dysgu' fel ffordd newydd i adrodd i rieni, gan wahodd rhieni i ddod i'r ysgol i weld a thrafod gwaith eu plentyn.

- Roedd uwch arweinwyr wedi disgrifio amryw o ymdrechion i gynnwys rhieni a gofalwyr wrth ddylunio'r cwricwlwm. Fodd bynnag, roedd uwch arweinwyr wedi nodi ar y cyfan mai ychydig o ymateb a gafwyd gan rieni wrth ddefnyddio dulliau fel arolygon a chyfarfodydd. Cafwyd adroddiadau am ysgolion a lleoliadau yn cyfyngu eu hymgynghori â rhieni a gofalwyr nes iddynt dreulio mwy o amser yn dylunio eu cwricwlwm a theimlo'n fwy hyderus ynghylch eu dulliau o weithredu.

**Canfyddiadau Cam 2 (Mai-Gorffennaf 2023): Pwyntiau cyffredinol a godwyd gan uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau sy'n gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn ystod 2022/23**

*Y pwyntiau a godwyd amlaf gan uwch arweinwyr*

12.4 **O gymharu â Cham 1, roedd uwch arweinwyr yng Ngham 2 wedi disgrifio amrywiaeth fwy o ddulliau ymgysylltu â rhieni a gofalwyr** a chynnydd yn y defnydd o ddulliau electronig yn ogystal â dulliau wyneb yn wyneb traddodiadol (e.e. rhannu enghreifftiau o waith a fideos ar apiau ystafell ddosbarth fel Dojo, Seesaw a Google Classroom).

12.5 **Roedd uwch arweinwyr yn parhau i roi gwybod am heriau wrth ymgysylltu â rhieni a gofalwyr mewn digwyddiadau neu weithgareddau a oedd yn ymwneud yn benodol â'r Cwricwlwm i Gymru (e.e. arolygon electronig neu gyfarfodydd, dogfennau crynodeb y cwricwlwm).** Roedd uwch arweinwyr wedi nodi'n amlach eu bod yn mabwysiadu dulliau mwy arloesol ac anffurfiol i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr drwy eu gwahodd i ddigwyddiadau fel 'arddangosiadau' neu berfformiadau gan ddysgwyr yn ymwneud â themâu neu brosiectau penodol. Dywedodd uwch

arweinwyr fod rhieni a gofalwyr yn fwy tebygol o fanteisio ar gyfleoedd wyneb yn wyneb, llai ffurfiol o'r mathau hyn.

> 'Rydyn ni wedi cynnal gwahanol fathau o gyfarfodydd wyneb yn wyneb â rhieni. Byddwn ni'n cael nosweithiau rhieni ffurfiol yn ogystal â diwrnodau agored lle bydd y plant yn bresennol a byddwn ni'n edrych ar yr amgylchedd dysgu gyda'n gilydd. Rydyn ni'n cynnal cyfarfodydd cymdeithasol lle mae te a choffi ar gael ac mae'r plant yn gallu mynd â'u rhieni o gwmpas yr ystafell ddosbarth a dangos llyfrau. Rydyn ni wedi sylweddoli bod gwahanol rieni am gael cyfathrebu mewn gwahanol ffyrdd – mae rhai am gael cyfarfodydd wyneb yn wyneb, rhai am gael sgyrsiau ffurfiol ag athrawon, rhai am gael diwrnodau agored, rhai am gael adroddiadau cynnydd/asesu, rhai am gael cysylltiad bob dydd neu am gwrdd mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Rydyn ni'n ceisio darparu ar gyfer pob math.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

12.6 **Roedd uwch arweinwyr wedi parhau i roi gwybod am ymgysylltu da â rhieni a gofalwyr drwy ddigwyddiadau lle'r oedd y plant yn bresennol hefyd fel digwyddiadau cyflwyno gwobrau neu arddangosiadau dysgwyr lle'r oedd myfyrwyr yn cymryd rhan drwy ddangos eu gwaith.** Roedd uwch arweinwyr wedi disgrifio sut roeddent yn defnyddio'r digwyddiadau hyn fel cyfleoedd i wahodd rhieni i weld a thrafod gwaith eu plentyn â'r dysgwr a/neu'r athro. Roedd uwch arweinwyr hefyd yn gweld y digwyddiadau hyn yn gyfleoedd i athrawon ddisgrifio'r dysgu yn y dosbarth a oedd wedi arwain at y perfformiad neu arddangosiad a sut roedd hyn yn ffitio i'w cwricwlwm.

> 'Rydyn ni wedi troi'r gornel ar hyn. Mae'r arddangosiadau dysgwyr wedi arwain at gynnydd aruthrol yn yr ymgysylltu – mae gennyn ni swyddog cymunedol sy'n cofnodi presenoldeb yn y rhain. Mae 90-95% o'r teuluoedd yn dod i'r ysgol ar gyfer yr arddangosiadau dysgwyr.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

12.7 **Nododd uwch arweinwyr fod rhannu gwybodaeth â rhieni a gofalwyr yn aml yn ymwneud yn bennaf â chynnydd yn hytrach na chyrhaeddiad**. Yma eto, roedd dysgwyr wedi'u cynnwys wrth ddangos sut roeddent wedi gwneud cynnydd yn eu gwaith, pa waith oedd yn dangos hyn a sut y gallent ddatrys problemau.

> 'Roedden ni'n arfer adrodd ar lefelau. Rydyn ni wedi troi oddi wrth hynny, doedd rhieni ddim yn ei ddeall. Nawr rydyn ni'n adrodd yn nhermau "gwybod" [a] "gallu gwneud". Bydd athrawon yn rhoi sgôr o 1,2,3 ar gyfres o ddatganiadau. Mae rhieni'n cael gweld y manylion hyn hefyd. Mae hon yn troi'n daflen marcio cynnydd hefyd. Mae rhai o'r datganiadau hyn wedi'u seilio ar sgiliau, eraill ar wybodaeth. Doedden ni ddim yn gallu dangos mân wahaniaethau o'r fath wrth

ddefnyddio lefelau, mae hyn yn newid mawr i ni.'  Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

12.8 **Dywedodd uwch arweinwyr fod rhieni wedi darparu adborth cadarnhaol am y cynnydd yn nifer y cyfleoedd ar gyfer dysgu drwy brofiad roedd eu plentyn yn eu cael.** Roedd hyn wedi'i grybwyll yn benodol yng nghyd-destun eu hymdrechion i gymell rhieni a gofalwyr i ddod i'r ysgol i drafod eu profiadau eu hunain (e.e. mewn perthynas â gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith neu Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol).

'Rydyn ni wedi cael adborth cadarnhaol iawn gan rieni am y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r ysgol, nifer ohonyn nhw'n rhieni. Mae yna frwdfrydedd ymysg rhieni ac rydyn ni'n cael mwy o gynigion gan rieni eraill i ddod i'r ysgol.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

'Mae angen i ni gynnwys y rhieni yn y cwricwlwm mewn ffordd wahanol, canolbwyntio'n fwy ar gynnwys y gymuned. Os byddwn ni'n cynnal digwyddiad menter, fydd y rhieni ddim yn sylweddoli eu bod nhw'n cymryd rhan mewn gweithdy sy'n ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru. Hefyd yn ystod wythnos treftadaeth, roedd y plant wedi'u hannog i ymchwilio i gefndir eu rhieni, roedd rhieni wedi cymryd rhan yn frwdfrydig a daeth 60 ohonyn nhw i'r ysgol.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

*Materion eraill a godwyd gan uwch arweinwyr*

12.9 **Yn wahanol i'r sefyllfa yng Ngham 1, nid oedd unrhyw uwch arweinwyr yng Ngham 2 wedi dweud eu bod yn bryderus ynghylch hysbysu rhieni am newidiadau yn eu cwricwlwm**. Roedd yn ymddangos bod uwch ymarferwyr yn fwy hyderus wrth rannu gwybodaeth am eu cwricwlwm â rhieni, ac roedd llai ohonynt wedi cyfeirio at yr angen i 'ddiferu' gwybodaeth. Roedd yn ymddangos mai'r prif bryder ymysg uwch arweinwyr ynghylch ymgysylltu â rhieni oedd sut byddai rhieni'n ymateb i newidiadau yn y wybodaeth roeddent yn ei rhannu â nhw am gynnydd eu plentyn mewn adroddiadau diwedd blwyddyn (gweler Adran 9).

12.10 **Roedd uwch arweinwyr yn parhau i roi gwybod am ddiffyg dealltwriaeth ymysg rhieni o'r newidiadau yn y cwricwlwm**, ac wedi mynegi awydd am ddefnyddio termau cyfarwydd, er enghraifft awydd i wybod am gyrhaeddiad eu plentyn mewn perthynas â 'lefelau'.

> ‘Mae cymaint o wybodaeth ar gael ac mae’n anodd ei dehongli i rieni. Fydd y rhieni ddim yn ei deall bob amser, mae’n anodd eu cael i’w deall. Weithiau byddwn ni’n cael rhieni sydd â’r hen ffordd o feddwl nad ydyn nhw’n deall y Cwricwlwm i Gymru newydd – fyddan nhw ddim yn deall newidiadau o ran asesu ac ati y mae eu plant yn eu gwneud…Mae angen cael rhywbeth gan Lywodraeth Cymru, mwy o negeseuon a fydd yn gallu helpu rhieni i ddod i arfer â newidiadau.’ Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg

12.11 **Roedd nifer bach o uwch arweinwyr wedi mynegi awydd am gael fideos gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â’r Cwricwlwm i Gymru a fyddai ar gael mewn ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg.** Dywedodd yr uwch arweinwyr hyn y byddai’r rhain o gymorth iddynt wrth ledaenu gwybodaeth i rieni sydd heb y Gymraeg neu’r Saesneg yn iaith gyntaf.

12.12 **Dywedodd nifer bach o uwch arweinwyr eu bod wedi penodi swyddog cyswllt teulu i ganolbwyntio ar gynyddu’r ymgysylltu â rhieni a bod hyn wedi bod yn beth cadarnhaol.**

**Amrywiadau mewn barn yn ôl y math o ysgol neu leoliad**

12.13 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd yn fwy tebygol na’r rheini mewn ysgolion uwchradd o ddweud:

- eu bod yn defnyddio digwyddiadau dan arweiniad dysgwyr fel arddangosiadau neu gyflwyniadau i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr
- eu bod yn defnyddio dulliau cyfathrebu electronig fel apiau ystafell ddosbarth neu lwyfannau (e.e. Seesaw) i rannu gwybodaeth â rhieni
- bod rhieni a gofalwyr wedi darparu adborth cadarnhaol am gyfleoedd dysgu drwy brofiad a gynigiwyd i’w plentyn (e.e. ymweliadau).

12.14 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd yn fwy tebygol na’r rheini mewn ysgolion cynradd o ddweud eu bod yn bryderus ynghylch sut byddai rhieni a gofalwyr yn ymateb i newidiadau yn eu ffordd o adrodd ar gynnydd y dysgwr.

**Barn uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy’n paratoi i weithredu’r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023**

12.15 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion sy’n paratoi i weithredu’r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 wedi rhoi gwybod am nifer o weithgareddau roeddent yn eu

cynnal i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr a'u hysbysu am eu cwricwlwm newydd. Roedd y rhain yn ddulliau tebyg i'r rheini a nodwyd gan ysgolion a lleoliadau a oedd yn gweithredu'r cwricwlwm eisoes ac roeddent yn cynnwys:

- cynnal e-arolygon i ymgynghori â rhieni a gofalwyr ar gynnwys y cwricwlwm
- dosbarthu crynodeb o'r cwricwlwm i rieni a gofalwyr drwy eu gwefan
    - roedd rhai ysgolion yn parhau i ddatblygu'r crynodeb o'u cwricwlwm
- llunio pytiau o wybodaeth gryno am agweddau penodol ar y cwricwlwm
- newid eu ffordd o adrodd ar gynnydd i rieni.

12.16 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 wedi rhoi gwybod am heriau roeddent yn eu hwynebu wrth gynnwys ac ymgysylltu â rhieni a gofalwyr. Y rhain oedd:

- lefelau isel yr ymateb i ymgynghori ar y cwricwlwm drwy e-arolygon
- anawsterau wrth egluro newidiadau mewn trefniadau cynnydd ac asesu i rieni wrth i'r rhain gael eu datblygu.

# 13. Barn dysgwyr

13.1 Yn yr adran hon, amlinellir y canfyddiadau o'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda naw grŵp o ddysgwyr, pump mewn ysgolion cynradd a phedwar mewn ysgolion uwchradd. Gofynnwyd i ddysgwyr rannu eu barn am y canlynol:

- prosiectau neu themâu roeddent wedi gweithio arnynt yn ddiweddar[35]
    - cymryd rhan wrth ddewis eu themâu / prosiectau eu hunain
- a oedd yr ysgol wedi'u helpu i weld cysylltiadau rhwng pynciau
- pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru
- a oedd dysgwyr yn cael yr help roedd arnynt ei angen
- a oeddent yn dysgu am amrywiaeth fawr o destunau a oedd yn bwysig iddynt
- a oedd yr ysgol yn deg â phawb
- a oedd yr ysgol yn eu helpu i gyfathrebu'n dda yn Gymraeg a Saesneg
- sut roeddent yn gwybod a oeddent wedi camu ymlaen neu wneud cynnydd yn eu dysgu
- a oeddent yn cael eu hannog i weithio'n galed a phennu uchelgeisiau uchel
- a oeddent yn teimlo eu bod yn cael her
- a oeddent yn siarad am eu hiechyd a lles, ac yn cael cymorth mewn cysylltiad â hynny.

13.2 Yn y bennod hon, cyflwynir y canfyddiadau mewn dwy ran. Yn gyntaf, materion allweddol a godwyd gan ddysgwyr mewn ysgolion cynradd (dysgwyr ym Mlynyddoedd 4, 5 a 6); yn ail, crynodeb o'r pwyntiau a godwyd mewn trafodaethau grŵp gyda dysgwyr Blwyddyn 7. Mae'n nodi'r canfyddiadau mewn perthynas â'r pwyntiau a godwyd amlaf gan ddysgwyr o blith y rhestr o destunau uchod. Ceir gwybodaeth am y dull o recriwtio dysgwyr i gymryd rhan yn y grwpiau yn yr adran ar fethodoleg (gweler Adran 2), ynghyd ag ystyriaethau o ran methodoleg.

[35] Cyn y drafodaeth, gofynnwyd i uwch arweinwyr ddarparu enghraifft y gallai'r ymchwilwyr gyfeirio ati.

13.3 Yn y bennod hon, cyflwynir canfyddiadau'r ymchwil ymysg dysgwyr yng Nghamau 1 a 2. Yn ystod yr ail set o drafodaethau grŵp, a gynhaliwyd ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2023, roedd dysgwyr yn gallu myfyrio mewn ffordd fwy ystyrlon ar y cynnydd yn eu dysgu yn ystod y flwyddyn ysgol o gymharu â'r set gyntaf o drafodaethau yn gynharach yn y flwyddyn.

**Dysgwyr mewn ysgolion cynradd**

*Gwaith seiliedig ar destunau*

13.4 Holwyd dysgwyr mewn ysgolion cynradd am destunau neu feysydd gwaith penodol roeddent wedi canolbwyntio arnynt yn ystod y misoedd diweddar. Mewn rhai achosion, roedd y testunau hyn wedi'u crybwyll gan uwch arweinwyr yn ystod cyfweliadau blaenorol. Roedd dysgwyr wedi darparu amryw o enghreifftiau o destunau, yn cynnwys 'dyfeisiadau pwysig', 'dinasyddion y byd', 'dŵr', 'ein hardal leol' a 'Cymru a'r byd'. Mewn nifer o achosion, roedd pwyslais ar ymgorffori'r syniad o 'gynefin' yn y testunau a ddewiswyd a oedd yn cryfhau'r ymdeimlad o hunaniaeth benodol a chysylltiadau rhwng ardal leol yr ysgol a'r byd ehangach. Dywedodd dysgwyr eu bod yn mwynhau dysgu drwy destunau a phrosiectau sy'n darparu cyfleoedd i edrych yn fanwl ar syniadau a phynciau. Nododd dysgwyr fod gwaith seiliedig ar destunau yn cynnwys tasgau a oedd yn rhychwantu gwahanol bynciau ac yn helpu i ddangos y cysylltiadau rhwng pynciau.

> Dysgwr A: 'Yn y thema dŵr, roedden ni wedi gwneud gwaith ar Fathemateg, Daearyddiaeth ac Iechyd a Lles. Felly, roedden ni wedi gwneud graffiau yn rhan o Fathemateg…'
>
> Dysgwr B: '…ac roedden ni wedi edrych ar ble mae dŵr yn dod ohono, a ble mae'n cyrraedd yn y diwedd.' Dysgwyr, ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg

13.5 Felly, mae'n ymddangos bod gwaith seiliedig ar destunau a phrosiectau yn darparu ffordd i hwyluso cysylltiadau trawsgwricwlaidd y dywedodd uwch arweinwyr eu bod yn ceisio eu hymgorffori wrth weithredu'r trefniadau cwricwlwm newydd.

*Cynnwys dysgwyr mewn penderfyniadau am eu dysgu*

13.6 Gofynnwyd i ddysgwyr mewn ysgolion cynradd a oeddent wedi cymryd rhan mewn penderfyniadau am y testunau a oedd yn cael eu haddysgu yn yr ysgol. Dywedodd dysgwyr eu bod yn cael eu cynnwys drwy ymgynghori, gan ddisgrifio gwahanol ffyrdd roeddent yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau. Mewn rhai achosion, gofynnwyd iddynt ddarparu enghreifftiau o destunau, a oedd weithiau'n destun pleidlais yn y dosbarth. Yn fwy aml, cyflwynwyd testunau iddynt a'u holi am y mathau o weithgarwch, profiadau neu dasgau roeddent yn credu bod modd eu cynnwys yn y maes gwaith hwnnw. Mewn rhai achosion, defnyddiwyd cynghorau ysgol neu gynghorau dosbarth i wneud penderfyniadau. Nododd dysgwyr ei bod yn bwysig gallu penderfynu ar destunau gan fod hyn yn gallu helpu i'w sbarduno a sicrhau 'ein bod ni'n dysgu am bethau sy'n bwysig i ni' (dysgwr, ysgol gynradd).

13.7 Felly, roedd nifer o enghreifftiau a oedd yn dangos bod dysgwyr yn cael eu holi am fewnbwn a'u bod yn cael cyfleoedd i lywio eu dysgu, yn cynnwys drwy gymryd rhan mewn penderfyniadau am beth maent yn ei ddysgu a sut maent yn gwneud hynny.

13.8 Yn ogystal â gofyn am eu barn am y pethau a oedd o ddiddordeb iddynt fel dysgwyr, roedd dysgwyr hefyd wedi darparu enghreifftiau o gael cyfrifoldeb, yn enwedig dysgwyr Blwyddyn 6. Roedd hyn yn adleisio sylwadau a wnaed gan uwch arweinwyr yn yr ysgolion hynny a soniodd am rymuso disgyblion (gweler isod a hefyd yn adran 13.19). Dywedodd dysgwyr eu bod yn mwynhau cael cyfrifoldeb, gan nodi enghreifftiau fel y rhai canlynol:

- Cael cyfrifoldeb dros gynllunio taith ac archebu tocynnau ar gyfer digwyddiadau yn ystod trip preswyl tri diwrnod
- Helpu i ysgrifennu'r sgript ar gyfer perfformiad dramatig byr yn Eisteddfod yr Urdd
- Cynllunio amserlen ar gyfer gwibdaith ac ysgrifennu llythyr at rieni i ddarparu gwybodaeth am yr ymweliad
- Cael eu cynnwys mewn ymgynghoriad ar ddyluniad adeilad ysgol newydd a chyfrannu syniadau ar gyfer hynny – ac un dysgwr wedi datblygu diddordeb mewn dod yn bensaer yn y dyfodol o ganlyniad i hyn.

*Profiadau*

13.9 Gofynnwyd i ddysgwyr a oeddent yn cael cyfleoedd i ddysgu am bethau sy'n bwysig iddynt yn y byd y tu allan i'r ysgol. Mynegodd y rheini a gyfrannodd yn y grwpiau ffocws frwdfrydedd am yr ymweliadau, perfformiadau, siaradwyr gwadd a chyfleoedd i weithio gyda sefydliadau allanol. Darparwyd amryw o enghreifftiau, yn cynnwys:

- Tripiau diwrnod i drefi a dinasoedd lleol
- Ymweliadau preswyl mewn grwpiau ysgol a gydag ysgolion eraill yn eu clwstwr
- Prosiectau a gweithdai cysylltiedig â'r celfyddydau mynegiannol dan arweiniad sefydliadau
- Ymweliadau â pharciau gwledig a safleoedd hanesyddol, yn gysylltiedig yn aml â thestunau penodol roeddent yn eu hastudio.

13.10 Roedd dysgwyr yn yr holl grwpiau yn teimlo bod y profiadau yn eu helpu i ddysgu ac yn helpu i wneud yr ysgol yn fwy 'diddorol' a 'chyffrous'.

> 'Mae profiadau'n ein helpu i gofio mwy o bethau. Mae ffeithiau'n haws eu cofio os ydych chi'n gweld pethau yn y byd go iawn.' Dysgwr, ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg

*Cynnydd*

13.11 Roedd yr ymchwilwyr yn awyddus i gasglu mewnwelediadau i'r cwestiwn o gynnydd y dysgwr o safbwynt disgyblion. Gwnaed hyn drwy ofyn i gyfranogwyr:

- sut roeddent yn gwybod a oeddent wedi camu ymlaen yn eu dysgu
- sut maent yn cael gwybod beth sydd angen ei wneud i gamu ymlaen neu wella
- sut maent yn siarad am gynnydd â'u hathrawon

- a ydynt yn siarad â'u hathrawon ynghylch eu cymell eu hunain i weithio'n galed neu bennu uchelgeisiau uchel.

13.12 At ei gilydd, roedd dysgwyr mewn ysgolion cynradd yn teimlo eu bod wedi gwneud cynnydd yn ystod y flwyddyn. Dywedodd y dysgwyr hyn eu bod yn trafod amcanion dysgu ar ddechrau'r flwyddyn ysgol (neu dymor) a bod y rhain yn cael eu cofnodi yn eu llyfrau mewn llawer achos. Dywedodd dysgwyr yn yr holl grwpiau bod athrawon yn siarad â nhw am y ffordd y maent yn camu ymlaen yn eu gwaith. Cafwyd gwybod ganddynt eu bod wedi gwella o ran sillafu, treigladau, Mathemateg (drwy gamu ymlaen ar 'Clics'). Teimlai dysgwyr eu bod wedi gwella eu llawysgrifen ac roeddent wedi sylwi bod nifer y sylwadau gan yr athro yn eu llyfrau wedi lleihau wrth i'r flwyddyn ysgol fynd yn ei blaen. Mewn un ysgol, mae dysgwyr yn cael y canlyniad i asesiadau ar ddechrau a diwedd y flwyddyn, fel y gallant weld a ydynt wedi gwella.

13.13 Un thema a gododd droeon yn ystod trafodaethau (yng ngrwpiau'r ysgolion cynradd ac uwchradd) oedd bod dysgwyr yn cael eu hannog yn amlach gan athrawon i siarad am eu cynnydd eu hunain. Nododd dysgwyr fod athrawon yn eu hannog i adolygu eu cynnydd a meddwl sut y gallant wella drwy'r amser. Roedd hyn yn adleisio sylwadau a wnaed gan uwch arweinwyr ynghylch pa mor bwysig yw hi bod dysgwyr yn deall ble maent wedi cyrraedd yn eu dysgu a beth mae angen ei wneud i gamu ymlaen. Roedd athrawon wedi nodi pwysigrwydd hunanasesu a hunanwella.

> 'Weithiau bydd athrawon yn gofyn i ni edrych ar lyfrau ein gilydd a siarad â phobl wrth ein bwrdd ni ynghylch beth rydyn ni wedi'i wneud yn dda a sut y gallwn ni wneud yn well.' Dysgwr, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

13.14 Dywedodd dysgwyr eu bod yn ymfalchïo yn eu hawydd i wella a'u bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth drwy'r adborth gan athrawon.

> 'Mae'n deimlad braf i wybod dy fod yn gweithio'n galed ac yn gwneud gwaith da.' Dysgwr, ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg

> 'Mae'r adborth gan yr athro wedi fy helpu i wella fy llawysgrifen. Mae Miss […] yn dweud wrthyf i drwy'r amser am ganolbwyntio a pheidio â rhuthro. Mae hyn wedi fy helpu.'

13.15 Ym mhob un o'r grwpiau, roedd un neu ragor o ddysgwyr a ddywedodd eu bod wedi cael tasgau ychwanegol i roi her iddynt. Dywedodd y dysgwyr hyn fod cael heriau

neu dasgau ychwanegol yn rhoi ymdeimlad o falchder iddynt. Dywedodd y dysgwyr hyn eu bod yn mwynhau cael eu 'hymestyn' a'u hannog gan athrawon i ymdrechu.

> 'Ni'n cael tasgau ychwanegol i roi her i ni ('cwestiynau her'). Nid pawb sy'n cael y rhain – chi'n cael y dasg ychwanegol os ydych chi wedi gorffen a gwirio'r prif waith.'

> 'Byddwch chi'n teimlo eich bod chi wedi cyflawni rhywbeth os byddwch chi wedi gwneud yr her.'

*Y pwysigrwydd o gael amgylcheddau dysgu diogel a chefnogol*

13.16 Roedd un grŵp o ddysgwyr wedi symud o hen adeilad ysgol i adeilad newydd yn ystod y flwyddyn ysgol. Dywedwyd bod hyn wedi gwneud gwahaniaeth mawr yn eu profiadau dysgu a sut maent yn teimlo am yr ysgol. Cafwyd gwybod ganddynt eu bod yn teimlo'n fwy diogel, yn fwy cyfforddus a bod hyn yn gwneud gwahaniaeth o ran eu gallu i ganolbwyntio yn y dosbarth.

13.17 Roedd grwpiau dysgwyr eraill (rhai cynradd ac uwchradd) hefyd wedi sôn am bwysigrwydd amgylchedd y dosbarth yng nghyswllt eu profiad o ddysgu. Dywedodd dysgwyr fod amgylcheddau aflonyddol yn yr ystafell ddosbarth – yn gysylltiedig ag ymddygiad gwael gan rai dysgwyr – yn cael effaith sylweddol ar fwynhad dysgwyr yn yr ysgol a'u gallu i ddysgu'n effeithiol.

*Adroddiadau cynnydd a nosweithiau rhieni*

13.18 Roedd uwch arweinwyr wedi myfyrio ar newidiadau a oedd yn cael eu cyflwyno o ran nosweithiau rhieni mewn ymateb i'r trefniadau cwricwlwm newydd. Cafwyd sylwadau gan rai dysgwyr am y dulliau newydd a ddefnyddir. Mewn un ysgol, roedd dysgwyr yn dod i nosweithiau rhieni gyda'u rhieni/gofalwyr. Mae'r rhain wedi'u hailenwi'n gyfarfodydd 'Ni Sydd â'r Pŵer' / 'We Have the Power' lle rhoddir pwyslais ar rymuso dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb. Dywedodd dysgwyr eu bod yn hoffi'r ffaith bod athrawon, yn y cyfarfodydd hyn, yn gofyn cwestiynau iddynt fel 'Beth rwyt ti'n ei feddwl am y pethau rydyn ni wedi'u dysgu y tymor hwn? Sut wyt ti'n credu y gelli di wella dy waith y flwyddyn nesaf?'

> 'Doedden ni ddim arfer mynd i'r nosweithiau rhieni – byddwn ni tu allan yn chwarae tra bod y rhieni'n siarad gyda'r athrawon. Nawr 'dan ni yna – yn rhan o'r

cyfarfod. Rydym yn siarad lot am lwyddiant – trafod y pethau ’ni’n gwneud yn dda a’r pethau ’dan ni angen cario ’mlaen i wella. Mae’n well fel hyn nawr.’ Dysgwr, ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg

**Dysgwyr mewn ysgolion uwchradd**

*Cynnwys dysgwyr mewn penderfyniadau am eu dysgu*

13.19 O gymharu â’u cymheiriaid mewn ysgolion cynradd, roedd dysgwyr mewn ysgolion uwchradd yn dweud gan amlaf fod ganddynt lai o ran mewn penderfyniadau am eu dysgu. Er hynny, roedd dysgwyr Blwyddyn 7 a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws wedi nodi y gofynnir iddynt ddarparu adborth i athrawon am wersi a themâu a astudiwyd ganddynt. Roeddent wedi dweud eu bod yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu a siapio agweddau o’u dysgu. Mewn un enghraifft, nododd dysgwyr mewn ysgol uwchradd y gofynnwyd iddynt ddweud sut y dylid trefnu tasg yn y dosbarth – roeddent wedi penderfynu cwblhau’r dasg mewn grwpiau bach a chytunodd yr athro ar hynny.

*Barn am gynnwys y cwricwlwm*

13.20 Mewn rhai achosion, nododd dysgwyr mewn ysgolion uwchradd eu bod yn adnabod cysylltiadau rhwng Meysydd neu bynciau roeddent yn eu hastudio. Nododd rhai dysgwyr ei bod yn ymddangos bod athrawon mewn un pwnc yn ymwybodol o’r hyn roeddent yn ei astudio mewn pynciau eraill ac y byddent yn tynnu sylw at y gorgyffwrdd. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir am y rhan fwyaf o grwpiau.

13.21 Roedd un grŵp o ddysgwyr mewn ysgol uwchradd yn cofio dylunio car (mewn Dylunio a Thechnoleg), astudio aerodynameg (Gwyddoniaeth) a dyfeiswyr mewn pynciau eraill, gan gydnabod bod hyn wedi’i gynllunio. Roedd un arall yn gallu disgrifio cysylltiadau rhwng gwersi Addysg Gorfforol a gwersi coginio a gawsant yr un diwrnod yn rhan o’r thema byw’n iach. Roedd eraill wedi nodi bod athrawon wedi cynllunio tasgau cysylltiedig rhwng y celfyddydau mynegiannol, Saesneg a Chymraeg. Soniodd un dysgwr am ddadansoddi data a gasglodd yn ystod arbrawf gwyddonol mewn gwers Mathemateg.

13.22 Nododd dysgwyr eu bod yn gweld cysylltiadau rhwng ieithoedd rhyngwladol a'r Gymraeg (mewn ysgol cyfrwng Saesneg). Nododd un cyfranogwr:

> 'Yn Sbaeneg, gallaf gyfieithu geiriau a gwneud brawddegau. Os byddaf i'n mynd ar wyliau nawr i Sbaen, byddaf i'n gallu cyfieithu i'm teulu. Mae'n gwneud i mi deimlo'n fwy hyderus mewn ieithoedd ac mae'n cael effaith mewn gwersi Cymraeg – rydw i'n fwy hyderus nawr. Mae'r ddau athro yn defnyddio Mats (adnoddau adeiladu brawddegau) felly mae yna gysylltiadau yn y ffordd rydyn ni'n dysgu'r ddwy iaith.' Dysgwr, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

13.23 Gofynnwyd i ddysgwyr a fyddent yn siarad am y pedwar diben yn yr ysgol. Nododd dysgwyr Blwyddyn 7 nad oedd cynifer o gyfeiriadau at y pedwar diben yn yr ysgol uwchradd ag yr oedd yn yr ysgol gynradd, lle'r oedd mwy o gyfeiriadau ar y pryd at sgiliau sy'n gysylltiedig â'r pedwar diben.

*Cynnydd*

13.24 Nododd dysgwyr mewn ysgolion uwchradd a gymerodd ran mewn trafodaethau bod adborth yn bwysig o ran cefnogi eu cynnydd. Roeddent hefyd wedi dweud bod athrawon yn trafod eu hagweddau at ddysgu, gan eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros ansawdd eu gwaith.

13.25 Nododd dysgwyr mewn ysgolion uwchradd eu bod yn cael amser i fyfyrio er mwyn adolygu eu llyfrau a gwneud sylwadau amdanynt.

> 'Os byddaf i'n cael pethau'n anghywir, yna gallaf i ddysgu o'm camgymeriad er mwyn ei gael yn iawn. Bydd yr athro yn ailadrodd pethau mewn gwersi os bydd angen help arnon ni i wneud rhyw waith.' Dysgwr, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

13.26 Dywedodd dysgwyr iddynt sylwi bod athrawon wedi addasu eu haddysgu ar ôl i ddisgyblion gael bod rhai agweddau (o Saesneg) yn anodd eu deall.

> '[Ar ôl cael bod rhywbeth yn anodd]…mae fy athro Saesneg yn dweud y bydd yn addysgu pethau mewn ffordd wahanol y tro nesaf. Byddwn ni'n rhoi adborth fel dosbarth cyfan i'r athro.' Dysgwr, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

> 'Mewn Mathemateg ym Mlwyddyn 6 doeddwn i ddim yn gallu rhannu. Rydw i'n gallu gwneud nawr, roedd y cymorth a ges i gan yr athrawes wedi fy helpu. Roedd hi wedi fy annog i ddal ati, pan oedden ni'n cael pethau'n anghywir yn y cwisiau, roedden ni'n cael trio eto. Mae'r athrawes yn rhoi gwahanol ddulliau i ni i

weld pa rai sy'n gweithio orau i ni. Mewn Gwyddoniaeth, rydyn ni'n cael gwneud pethau mewn gwahanol ffyrdd i weld beth sydd orau gennyn ni. Mae'n well nag yn yr ysgol gynradd.'

13.27 Roedd dysgwyr mewn un ysgol, lle mae tasgau cofio ac adalw yn rhan bwysig o'r dull o ddarparu'r cwricwlwm, wedi gwneud sylwadau am werth y ffordd hon o weithredu:

> 'Ym mhob gwers, byddwn ni'n dechrau drwy fynd dros beth roedden ni wedi'i wneud y tro diwethaf. Mae hyn yn ein helpu i gofio pethau. Gall fod yn anodd ac rydw i'n meddwl y dylen ni gael [sesiynau] adalw hefyd ar ddiwedd pob gwers – fel y gallwn ni fynd dros beth rydyn ni newydd ei ddysgu.' Dysgwr, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

13.28 Mewn un grŵp, roedd dysgwyr wedi myfyrio ar y system cod lliw a ddefnyddir yn eu hysgol i adrodd ar gynnydd mewn pynciau penodol (coch, oren, gwyrdd). Mynegwyd gwahanol farnau yn y grŵp hwn am werth y model a ddefnyddir. Teimlai rhai cyfranogwyr fod y system yn glir a'i bod yn helpu i'w hysgogi.

> 'Byddaf i'n gosod targedau fy hun ar gyfer unrhyw feysydd oren sydd gen i yn fy adroddiad. Roedd hi'n glir i mi ble roedd angen i mi wella. Mae'r pynciau'n cael eu rhannu'n adrannau yn yr adroddiad ac mae'n glir pa feysydd y mae angen i chi ganolbwyntio arnyn nhw... mae'r lliwiau yn yr adroddiad yn gallu rhoi hwb i chi.' Dysgwr, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

> 'Yn y tymor cyntaf, roeddwn i yn set tri. Roedden nhw wedi dweud wrthyf i nad oeddwn i'n gwella ond roeddwn i'n gwybod y gallwn i wneud yn well. Wedyn ces i liw gwyrdd bob tro a gallwn i weld fy mod i wedi gwella'n fawr. Roeddwn i wedi gwella am fy mod i wedi gwneud y tasgau dechreuol a roddwyd ar ddechrau'r gwersi – ac roedd hynny'n help mawr.' Dysgwr, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

13.29 Nid oedd pob un o'r cyfranogwyr yn glir ynghylch beth mae eu hathrawon yn chwilio amdano er mwyn gwneud cynnydd a sicrhau sgôr 'gwyrdd' mewn gwahanol bynciau:

> 'Mae angen i athrawon fod yn gliriach am y tasgau a'r sgiliau. Ar ddechrau'r tymor, dylen nhw ddweud wrthyn ni beth mae angen ei wneud i gael sgôr gwyrdd. Byddwn ni'n cael ein hadroddiadau a'n sgoriau a dim byd arall, a fyddwn ni ddim yn gwybod pam roedden ni wedi cael y sgoriau hynny. Dydyn ni ddim yn cael gwybod beth mae angen ei wneud i gael sgôr gwyrdd, rhaid i ni geisio deall hynny. Yn y ddau adroddiad byr, fyddwn ni ddim yn cael 'Camau Nesaf' – byddai hynny'n help.' Dysgwr, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

## 14. Casgliadau a materion i'w hystyried

### Casgliadau cyffredinol

14.1 Mae ysgolion wedi parhau i wneud cynnydd cyson wrth weithredu eu trefniadau cwricwlwm newydd yn ystod y flwyddyn academaidd. Dros ddau gam yr ymchwil (Cam 1: Tachwedd 2022-Mawrth 2023 a Cham 2: Mai-Gorffennaf 2023) roedd ysgolion yn dangos ymrwymiad parhaus i weledigaeth a nodau'r Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, parheir i gyflwyno trefniadau newydd fesul cam, ac roedd uwch arweinwyr wedi pwysleisio y bydd yn cymryd rhai blynyddoedd i'r rhain gael eu sefydlu'n derfynol. Roedd y farn hon yn un a oedd yn cael ei rhannu hefyd gan uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau a oedd wedi dechrau treialu a gweithredu trefniadau newydd yn ystod y blynyddoedd blaenorol.

14.2 Felly, er bod y darlun yn un calonogol at ei gilydd, roedd cyfweliadau ag uwch arweinwyr dros ddau gam yr ymchwil wedi amlygu'r amrywiadau ar draws y system ysgolion yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o gyflwyno'r cwricwlwm yn ffurfiol. Mae'r amrywiadau hyn ar sawl ffurf: gwahaniaethau o ran cynnydd cyffredinol (gan ei bod yn ymddangos bod rhai ysgolion a lleoliadau wedi mynd yn bellach na'i gilydd ar gynllunio a gweithredu eu cwricwlwm); gwahanol raddau o sylw yn cael eu rhoi i rai agweddau o'r cwricwlwm (rhai Meysydd neu agweddau yn cael blaenoriaeth ar y dechrau wrth gyflwyno'r cwricwlwm fesul cam); gwahaniaethau yn y graddau y mae athrawon yn mynd ati i ddiwygio; a gwahaniaethau yn y ffordd y mae clystyrau'n cydweithio a gwahanol lefelau o gydweithio strategol a bwriadus.

14.3 Un sylw a gododd oedd, er gwaethaf y ffaith bod y cwricwlwm yn weithredol, nad yw'r holl ysgolion a lleoliadau wedi cwblhau gwaith ymgysylltu a chynllunio strategol[36] ymlaen llaw i ategu pob agwedd ar y diwygiadau. Dywedodd uwch arweinwyr fod gweithgarwch ar ymgysylltu, gwneud synnwyr a gwaith i feithrin dealltwriaeth o fodel cysyniadol y cwricwlwm gydag athrawon yn digwydd ochr yn ochr â'r camau cyntaf ar weithredu. Nododd rhai arweinwyr fod y gweithredu'n

[36] Fel a nodwyd yn y canllawiau 'Cwricwlwm i Gymru: y daith i weithredu'r cwricwlwm' (Cwricwlwm i Gymru: y daith i weithredu'r cwricwlwm), dylai ysgolion feithrin dealltwriaeth o fodel cysyniadol y cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â deunyddiau a llenyddiaeth a gwneud synnwyr ohonynt, a datblygu neu ddiweddaru eu gweledigaeth.

digwydd heb fod amser (ac adnoddau) ar gael i allu ymroi i'r meddwl mwy strategol ac athronyddol am y newidiadau sydd eu hangen mewn dysgu ac addysgu.

14.4 Roedd tri mater arall wedi codi'n gyson – yn enwedig yn ystod yr ail set o gyfweliadau – y dywedir eu bod yn effeithio ar waith ysgolion a lleoliadau i gynllunio a gweithredu'r trefniadau cwricwlwm newydd: cyllidebau ysgol, trawsnewid y ddarpariaeth ADY a phresenoldeb disgyblion. Dywedodd uwch arweinwyr fod pwysau ar gyllidebau ysgol yn golygu nad yw ysgolion a lleoliadau yn gallu neilltuo adnoddau fel y byddent yn dymuno i ryddhau arweinwyr canol ac athrawon i gyflawni'r gwaith cynllunio a datblygu yr hoffent ei weld. Yn gysylltiedig â hyn, roedd rhai uwch arweinwyr wedi nodi bod diwygiadau eraill sy'n mynd yn eu blaen – yn enwedig rhai i drawsnewid y system ADY– yn cael effaith ar yr amser sydd ar gael i ymrwymo i agweddau ar ddiwygio'r cwricwlwm. Yn drydydd, nododd uwch arweinwyr nad yw lefelau presenoldeb wedi gwella ers y pandemig a'u bod yn parhau'n destun pryder. Teimlai uwch arweinwyr, os bydd y lefelau presenoldeb isel yn parhau, fod perygl i hyn gael effaith negyddol ar gynnydd y dysgwyr a hefyd, os na roddir sylw iddo, ar ganlyniadau ac uchelgeisiau tymor hwy y Cwricwlwm i Gymru.

**Cynnydd cyffredinol**

14.5 **Yn gyffredinol, roedd uwch arweinwyr yn y 62 o ysgolion a lleoliadau sy'n gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn ystod 2022/23 ac a gyfwelwyd yn ystod ail gam yr ymchwil wedi dweud bod eu trefniadau cwricwlwm newydd yn mynd yn eu blaen yn dda.** Nododd uwch arweinwyr eu bod yn derbyn eu bod yn cymryd rhan mewn proses diwygio hirdymor ac y byddai'n cymryd nifer o flynyddoedd i'r trefniadau newydd ymsefydlu. Mae uwch arweinwyr yn ymwybodol o'r angen i ddatblygu'r cwricwlwm newydd drwy ddull ailadroddus, ac ar sail adolygu, gwerthuso a mireinio parhaus. Felly bydd yn bwysig iawn bod prosesau adolygu mewnol yr ysgol yn effeithiol a thrylwyr er mwyn gallu gweithredu'r cwricwlwm yn llwyddiannus dros y tymor canolig a hwy.

14.6 **Un o'r casgliadau yng ngham cyntaf yr ymchwil oedd ei bod yn ymddangos bod agwedd a hyder uwch arweinwyr yn dylanwadu ar gynnydd eu hysgol neu leoliad a'i dull o weithredu'r cwricwlwm.** Er bod nifer o uwch arweinwyr yng

Ngham 2 wedi dweud eu bod yn fwyfwy cyfforddus wrth reoli'r broses diwygio, roedd lleiafrif yn parhau i fynegi ansicrwydd ac yn teimlo eu bod yn cael eu llethu gan raddau'r newidiadau sy'n gysylltiedig. Mae'n bwysig bod partneriaid yn yr haen ganol yn gallu adnabod ac ymgysylltu ag uwch arweinwyr sy'n teimlo eu bod yn ei chael yn anodd rheoli'r broses a bod yr uwch arweinwyr hynny'n gallu eu cyfeirio at ffynonellau cymorth priodol.

14.7 **Mae'r ymchwil yn dangos bod amrywiadau hefyd yn lefelau'r hyder ac ymgysylltu ymysg arweinwyr canol ac athrawon.** Dywedwyd bod nifer o athrawon yn perchenogi'r gwaith o gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm, gan groesawu'r ymreolaeth a'r cyfleoedd y mae hyn yn eu cynnig. Roedd uwch arweinwyr yn ei gweld yn bwysig caniatáu amser i'r athrawon hyn ar gyfer dysgu, ymchwilio, cynllunio a chydweithio er mwyn meithrin yr ymagweddau ac ymddygiadau hyn ymysg staff. Mewn achosion eraill, clywodd yr ymchwilwyr am amharodrwydd ymysg athrawon i droi oddi wrth arferion a dulliau sefydledig, yn enwedig mewn perthynas ag asesu. Yn yr achosion hyn, roedd uwch arweinwyr wedi nodi bod angen mwy o amser a chymorth i feithrin hyder, gwybodaeth a sgiliau'r aelodau staff hyn.

14.8 **Mae cydweithio a gweithgarwch mewn clystyrau wedi chwarae rhan bwysig wrth helpu i sicrhau cyd-ddealltwriaeth o gysyniadau allweddol ac wrth ddatblygu dulliau ar y cyd o ymdrin â chynllunio a chynnydd y dysgwr.** Nododd y rhan fwyaf o uwch arweinwyr fod y cydweithio o fewn eu clwstwr yn gadarn ac wedi datblygu dros amser i ganolbwyntio ar agweddau penodol o'r cwricwlwm. Roedd y cydweithio o fewn clystyrau fel arfer yn cynnwys nifer o staff o wahanol ysgolion neu leoliadau, wedi'u grwpio ar sail meysydd pwnc neu themâu gan mwyaf. Gwelwyd yn y ddau gam ymchwil fod gweithio o fewn clwstwr wedi helpu i liniaru rhywfaint o'r ansicrwydd a deimlwyd gan arweinwyr ac ymarferwyr.

14.9 Mewn rhai achosion, dywedwyd bod y gweithgarwch o fewn y clwstwr ar gam cymharol gynnar yn ei ddatblygiad. Yn yr achosion hyn, dywedodd uwch arweinwyr nad oeddent yn cael y gefnogaeth a sicrwydd allanol agos-atoch hwnnw yr oedd arweinwyr eraill wedi'i nodi'n un o'r prif fanteision o gydweithio agos mewn clwstwr.

14.10 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd a oedd yn paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 wedi penderfynu peidio â gwneud hynny yn ystod 2022-23 am eu bod am dreulio blwyddyn arall yn treialu a mireinio rhai agweddau o'u cwricwlwm newydd. Dywedodd rhai fod ffactorau fel effaith y pandemig, arolygiadau ysgol a newidiadau diweddar yn arweinyddiaeth yr ysgol wedi dylanwadu ar eu penderfyniad. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn credu eu bod yn gwneud cynnydd da ar eu cwricwlwm ac yn cydnabod y byddai angen ei adolygu a'i fireinio'n barhaus. Roedd uwch arweinwyr wedi penderfynu cadw disgyblaethau pwnc a chymell cydweithio o fewn meysydd, yn hytrach na mabwysiadu dull seiliedig ar feysydd. Roeddent wedi nodi ei bod yn bwysig mapio eu gweithgarwch ar y cwricwlwm er mwyn sicrhau bod ei gwmpas yn ddigonol, er mwyn disgrifio cynnydd ac er mwyn osgoi dyblygu cynnwys ar draws meysydd neu grwpiau blwyddyn. Roedd yr ysgolion hyn yn gweithio hefyd i feithrin cyd-ddealltwriaeth o gynnydd, a rhai ohonynt yn canolbwyntio ar y pontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 ac eraill yn mapio cynnydd ar draws yr holl grwpiau oedran. Yn yr un modd ag ysgolion a lleoliadau a oedd eisoes yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, dywedodd uwch arweinwyr mewn ysgolion a oedd yn paratoi i'w weithredu o fis Medi 2023 fod neilltuo amser digonol i fireinio eu ddulliau yn ystyriaeth bwysig yn ogystal â phryderon am natur cymwysterau yn y dyfodol a'u cysondeb â'r Cwricwlwm i Gymru.

**Elfennau penodol yn y cwricwlwm**

14.11 **Mae'r rhan fwyaf o ysgolion a lleoliadau sy'n gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn 2022/23 yn mynd ati'n raddol i integreiddio'r thema gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith fel elfen drawsbynciol yn y cwricwlwm.** Mae ysgolion a lleoliadau yn datblygu neu'n ceisio ailsefydlu cysylltiadau â chyflogwyr a sefydliadau lleol er mwyn hyrwyddo gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith a helpu i gyfoethogi profiadau dysgwyr. Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd yn fwy tebygol o nodi eu bod ar gam cymharol gynnar wrth weithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn eu cwricwlwm a bod y thema hon yn un gymharol newydd iddynt. Cyfeiriodd rhai uwch arweinwyr at eu defnydd o'r adnoddau sydd ar gael i'w helpu i gynllunio, darparu a hunanwerthuso gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith. Er hynny, roedd rhai'n teimlo bod angen mwy o

gymorth ac nid oeddent yn ymwybodol o'r adnoddau a oedd ar gael iddynt. Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 wedi nodi eu bod yn cyflawni gweithgareddau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith sy'n debyg i'r rheini a gyflawnir gan ysgolion sydd eisoes yn gweithredu'r cwricwlwm, ond roeddent yn fwy tebygol o nodi eu bod ar gam cynnar wrth ei integreiddio'r gweithgareddau hyn ar draws y cwricwlwm. **Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, y rheini sy'n gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn 2022/23 a'r rheini sy'n paratoi i'w weithredu, wedi dweud bod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar hyder dysgwyr a'u defnydd o'r Gymraeg,** yn enwedig ymysg dysgwyr nad oeddent yn siarad Cymraeg gartref ac mewn ardaloedd lle nad oedd y Gymraeg yn cael ei siarad yn eang fel iaith gymunedol. Mae ysgolion a lleoliadau yn rhoi pwyslais ar lafaredd yn Gymraeg er mwyn delio â'r diffyg sgiliau a ganfuwyd yn y cyswllt hwn. Nododd uwch arweinwyr fod y Cwricwlwm i Gymru yn cynnig hyblygrwydd iddynt i addasu eu ffyrdd o ddysgu ac addysgu mewn ymateb i'r her hon, sydd yn debygol o barhau yn y blynyddoedd i ddod.

14.12 **Nododd uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg eu bod yn canolbwyntio ar hyrwyddo sgiliau iaith Gymraeg a defnydd achlysurol o'r Gymraeg mewn ystafelloedd dosbarth ac yn amgylchedd ehangach yr ysgol.** Dywedodd uwch arweinwyr fod y rhaglen **'**Cymraeg Campus/Siarter Iaith' yn darparu fframwaith defnyddiol a chymhelliant i hybu'r gwaith hwn. Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau sy'n gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn 2022/23 a'r rheini sy'n paratoi i weithredu'r cwricwlwm wedi rhoi gwybod am anawsterau wrth lenwi swyddi ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg a'r rheini sy'n gymwys i addysgu Cymraeg fel pwnc. Mewn rhai achosion, y farn oedd bod prinder staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg yn golygu eu bod yn wynebu heriau wrth gwrdd â'r disgwyliadau mewn perthynas â dysgu ac addysgu Cymraeg yng nghanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru. Mewn ysgolion sy'n paratoi i weithredu'r cwricwlwm o fis Medi 2023, dywedodd uwch arweinwyr fod mwy o sylw yn cael ei roi i hanes a diwylliant Cymru ar draws y cwricwlwm nag o'r blaen yn ogystal â ffocws ar wella canfyddiadau dysgwyr a rhieni o werth y Gymraeg.

14.13 **Roedd amrywiadau sylweddol yn y cynnydd a ddisgrifiwyd gan uwch arweinwyr mewn perthynas ag ymgorffori Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol fel rhan o'u cwricwlwm newydd.** Mewn llawer achos, roedd ysgolion a lleoliadau a deimlai nad oedd yr agwedd hon yn un newydd iddynt yn rhai a oedd wedi'u lleoli mewn ardaloedd mwy amrywiol ac a oedd â hanes i edrych ar amrywiaeth o fewn y cwricwlwm a oedd ar waith cyn y Cwricwlwm i Gymru. Roedd nifer o uwch arweinwyr wedi nodi bod lefel y wybodaeth a'r hyder ymysg staff yn isel yn y rhan hon o'r cwricwlwm, yn enwedig mewn ysgolion neu leoliadau lle'r oedd lefelau isel o amrywiaeth ymysg y dysgwyr a/neu'r staff addysgu. Roedd nifer o uwch arweinwyr wedi ymgysylltu ag arbenigwyr allanol (DARPL yn benodol) er mwyn cael cymorth yng nghyswllt gwybodaeth a chynllunio. Mewn ysgolion uwchradd a oedd yn paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023, dywedodd uwch arweinwyr eu bod yn gwneud cynnydd da wrth weithredu'r agwedd hon o'r cwricwlwm, er bod rhai wedi nodi bod y cynnydd yn amrywio rhwng pynciau a Meysydd. Roedd uwch arweinwyr yn yr ysgolion hyn wedi rhoi gwybod am faterion a phryderon tebyg i'r rheini mewn ysgolion sydd eisoes yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, a rhai ohonynt wedi mynegi'r awydd am gael rhagor o hyfforddiant ac enghreifftiau o arferion da.

**Cynnydd**

14.14 **Dywedodd uwch arweinwyr eu bod yn parhau i ddatblygu eu dulliau o ymdrin â chynnydd, ac roedd nifer wedi rhoi mwy o sylw i'r agwedd hon ar gynllunio eu cwricwlwm yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae ysgolion a lleoliadau yn parhau i gydweithio mewn clystyrau i ddatblygu eu dulliau o hyrwyddo cynnydd y dysgwr a'u mireinio ymhellach, gan feithrin cyd-ddealltwriaeth o'r hyn yw cynnydd.** Mae camau cynnydd yn darparu fframwaith bras ar gyfer cynllunio cynnydd mewn nifer o ysgolion a lleoliadau, ac roedd modelau hefyd wedi'u seilio'n aml ar ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig, ac wedi'u cysylltu â disgrifiadau dysgu.

14.15 **Gan adleisio sylwadau a gafwyd yn ystod Cam 1 yr ymchwil, nododd uwch arweinwyr fod cynnydd mewn dysgu wedi'i ymgorffori yn nyluniad y cwricwlwm.** Roedd y syniad o gynllunio cwricwlwm sydd â chynnydd wrth ei wraidd

wedi cael ei fynegi'n amlach gan uwch arweinwyr yn ystod ail gam yr ymchwil, a hynny o bosibl yn adlewyrchu'r ffaith bod cynlluniau cwricwlwm a meddwl am gynnydd wedi datblygu ers dechrau'r flwyddyn academaidd.

14.16 Mae nifer o ysgolion a lleoliadau wedi datblygu modelau a disgrifyddion cynnydd i'w helpu i feincnodi cynnydd y dysgwyr mewn Meysydd penodol, mewn sgiliau neu yn eu hagwedd at ddysgu.

14.17 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi nodi bod dulliau o ymdrin â chynnydd yn canolbwyntio'n fwy ar y dysgwr ac **yn galw am annog dysgwyr i fyfyrio ar eu cynnydd mewn ffyrdd newydd.** Mae ysgolion a lleoliadau hefyd yn cymryd camau tuag at ffyrdd mwy personol ac ansoddol o adrodd ar gynnydd.

14.18 Gan adleisio barn a fynegwyd yn ystod cam cyntaf yr ymchwil, roedd uwch arweinwyr yn parhau i leisio **pryder am wahaniaethau ac amrywiadau yn y dulliau o ymdrin â chynnydd wrth i ysgolion, lleoliadau a chlystyrau ddatblygu eu dulliau eu hunain o ymdrin â chynnydd.**

14.19 **Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 wedi dweud eu bod yn datblygu eu dulliau o ymdrin â chynnydd y dysgwr, ond roedd nifer bach ohonynt ar gam cynnar wrth gynllunio neu roeddent yn ansicr o'u dull o weithredu.** Nododd rhai uwch arweinwyr eu bod yn canolbwyntio ar feithrin cyd-ddealltwriaeth o gynnydd ar gyfer dysgwyr sy'n pontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 cyn mynd ymlaen i edrych ar grwpiau oedran eraill, tra oedd eraill yn datblygu dulliau mewn un Maes cyn mynd ymlaen at rai eraill. Nid oedd ysgolion sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 wedi cyrraedd pwynt eto lle'r oeddent yn cael adborth gan rieni am eu dulliau o adrodd ar gynnydd y dysgwr. Roedd uwch arweinwyr yn ystyried sut i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng adrodd ar gynnydd i rieni a hefyd cynnwys rhyw fesur o gyrhaeddiad tebygol eu plentyn yn y dyfodol.

### Asesu

14.20 **Mae ysgolion a lleoliadau yn parhau i wneud newidiadau mewn trefniadau asesu, gan ganolbwyntio'n fwy ar asesu ffurfiannol.** Dywedodd uwch arweinwyr

fod athrawon yn cymryd rhan yn amlach mewn trafodaethau proffesiynol (fel timau Maes neu mewn grwpiau eraill) ynghylch beth mae'r deilliannau o asesiadau ffurfiannol yn ei ddangos am y cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud, a sut y gall hyn gyfrannu at gynllunio a darparu'r cwricwlwm.

14.21 Fel a nodwyd yn ystod Cam 1, roedd uwch arweinwyr wedi gwneud sylw am y newid sydd ei angen mewn agwedd a ffordd o feddwl er mwyn dyfeisio a gweithredu dulliau newydd o asesu.

14.22 Nododd uwch arweinwyr eu bod wedi parhau i sylwi bod athrawon yn fwy hyderus wrth ddefnyddio dulliau asesu ffurfiannol, a hynny'n cael ei hyrwyddo drwy ddysgu proffesiynol yn ystod HMS, ymgysylltu ag arbenigwyr allanol ac ymgynghorwyr, a thrwy fwy o gydweithio â chymheiriaid i ddylunio dulliau asesu.

14.23 **Mae trefniadau asesu yn destun pryder o hyd i nifer o uwch arweinwyr.** Roedd y pryderon a godwyd yn ystod cam cyntaf yr astudiaeth wedi'u hailadrodd, sef: y bydd y diwygiadau'n arwain at fylchau mewn data asesu neu dystiolaeth y bydd gofyn i ysgolion a lleoliadau eu llenwi yn y pen draw; y gwaith sydd ei angen o hyd i ddatblygu trefniadau asesu ymhellach (yn enwedig ym Mlynyddoedd 8 a 9 mewn ysgolion uwchradd i sicrhau bod dysgwyr yn barod ar gyfer arholiadau TGAU); amrywiadau yn y dulliau a ddefnyddir gan ysgolion o fewn yr un clwstwr.

14.24 **Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 wedi dweud eu bod bellach yn ymgymryd â mwy o asesu ffurfiannol ar gyfer dysgu, yn treialu dulliau newydd mewn un neu ragor o Feysydd ac yn cynnwys dysgwyr yn y broses asesu.** Roedd uwch arweinwyr yn croesawu'r newid i ddulliau mwy ffurfiannol, unigoledig o asesu cynnydd ond teimlent fod mwy o her ynglŷn â thracio a monitro cynnydd dros amser, ac adrodd ar gohortau cyfan o ddysgwyr. Roedd rhai uwch arweinwyr yn petruso rhag troi oddi wrth ddulliau safonedig, cenedlaethol o asesu nes byddent yn cael mwy o sicrwydd am fesurau atebolrwydd ysgolion.

### Tegwch a chynwysoldeb

14.25 **Roedd uwch arweinwyr wedi pwysleisio eto y pwyntiau a godwyd yn ystod y cyfweliadau Cam 1 am degwch ac am y pwysigrwydd o gael dull o weithredu**

**sy'n 'canolbwyntio ar y dysgwr' yn eu hysgol neu leoliad.** Roedd ysgolion a lleoliadau yn croesawu'r cyfleoedd a geir drwy'r cwricwlwm i fod yn hyblyg ac ymatebol, a galluogi'r dysgwyr i lywio cynnwys y cwricwlwm.

14.26 **Roedd uwch arweinwyr wedi nodi bod pwysau ar gyllid yn achosi pryder, yn tanseilio gallu ysgolion a lleoliadau i sicrhau arlwy dysgu teg i ddysgwyr o bob gallu.** Roedd uwch arweinwyr wedi tynnu sylw at anawsterau o ran darparu lefelau staffio digonol i gwrdd ag anghenion dysgwyr, nid yn unig mewn perthynas â dysgwyr sydd ag angen mwy o gymorth wedi'i dargedu, ond hefyd o ran gallu cynnig her i'r disgyblion mwyaf galluog. Nododd uwch arweinwyr fod yr heriau hyn yn codi hefyd yng nghyd-destun yr angen i gwrdd â disgwyliadau wrth ddiwygio'r system ADY. Er bod uwch arweinwyr yn cefnogi ac yn rhoi blaenoriaeth i'r pwyslais a roddir ar wella tegwch drwy'r Cwricwlwm i Gymru, mae'n sicr yn her sy'n dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael i ysgolion a lleoliadau.

14.27 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 wedi dweud bod y Cwricwlwm i Gymru wedi cryfhau'r flaenoriaeth i degwch a chynwysoldeb, yn enwedig drwy'r sylw ychwanegol i addysgeg, lles a dulliau unigoledig o ymdrin â chynnydd ac asesu. Nid oedd uwch arweinwyr yn sicr a fyddai'r Cwricwlwm i Gymru yn gwella tegwch a chynwysoldeb ac yn delio â bylchau mewn cyrhaeddiad, gan fod hyn yn faes pwysig iddynt yn barod. Teimlai rhai y byddai'r sylw ychwanegol i addysgeg yn gwella ansawdd addysgu a chymorth i ddysgwyr ond roedd uwch arweinwyr hefyd yn teimlo bod ffactorau eraill, yn enwedig cyllid ysgolion a'r argyfwng costau byw, a oedd yn debygol o gael mwy o ddylanwad. Dywedodd uwch arweinwyr eu bod wedi sylwi ar gynnydd yn y bwlch rhwng sgiliau trawsgwricwlaidd y dysgwyr yn dilyn y pandemig a chynnydd yn nifer y dysgwyr sydd â phroblemau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

### Ymgysylltu â rhieni a gofalwyr

14.28 **O gymharu â Cham 1, roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau a oedd eisoes yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru wedi rhoi gwybod am ystod ehangach o ddulliau o ymgysylltu â rhieni a gofalwyr yn ystod Cam 2.** Er bod heriau o hyd wrth geisio cymell rhieni i ddod i ddigwyddiadau sy'n ymwneud yn

benodol â'r cwricwlwm, roedd uwch arweinwyr wedi rhoi gwybod am rywfaint o lwyddiant wrth fabwysiadu dulliau mwy arloesol ac anffurfiol o ymgysylltu â rhieni a gofalwyr. Roedd y rhain yn cynnwys digwyddiadau cyflwyno neu arddangosiadau lle byddai'r dysgwyr yn dangos eu gwaith, yn ogystal â rhagor o ddulliau cyfathrebu electronig drwy gyfrwng apiau ystafell ddosbarth neu lwyfannau e-ddysgu. Mewn gwrthgyferbyniad â Cham 1, nid oedd uwch arweinwyr yng Ngham 2 yn pryderu am adrodd ar gynnwys eu cwricwlwm ac roeddent yn canolbwyntio i fwy o raddau bellach ar adrodd i rieni ar gynnydd dysgwyr. Dywedodd uwch arweinwyr fod barn gadarnhaol gan rai rhieni a gofalwyr am y cynnydd yn nifer y cyfleoedd dysgu drwy brofiad roedd eu plentyn yn eu cael.

14.29 **Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023 wedi rhoi gwybod am ddulliau o weithredu a oedd yn debyg i'r rheini a nodwyd gan ysgolion a lleoliadau a oedd eisoes yn gweithredu'r cwricwlwm o ran hysbysu ac ymgysylltu â rhieni a gofalwyr ynghylch eu cwricwlwm newydd.** Roedd y rhain yn cynnwys ymgynghoriadau ar gynnwys y cwricwlwm, datblygu crynodebau o'r cwricwlwm a phytiau o wybodaeth am elfennau penodol. Yn yr un modd ag ysgolion a lleoliadau a oedd yn gweithredu'r cwricwlwm, roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion a oedd yn paratoi i'w weithredu o fis Medi 2023 wedi rhoi gwybod am heriau wrth ymgysylltu â rhieni ac ennyn ymateb i weithgareddau cysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru.

### Profiadau dysgwyr

14.30 Roedd dysgwyr mewn ysgolion cynradd wedi dweud eu bod yn mwynhau dysgu drwy destunau a phrosiectau sy'n cynnig cyfleoedd i ymchwilio'n ddwfn i bynciau a hefyd yn helpu i ddangos y cysylltiadau rhwng meysydd dysgu.

14.31 Dywedodd dysgwyr mewn ysgolion cynradd eu bod yn cael eu cynnwys yn aml mewn penderfyniadau am eu dysgu, gan gyfrannu at y gwaith o ddewis testunau, tasgau neu weithgareddau dysgu. Nododd dysgwyr eu bod yn gwerthfawrogi cael eu cynnwys mewn penderfyniadau, gan ddweud bod hyn yn helpu i'w hysgogi a theimlo brwdfrydedd. Roedd y dysgwyr hyn yn teimlo hefyd fod yr ystod o brofiadau roeddent yn eu mwynhau drwy'r ysgol – boed yn ymweliadau, perfformiadau,

ymarferiadau neu'n gyfleoedd i gydweithio â phartneriaid y tu allan i'r ysgol – yn helpu i gyfoethogi eu dysgu.

14.32 Dywedodd dysgwyr mewn ysgolion cynradd fod athrawon yn gosod amcanion dysgu penodol ac yn siarad â nhw'n rheolaidd am eu cynnydd. Roedd dysgwyr wedi nodi hefyd fod athrawon yn eu cymell i adolygu eu gwaith eu hunain, i drafod eu gwaith â'u cyd-ddisgyblion ac i feddwl sut y gallant barhau i wella.

14.33 At ei gilydd, roedd dysgwyr mewn ysgolion uwchradd wedi dweud eu bod yn cael llai o ddylanwad ar eu dysgu na'r hyn a nodwyd gan y rheini mewn ysgolion cynradd. Roeddent hefyd yn teimlo bod llai o gysylltiadau clir rhwng Meysydd neu bynciau roeddent yn eu hastudio, er bod dysgwyr mewn rhai grwpiau ffocws wedi darparu enghreifftiau o gysylltiadau rhwng pynciau a oedd wedi'u cynllunio gan athrawon.

14.34 Teimlai dysgwyr mewn ysgolion uwchradd fod athrawon yn rhoi pwyslais ar ddarparu adborth i hyrwyddo eu cynnydd mewn dysgu. Un neges glir a gafwyd oedd bod ysgolion yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn adrodd ar hyn mewn adroddiadau cynnydd, ochr yn ochr â chynnydd mewn sgiliau. Roedd rhai dysgwyr yn teimlo bod athrawon yn rhoi pwyslais ar gymell dysgwyr i adolygu eu gwaith eu hunain a hefyd i geisio gwella ansawdd eu gwaith.

14.35 Mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, roedd dysgwyr wedi tanlinellu pa mor bwysig oedd cael amgylchedd da yn yr ystafell ddosbarth o ran eu profiadau dysgu. Dywedodd dysgwyr fod amgylcheddau aflonyddol yn yr ystafell ddosbarth yn cael effaith sylweddol ar eu mwynhad o'r ysgol a'u gallu i ddysgu'n effeithiol.

14.36 Er na holwyd dysgwyr yn uniongyrchol am weithredu'r Cwricwlwm i Gymru, mae nifer o sylwadau yn dangos bod eu profiadau o'r cwricwlwm yn arwydd bod ysgolion yn ymdrin mewn ffyrdd newydd â chynllunio, dysgu ac addysgu a ffyrdd newydd o feddwl am gynnydd. Bydd effaith y ffyrdd newydd hyn o weithredu ar ddeilliannau dysgwyr a'u cyrhaeddiad yn dod yn gliriach dros amser.

### Materion i'w hystyried

14.37 Mae'r materion canlynol i'w hystyried wedi cael eu seilio ar ganfyddiadau adroddiadau Cam 1 a Cham 2. Nod yr ymchwil ragarweiniol hon i weithrediad cynnar y Cwricwlwm i Gymru oedd darparu mewnwelediadau cynnar i ystod eang o faterion. Ceir cyfleoedd mewn gweithgarwch gwerthuso yn y dyfodol, fel y cynigiwyd yn y 'Cynllun gwerthuso 2023 y Cwricwlwm i Gymru' i edrych yn fwy manwl ar rai o'r pwyntiau hyn, a chamau gweithredu cysylltiedig. Yn benodol, gallai gweithgarwch gwerthuso yn y dyfodol ystyried y materion hyn yng nghyd-destun y theori newid ar gyfer y diwygiadau, fel y nodir yn yr 'Astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru' (Llywodraeth Cymru, 2022c).

i. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gymell cydweithio rhwng ysgolion a lleoliadau, gan ganolbwyntio ar hyrwyddo cydweithio rhwng arweinwyr Meysydd wrth gynllunio'r cwricwlwm, ac wrth werthuso. Dylai hyn gynnwys cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd.

ii. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i hyrwyddo'r canllawiau ac adnoddau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith sydd ar gael ac annog ysgolion a lleoliadau i ymgorffori'r thema hon yn yr holl Feysydd, gan gysylltu dysgu â chyd-destunau yn y byd go iawn. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo'r pecyn cymorth gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, a gwaith partneriaid allweddol, yn cynnwys Gyrfa Cymru.

iii. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gymell a chynorthwyo ysgolion a lleoliadau i ymgorffori Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yn yr holl Feysydd. Dylai Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ystyried sut y gallant hwyluso mynediad gan ysgolion a lleoliadau at ganllawiau priodol o ansawdd da ac at gymorth ar gyfer cynllunio, darparu a hunanwerthuso.

iv. Mae cydnabyddiaeth i'r angen i gynyddu nifer yr athrawon a gweithwyr cymorth sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ac addysgu Cymraeg er mwyn cefnogi nodau'r Cwricwlwm. Fel rhan o'r prosesau i fonitro cyflawni 'Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg', dylai Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid nodi unrhyw agweddau ar ddarparu'r cwricwlwm ledled Cymru sy'n galw am ffocws neu gymorth ychwanegol.

v. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro sut mae ysgolion a lleoliadau yn hyrwyddo llafaredd yn y Gymraeg drwy eu trefniadau cwricwlwm newydd a lledaenu arferion da lle maent wedi'u nodi.

vi. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes dadl o blaid datblygu adnoddau ychwanegol i helpu i ddarparu ACRh, yn enwedig mewn ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig.

vii. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau, gan gydweithio â phartneriaid rhanbarthol, fod ieithoedd rhyngwladol yn cael eu hyrwyddo a'u darparu fel rhan annatod o'r trefniadau cwricwlwm newydd yn yr holl ysgolion a lleoliadau.

viii. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i annog ysgolion, lleoliadau a chlystyrau i gydweithio wrth ddatblygu dulliau ar y cyd o ymdrin â chynnydd y dysgwr ar sail cyd-ddealltwriaeth.

ix. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro'r goblygiadau dichonol o wahaniaethau yn y dulliau o fonitro cynnydd rhwng ysgolion, lleoliadau a chlystyrau, yn enwedig wrth ystyried sut i fonitro cynnydd ar lefel genedlaethol.

x. Roedd uwch arweinwyr wedi cyfeirio'n aml at awydd i gael sicrwydd bod eu dulliau o gynllunio'r cwricwlwm, mesur cynnydd ac, yn enwedig, asesu yn rhai priodol (ac 'ar y trywydd iawn'). Er bod cydweithio rhwng ysgolion yn cyfrannu i ryw raddau at gynnig sicrwydd, dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen cael rôl sy'n darparu her adeiladol allanol i ysgolion (yn enwedig mewn perthynas â chynnydd ac asesu) yn ystod y blynyddoedd cyntaf o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

xi. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro sut mae ysgolion a lleoliadau yn adrodd i rieni a gofalwyr ar gynnydd dysgwyr. Dylai hyn gynnwys y dulliau a ddefnyddir mewn rhai ysgolion uwchradd i ddarparu adroddiadau i rieni sy'n cynnwys rhagamcan o 'siwrnai' neu 'drywydd' y dysgwr mewn perthynas â'r tebygolrwydd o ennill cymwysterau.

xii. Roedd uwch arweinwyr wedi tynnu sylw at yr heriau ariannol y mae ysgolion a lleoliadau yn eu hwynebu wrth baratoi i weithredu cwricwlwm sy'n hybu

tegwch a chynwysoldeb i bawb. Roeddent wedi nodi bod costau sy'n gysylltiedig â darparu her a chymorth priodol i alluogi'r holl ddysgwyr i wireddu eu potensial yn llawn. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes cyfleoedd i ddarparu rhagor o gyllid wedi'i dargedu i ysgolion a lleoliadau er mwyn delio â rhai o'r heriau hyn.

## Atodiad A: Canllawiau trafod a ddefnyddiwyd yn ystod yr ymchwil

**Canllaw trafod Ton 2 ar gyfer cyfweliadau gydag uwch arweinwyr sy'n gweithredu'r cwricwlwm yn 2022/23**

**CYNNYDD CYFFREDINOL**

1. **Pan wnaethom siarad â chi [nodwch ddyddiad y cyfweliad cyntaf], dywedoch fod [crynhoi pwyntiau allweddol mewn perthynas â chynnydd cyffredinol]. Cyn i ni fanylu ar agweddau penodol, sut fyddech chi'n crynhoi'r cynnydd cyffredinol ers hynny?**
    - Beth sy'n gweithio'n dda? A ydych yn profi unrhyw rwystrau i gynnydd?

**DYLUNIO A GWEITHREDU CWRICWLWM AC ASESU**

2. **Rydym yn awyddus i glywed profiadau ysgolion o'r cwricwlwm a dylunio asesiadau mewn perthynas ag elfennau penodol o'r fframwaith Cwricwlwm i Gymru .**

**PROFIADAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â GYRFAOEDD A GWAITH**

**2a) Sut ydych chi wedi dechrau gweithredu addysg gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith fel rhan o gwricwlwm newydd eich ysgol?**

- Awgrymiadau: A yw trefniadau'n gweithio'n effeithiol/yn ôl y disgwyl hyd yn hyn? Ydych chi wedi wynebu unrhyw heriau?
- (Ar gyfer ysgolion cynradd) A yw hyn yn teimlo fel maes gymharol newydd ac os felly, sut ydych chi'n mynd ati i gynllunio ar gyfer hyn mewn ffordd drawsbynciol?
- Sut ydych chi'n gweithio gydag ysgolion eraill yn eich clwstwr (neu y tu hwnt) ar yr agwedd hon?
- Sut ydych chi'n gweithio gyda phartneriaid ar yr agwedd hon o'r cwricwlwm?
    - Sut ydych chi'n ymgysylltu â chyflogwyr ar hyn o bryd – busnesau lleol, busnesau bach a chanolig, mudiadau mwy, cyn-fyfyrwyr, entrepreneuriaid lleol? A oes sectorau penodol yr ydych yn ceisio ymgysylltu â nhw?
- Pa fathau o brofiadau ydych chi'n eu darparu (y tu hwnt i brofiad gwaith traddodiadol), a pha gymorth penodol fyddai o ddefnydd i chi?
- A oes unrhyw gymorth ychwanegol penodol sydd ei angen arnoch o ran yr agwedd hon ar y cwricwlwm (e.e. dysgu proffesiynol, arweiniad, adnoddau)? Gallai hyn gynnwys cymorth i wella arweinyddiaeth neu ymarfer proffesiynol.

**YR IAITH GYMRAEG**

**2b) Sut mae'r cwricwlwm newydd yn cefnogi ac yn hyrwyddo dysgu Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg?**

- Awgrymiadau: A yw trefniadau'n gweithio'n effeithiol/yn ôl y disgwyl hyd yn hyn? Ydych chi wedi wynebu unrhyw heriau?
- [Ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwy iaith] Sut ydych chi'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol / y tu allan i'r ystafell ddosbarth?
- A oes unrhyw gymorth ychwanegol penodol sydd ei angen arnoch o ran yr agwedd hon ar y cwricwlwm (e.e. dysgu proffesiynol, arweiniad, adnoddau)? Gallai hyn gynnwys cymorth i wella arweinyddiaeth neu ymarfer proffesiynol.

**HANES POBL DDUON, ASIAIDD AC ETHNIG LLEIAFRIFOL**

**2c) Sut ydych chi wedi dechrau ymgorffori hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnic Lleiafrifol fel rhan o'ch cwricwlwm newydd?**

- Awgrymiadau: A yw trefniadau'n gweithio'n effeithiol/yn ôl y disgwyl hyd yn hyn? Ydych chi wedi wynebu unrhyw heriau?
- Sut ydych chi'n cynllunio ar gyfer hyn mewn ffordd drawsbynciol?
- A oes unrhyw gymorth ychwanegol penodol sydd ei angen arnoch o ran yr agwedd hon ar y cwricwlwm (e.e. dysgu proffesiynol, arweiniad, adnoddau)? Gallai hyn gynnwys cymorth i wella arweinyddiaeth neu ymarfer proffesiynol.

**CYNNYDD**

**3. Buom yn siarad am gynnydd yn ystod ein cyfweliad diwethaf. Ydych chi wedi adolygu neu wneud unrhyw newidiadau i'ch dulliau o edrych ar gynnydd ers i ni siarad ddiwethaf?**

- Os felly, pam - beth wnaeth eich ysgogi i wneud unrhyw newidiadau?
- Beth fu'r dull o ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd (SUP) fel ysgol ac o fewn eich clwstwr?
    - Roedd y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddealltwriaeth gyffredin o gynnydd yn awgrymu defnyddio grwpiau cyfredol mewn ysgolion a chlystyrau. Sut mae hyn wedi gweithio ar lefel ymarferol?
    - Neu a ydych chi wedi gorfod datblygu grwpiau ychwanegol ar gyfer hyn?
- **Ydych chi wedi addasu neu ddatblygu ymhellach y ffordd rydych chi'n rhannu gwybodaeth gyda rhieni am gynnydd dysgwyr?**
    - Sut mae'r ymateb wedi bod gan rieni?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod y cwricwlwm yn herio pob dysgwr yn briodol ac yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer cyrhaeddiad dysgwyr? [NB i ymchwilwyr – y cyd-destun i'r cwestiwn hyn yw'r angen i ddeall dulliau o asesu cynnydd yn y byd 'ar ôl lefelau']

**ASESU**

**4. A ydych wedi adolygu neu wneud newidiadau i ddulliau asesu yn eich ysgol yn ystod y flwyddyn?**

- Os felly, pam - beth wnaeth eich ysgogi i wneud unrhyw newidiadau?
- Unrhyw heriau newydd a wynebir wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi?
- Sut mae asesu wedi llywio'r broses o gynllunio'ch cwricwlwm?
- A yw trefniadau'n gweithio'n effeithiol/yn ôl y disgwyl hyd yn hyn? Ydych chi wedi wynebu unrhyw heriau?
- **Ydych chi wedi addasu neu ddatblygu'r ffordd rydych chi'n rhannu gwybodaeth gyda rhieni am asesiad?**
    - Sut mae'r ymateb wedi bod gan rieni?
- A oes unrhyw gymorth ychwanegol penodol sydd ei angen arnoch o ran yr agwedd hon ar y cwricwlwm (e.e. dysgu proffesiynol, arweiniad, adnoddau)? Gallai hyn gynnwys cymorth i wella arweinyddiaeth neu ymarfer proffesiynol.

**TEGWCH**

**5. Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn gosod y disgwyliad y bydd y cwricwlwm yn cefnogi tegwch a chynhwysiant i bawb. Sut mae gweithredu eich cwricwlwm hyd yma yn helpu i godi disgwyliadau ar gyfer pob dysgwr a mynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad?**

- Awgrymiadau: Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i sicrhau bod yr ysgol yn lle cynhwysol i ddysgu?
- Sut ydych chi'n newid eich meddwl neu'r cwricwlwm ei hun i sicrhau tegwch, e.e. i fynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad?
    - Unrhyw enghreifftiau o newidiadau? Os nad oes newid wedi bod, beth yw'r rhesymau dros hynny?
    - Pa ganlyniadau fyddech chi'n disgwyl eu gweld sy'n dangos mwy o degwch a chynhwysiant dros amser?
- Pa ymateb sydd wedi bod gan ddysgwyr a rhieni i unrhyw ddulliau newydd a gymerwyd fel rhan o'r cwricwlwm newydd?

**YMGYSYLLTU Â RHIENI A GWARCHEIDWAID**

**6. Sut mae dulliau o ymgysylltu â rhieni a** gwarcheidwaid **wedi newid neu wedi cael eu datblygu ymhellach yn ystod y flwyddyn?**

- Sut ydych chi wedi cyfleu gwybodaeth am y cwricwlwm i rieni a gwarcheidwaid?
    - A ydych yn gwneud unrhyw beth gwahanol / arloesol i ymgysylltu â rhieni mewn perthynas â diwygio'r cwricwlwm? e.e. digwyddiadau a arweinir gan ddysgwyr / astudiaethau achos fideo?

- Sut ydych chi'n defnyddio crynodebau'r cwricwlwm fel rhan o'ch cyfathrebu â rhieni/ gwarcheidwaid?
    - A oes gennych unrhyw feddyliau ar sut y gallai'r crynodebau hyn ddiwallu anghenion rhieni yn well?
    - A fyddai canllawiau pellach ar gynnwys a defnydd crynodebau'r cwricwlwm yn ddefnyddiol?
- A yw rhieni a gwarcheidwaid yn cael eu hannog i gyfrannu at ddylunio'r cwricwlwm?
- A oes angen cymorth ychwanegol i ysgolion ymgysylltu â rhieni a'u cymuned leol wrth ddylunio'r cwricwlwm?

**UNRHYW SYLWADAU ERAILL**

**7. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu rhannu ar weithredu'r cwricwlwm newydd yn eich ysgol neu ar y diwygiadau yn ehangach?**

**Canllaw trafod ar gyfer cyfweliadau gydag uwch arweinwyr sy'n paratoi i weithredu'r cwricwlwm yn 2023/24**

**CYNNYDD CYFFREDINOL**

**1. Sut fyddech chi'n crynhoi cynnydd eich ysgol wrth weithredu'r cwricwlwm newydd [ers i ni siarad ddiwethaf, os yn berthnasol]?**

- Beth sydd wedi gweithio'n dda a pham? Beth sydd wedi cefnogi cynnydd eich ysgol?
- Beth sydd heb weithio cystal hyd yma? Ydych chi wedi wynebu unrhyw rwystrau i symud ymlaen hyd yma?
- Wrth edrych yn ôl, beth oedd y prif resymau i chi benderfynu gweithredu yn [enw'r ysgol] o fis Medi 2023 ymlaen (yn hytrach nag o fis Medi 2022)?

**DYLUNIO A GWEITHREDU'R CWRICWLWM A DULLIAU ASESU**

**2. Rydym yn awyddus i glywed profiadau ysgolion o ddylunio'r cwricwlwm a'r dulliau asesu mewn perthynas ag elfennau penodol o fframwaith y Cwricwlwm i Gymru**

**GWEITHIO AR DRAWS MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD**

2a) Yn gyntaf, beth yw eich argraffiadau o'r broses o gynllunio a gweithredu eich cwricwlwm ar draws ac o fewn meysydd dysgu a phrofiad?

- A oes unrhyw gymorth ychwanegol penodol sydd ei angen arnoch o ran yr agwedd hon ar y cwricwlwm (e.e. dysgu proffesiynol, canllawiau, adnoddau)? Gallai hyn olygu cefnogaeth i wella arweinyddiaeth neu ymarfer proffesiynol.

**ADDYSG CYDBERTHYNAS A RHYWIOLDEB**

2b) Sut ydych chi'n paratoi ar gyfer gweithredu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o fewn trefniadau cwricwlwm newydd eich ysgol?

- A oes unrhyw gymorth ychwanegol penodol sydd ei angen arnoch o ran yr agwedd hon ar y cwricwlwm (e.e. dysgu proffesiynol, canllawiau, adnoddau)? Gallai hyn olygu cefnogaeth i wella arweinyddiaeth neu ymarfer proffesiynol.

**IEITHOEDD RHYNGWLADOL**

2c) Sut mae dyluniad eich cwricwlwm wedi siapio a/neu wedi effeithio ar hyrwyddo ac addysgu ieithoedd rhyngwladol?

- A oes unrhyw gymorth ychwanegol penodol sydd ei angen arnoch o ran yr agwedd hon ar y cwricwlwm (e.e. dysgu proffesiynol, canllawiau, adnoddau)? Gallai hyn olygu cefnogaeth i wella arweinyddiaeth neu ymarfer proffesiynol.

**HANES POBL DDUON, ASIAIDD AC ETHNIG LLEIAFRIFOL**

**2d) Sut ydych chi'n paratoi ar gyfer ymgorffori hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnic Lleiafrifol fel rhan o'ch cwricwlwm newydd?**

- A oes unrhyw gymorth ychwanegol penodol sydd ei angen arnoch o ran yr agwedd hon ar y cwricwlwm (e.e. dysgu proffesiynol, arweiniad, adnoddau)? Gallai hyn gynnwys cymorth i wella arweinyddiaeth neu ymarfer proffesiynol.

**YR IAITH GYMRAEG**

**2b) Sut bydd eich cwricwlwm newydd yn cefnogi ac yn hyrwyddo dysgu Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg?**

- A oes unrhyw gymorth ychwanegol penodol sydd ei angen arnoch o ran yr agwedd hon ar y cwricwlwm (e.e. dysgu proffesiynol, arweiniad, adnoddau)? Gallai hyn gynnwys cymorth i wella arweinyddiaeth neu ymarfer proffesiynol.

**PROFIADAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â GYRFAOEDD A GWAITH**

**2a) Sut ydych chi'n paratoi ar gyfer gweithredu addysg gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith fel rhan o gwricwlwm newydd eich ysgol?**

- A oes unrhyw gymorth ychwanegol penodol sydd ei angen arnoch o ran yr agwedd hon ar y cwricwlwm (e.e. dysgu proffesiynol, arweiniad, adnoddau)? Gallai hyn gynnwys cymorth i wella arweinyddiaeth neu ymarfer proffesiynol.

**CYNNYDD**

**3. Sut mae'ch ysgol yn gweithio'n fewnol, a chydag ysgolion eraill, i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd dysgwyr?**

- Sbardun: Ydych chi wedi gweithio gydag ysgolion o fewn eich clwstwr?
- Ydych chi wedi gweithio gydag ysgolion sydd wedi dechrau gweithredu'r cwricwlwm ers Medi 2022?
- Sut bydd eich ysgol chi'n rhannu gwybodaeth am gynnydd dysgwyr gyda rhieni o dan y trefniadau newydd?

**ASESU**

4. Sut mae eich ysgol yn gweithio'n fewnol, a chydag ysgolion eraill, i gynllunio dulliau o asesu?

- Sbardun: Beth sydd wedi newid o ran eich dulliau o asesu
- Ydych chi wedi dechrau ymgorffori unrhyw newidiadau i drefniadau asesu wrth baratoi ar gyfer y flwyddyn nesaf? Os felly, beth sy'n newid?

- A oes unrhyw gymorth ychwanegol penodol sydd ei angen arnoch o ran yr agwedd hon ar y cwricwlwm (e.e. dysgu proffesiynol, canllawiau, adnoddau)? Gallai hyn olygu cefnogaeth i wella arweinyddiaeth neu ymarfer proffesiynol.

**TEGWCH**

**5. Mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn gosod y disgwyliad y bydd y cwricwlwm yn cefnogi tegwch a chynwysoldeb i bawb – mae hyn yn cynnwys dysgwyr o bob cefndir economaidd-gymdeithasol, dysgwyr Du Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Sut mae gweithredu eich cwricwlwm hyd yma yn helpu i godi disgwyliadau ar gyfer pob dysgwr a mynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad;**

- Sbardun: Pa gamau rydych chi'n eu cymryd i sicrhau bod yr ysgol yn lle cynhwysol i ddysgu?

**YMGYSYLLTIAD RHIENI A GWARCHEIDWAID**

**6. Sut mae'ch ysgol yn ymgysylltu â rhieni a gofalwyr er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd?**

- Sut ydych chi wedi cyfleu gwybodaeth am y cwricwlwm i rieni a gofalwyr?
- I ba raddau y mae gweithgarwch ymgysylltu â rhieni/gofalwyr wedi ychwanegu at faich gwaith staff yn yr ysgol? Sut mae ymarferwyr wedi ymateb i'r gweithgareddau ychwanegol hyn? Pa ymateb sydd wedi bod gan rieni a gofalwyr?
- Ydy rhieni a gofalwyr yn cael eu hannog i gyfrannu at ddylunio'r cwricwlwm?
- Oes angen cymorth ychwanegol ar ysgolion i ymgysylltu â rhieni a'u cymuned leol wrth ddylunio'r cwricwlwm.

**UNRHYW SYLWADAU ERAILL**

**7. Oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu rhannu ar weithredu'r cwricwlwm newydd yn eich ysgol neu ar y diwygiadau yn ehangach?**

**Canllaw trafod gyda dysgwyr**

<table>
<tr><th>Cwestiynau</th><th>Ton 1, Ton 2 neu'r ddau</th></tr>
<tr><td>[Nodyn i'r ymchwilydd: Cyfeirio at brosiect/thema y mae'r dysgwyr wedi bod yn gweithio arno yn ddiweddar. Gofyn i athro ymlaen llaw neu gyfeirio at nodiadau cyfweliadau]<br><br>1. Rydych chi wedi bod yn gweithio ar [brosiect/thema]. A ydych chi'n mwynhau'r gwaith rydych chi wedi bod yn gweithio arno?<br>• Ydy dysgu am ________yn gyffrous?<br><br>2. A ydych chi'n mwynhau ysgol ac yn ei gweld yn gyffrous? Pam/pam ddim?</td><td>1</td></tr>
<tr><td>3. Oeddech chi'n rhan o'r broses o ddewis y thema/prosiect rydych chi wedi bod yn gweithio arno?<br>• Sut mae athrawon yn gwrando ar eich syniadau am yr hyn rydych chi eisiau ei ddysgu?<br><br>• Ydych chi'n hoffi hi pan mae athrawon yn gofyn eich barn ar yr hyn yr ydych chi eisiau ei ddysgu? Pam? Pam ddim? Pa wahaniaeth mae'n ei wneud i chi?</td><td>1</td></tr>
<tr><td>4. Ydych chi'n meddwl bod yr hyn rydych chi'n dysgu yn eich helpu i weld sut mae gwahanol bynciau wedi'u cysylltu? Sut? [Holi am enghreifftiau o'r gwaith y maent wedi bod yn ei wneud]<br><br>Nod y cwricwlwm newydd yw helpu dysgwyr i ddod yn:<br>• uchelgeisiol a galluog; mentrus a chreadigol; egwyddorol a gwybodus; iach a hyderus – dyma'r pedwar diben.<br><br>5. Ydych chi'n siarad am y pedwar dibyn yn yr ysgol? Beth ydych chi'n meddwl amdanyn nhw? A ydyn nhw'n bwysig?</td><td>1</td></tr>
<tr><td>6. Ydych chi a'ch ffrindiau yn cael yr help sydd ei angen arnoch chi?<br>• Allwch chi feddwl am enghraifft/enghreifftiau lle rydych chi neu rhywun arall yn eich dosbarth/ysgol wedi bod angen help ychwanegol? A gawsant y cymorth yr oedd ei angen?</td><td>2</td></tr>
<tr><td>7. Ydych chi'n meddwl eich bod chi'n dysgu digon am bethau sy'n bwysig i chi o'r byd y tu allan i'r ysgol?<br><br>8. Ydych chi'n meddwl eich bod chi'n dysgu am amrywiaeth eang o bethau yn yr ysgol?<br><br>9. Ydych chi'n meddwl bod yr ysgol yn deg i bawb? Pam? Pam ddim?</td><td>1</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| • Ydy pawb yn cael yr un cyfle i gymryd rhan mewn gwahanol bethau? | |
| 10. Ydych chi'n meddwl bod yr ysgol yn eich helpu i gyfathrebu – i siarad ac ysgrifennu – yn ddal yn Gymraeg a Saesneg? | 1 |
| 11. Sut ydych chi'n gwybod os ydych chi wedi gwneud yn dda neu wedi symud ymlaen pan fyddwch chi'n dysgu yn yr ysgol?<br>• Sut ydych chi'n darganfod beth sydd angen i chi ei wneud nesaf i symud ymlaen neu wella?<br><br>12. Sut ydych chi'n siarad am y pethau hyn gyda'ch athro? [Holi am y ffordd y maent yn trafod hwn gydag athrawon e.e. ymateb i adborth er mwyn gwella ayb…] | 2 |
| 13. Ydych chi'n siarad gyda'ch athrawon am wthio neu herio eich hun i weithio'n galed neu osod disgwyliadau uchel i chi'ch hun?<br>• Os ydych, pa mor aml ydych chi'n cael trafodaethau o'r fath?<br><br>14. Ydych chi'n meddwl bod ysgol yn eich gwthio chi i weithio'n galed?<br>[Holi am enghreifftiau yn seiliedig ar y gwaith y maent wedi bod yn ei wneud…]<br>• Pa fathau o bethau ydy athrawon yn eu dweud wrthoch chi (neu yn ysgrifennu yn eich llyfrau) i'ch hannog chi i weithio'n galed/ i wneud eich gorau? | 2 |
| 15. Ydy'r gwaith rydych chi'n ei wneud yn eich ymestyn / herio chi?<br>• Os ydy, rhowch enghreifftiau.<br>• Ydych chi'n teimlo eich bod yn cael eich herio / ymestyn yn fwy mewn rhai pynciau nag mewn eraill? Pa rai? | 1 & 2 |
| 16. Ydych chi'n siarad am iechyd a lles yn yr ysgol?<br><br>17. Ydych chi'n teimlo bod yna gefnogaeth ar gael i chi i helpu gyda'ch lles corfforol a iechyd meddwl? | 2 |

## Atodiad B: Proffil sampl Cam 1

Cymerodd cyfanswm o 64 o uwch arweinwyr ran yng nghyfweliadau Cam 1. Roedd elfen ganolog o'r ymchwil yn cynnwys adeiladu ar – a gwella – y sampl o leoliadau a gynrychiolir yn yr adroddiad 'Ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer diwygiadau cwricwlwm ac asesu 2022' (Llywodraeth Cymru, 2022b). Cytunwyd ar fframwaith samplu gyda Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar recriwtio 64 o uwch arweinwyr, i gynnwys cymaint â phosibl o'r ymchwil ansoddol blaenorol hwn a'i ategu gydag uwch arweinwyr ychwanegol.

Cynhaliwyd cyfweliadau yng Ngham 1 gyda chyfanswm o 16 o uwch arweinwyr a oedd wedi cymryd rhan yn yr 'Ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer diwygiadau cwricwlwm ac asesu' (Llywodraeth Cymru, 2022b) yn ogystal â sampl ychwanegol o 48 o uwch arweinwyr.

Cynhaliwyd cyfweliadau gyda 35 o uwch arweinwyr yn yr ymchwil ansoddol flaenorol (Llywodraeth Cymru, 2022b) a oedd wedi cydsynio i gyswllt pellach. O'r rhain roedd 28 mewn ysgolion a oedd yn gweithredu'r cwricwlwm o fis Medi 2022. Gwahoddwyd y 28 o uwch arweinwyr hyn i gymryd rhan mewn cyfweliadau Cam 1, a chyfwelwyd 16 ohonynt (mewn rhai achosion, cyfwelwyd ag uwch arweinydd gwahanol yn yr un ysgol neu leoliad). Cafodd 48 o uwch arweinwyr ychwanegol eu recriwtio i gymryd rhan yng Ngham 1 yr ymchwil.

Roedd y sampl o 64 o uwch arweinwyr yn cynnwys 42 o gyfweleion o ysgolion cyfrwng Saesneg ac 14 o ysgolion cyfrwng Cymraeg.[37] Mae proffil y sampl a gyfwelwyd yn ôl y math o leoliad a chyfrwng (Tabl 3), a rhanbarth (Tabl 4) y lleoliad i'w weld isod.

[37] Yn cynnwys ysgolion dwy iaith. Roedd pedwar o gyfweleion o ysgolion arbennig a phedwar o UCDau; nid yw'r lleoliadau hyn yn cael eu categoreiddio yn ôl cyfrwng iaith.

## Table 3. Proffil y sampl a gyfwelwyd fesul sector a chyfrwng ieithyddol

| Sector | Canran y sampl o'r 64 a gyfwelwyd ym mhob categori | | | | Y nifer a gyfwelwyd | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfrwng Cymraeg** | Cyfrwng Saesneg | DDI* | Cyfanswm | Cyfrwng Cymraeg** | Cyfrwng Saesneg | DDI* | Cyfanswm |
| Cynradd a meithrin | 8% | 38% | 0% | 45% | 5 | 24 | | 29 |
| Ysgolion pob oed (Canol) | 3% | 3% | 0% | 6% | 2 | 2 | | 4 |
| Uwchradd | 11% | 25% | 0% | 36% | 7 | 16 | | 23 |
| Ysgolion arbennig | Ddim ar gael | Ddim ar gael | 6% | 6% | Ddim ar gael | Ddim ar gael | 4 | 4 |
| Unedau Cyfeirio Disgyblion | Ddim ar gael | Ddim ar gael | 6% | 6% | Ddim ar gael | Ddim ar gael | 4 | 4 |
| **Cyfanswm** | 22% | 66% | 13% | 100% | **14** | **42** | **8** | **64** |

*DDI - Dim dosbarthiad iaith.
**Mae'r categori cyfrwng Cymraeg yn cynnwys ysgolion dwy iaith

## Table 4. Proffil y sampl a gyfwelwyd yn ôl rhanbarth

| Rhanbarth daearyddol | Nifer yn y sampl | Canran yn y sampl |
|---|---|---|
| Y gogledd | 14 | 22% |
| Canol y De | 16 | 25% |
| Y Canolbarth a'r Gorllewin | 17 | 27% |
| Y De-ddwyrain | 17 | 27% |
| **Cyfanswm** | **64** | **100%** |